P1415-956

Swansea University
Prifysgol Abertawe

# Cywirdeb Ymchwil

## Fframwaith Polisi ar gyfer Moeseg a Llywodraethu Ymchwil

# CYNNWYS


| Adran | Pwnc | Tudalen |
|---|---|---|
| | Rhagair gan y Dirprwy Is-ganghellor | 4 |
| | Cwmpas | 5 |
| | Crynodeb gweithredol | 6 |
| 1 | Cyflwyniad | 7 |
| 2 | Cyfrifoldeb ac atebolrwydd | 7 |
| 3 | Llywodraethu ymchwil | 8 |
| 4 | Moeseg ymchwil | 8 |
| 5 | Egwyddorion ymchwil | 9 |
| Adran A | Strwythur Llywodraethu Ymchwil Prifysgol Abertawe<br>• Strwythur sefydliadol<br>• Strwythur y Colegau | 10-14 |
| Adran B | Polisi ar gymeradwyaeth foesegol<br>• Penderfynu a oes angen cymeradwyaeth foesegol<br>• Gweithdrefnau gwirio a sicrhau ansawdd | 15-16 |
| Adran C | Cyfrifoldebau Prifysgol Abertawe o ran Noddwyr Ymchwil<br>• Cyfrifoldebau Prif Ymchwilwyr | 17-19 |
| Adran D | Polisi ar ymchwil gofal iechyd a chymdeithasol<br>• Ymchwil gofal iechyd a chymdeithasol<br>• Fframwaith llywodraethu ymchwil<br>• Pwyllgorau Moeseg Ymchwil y GIG<br>• Awdurdod Meinweoedd Dynol<br>• SAIL (System Ddiogel ar gyfer Cysylltu Gwybodaeth Ddienw) | 20-22 |
| Adran E | Polisi ar ymchwil sy'n defnyddio anifeiliaid | 23 |
| Adran F | Polisi ar reoli peryglon ymchwil i'r amgylchedd | 24 |
| Adran G | Polisi ar drin honiadau o gamymddwyn ymchwil (ymchwil staff)<br>• Diffinio camymddwyn ymchwil<br>• Egwyddorion allweddol<br>• Gweithdrefn<br>• Apeliadau | 25-32 |
| Adran H | Polisi ar 'Chwythu'r Chwiban'<br>• Gweithdrefnau<br>• Adrodd ar ganlyniadau<br>• Camddefnyddio'r polisi a'r gweithdrefnau | 33-37 |
| Adran I | Polisi ar ddiogelu data ymchwil<br>• Beth yw Diogelu Data?<br>• Beth ddylai ymchwilydd ei wneud os bydd yn dymuno defnyddio data personol at ddibenion ymchwil? | 38-51 |
| Adran J | Polisi ar reoli data ymchwil<br>• Trin a chadw data personol<br>• Canllawiau ar gadw cofnodion ymchwil | 52-54 |
| Adran K | Ceisiadau am grant ymchwil - gweithdrefnau llywodraethu<br>• Adolygiad gan gydweithwyr | 55 |

| | | |
|---|---|---|
| | • Awdurdod llofnodi ar geisiadau am grantiau<br>• Cyfleusterau, offer, ac asesu risg<br>• Cofrestru prosiectau ymchwil | |
| Adran L | Polisi ar iechyd a diogelwch ymchwil | 56-57 |
| Adran M | Polisi ar Eiddo Deallusol a gweithdrefnau ar gyfer ei roi ar waith | 58-72 |
| Adran N | Cyhoeddi a lledaenu canfyddiadau ymchwil | 73-74 |
| Adran O | Polisi ar wrthdaro buddiannau o ran ymchwil, gwaith ymgynghori, a masnacheiddio Eiddo Deallusol | 75-82 |
| Adran P | Polisi ar asesu risg ymchwil (indemniad ac yswiriant)<br>Polisi ar addasrwydd arianwyr a chydweithredwyr | 83 |
| Adran Q | Polisi ar ymchwil myfyrwyr a chamymddwyn ymchwil gan fyfyrwyr | 84-91 |
| Adran R | Hyfforddiant mewn llywodraethu a moeseg ymchwil | 92-93 |
| Adran S | Rhestr Wirio Swyddfa Ymchwil a Chywirdeb y Deyrnas Unedig ar gyfer ymchwilwyr | 94-95 |
| Atodiad 1 | Diolchiadau | 96-97 |
| Atodiad 2 | Adnoddau defnyddiol | 97-99 |
| Atodiad 3 | Cyfarwyddyd i staff a myfyrwyr sy'n cyrchu deunydd ar-lein sy'n sensitif o ran diogelwch | 100-101 |
| Atodiad 4 | Terminoleg allweddol | 102-106 |
| Atodiad 5 | Rheoli data ymchwil Prifysgol Abertawe - gwybodaeth bellach | 107-108 |

## RHAGAIR

Mae Prifysgol Abertawe yn falch iawn o'i henw da am ymchwil ragorol, ac o ansawdd, ymroddiad a phroffesiynoliaeth ein hymchwilwyr. Rydym yn deall fod yn rhaid i gywirdeb fod yn nodwedd hanfodol o bob agwedd ar ymchwil, a chan ymddiriedir yn y Brifysgol i ymgymryd ag ymchwil, rhaid i ni ddangos, yn glir ac yn gyson, ein bod yn haeddu'r ymddiriedaeth a roddir i'n hymchwilwyr. Felly, mae'r Brifysgol yn disgwyl y bydd pawb sy'n ymwneud ag ymchwil yn glynu wrth y safonau uchaf oll o gywirdeb ymchwil ac yn ymddwyn, ac yn cynnal eu hymchwil, mewn modd priodol. Mae'r Fframwaith hwn yn amlygu'r disgwyliadau hyn yn glir, ac yn egluro mewn modd systematig sut bydd y Brifysgol yn ceisio sicrhau eu gwireddu yn ein holl weithgarwch ymchwil. Mae'r Fframwaith wedi'i alinio'n dynn â Choncordat Prifysgolion y Deyrnas Unedig i gynnal cywirdeb ymchwil. Rydym yn rhannu, ac yn llwyr gymeradwyo, pum ymrwymiad allweddol y Concordat:

- Rydym wedi ymrwymo i gynnal y safonau uchaf o ran cadernid a chywirdeb ym mhob agwedd ar ymchwil;

- Rydym wedi ymrwymo i sicrhau cynnal ymchwil yn unol â'r fframweithiau, ymrwymiadau a safonau moesegol, cyfreithiol a phroffesiynol perthnasol;

- Rydym wedi ymrwymo i gynnal amgylchedd ymchwil wedi'i danategu gan ddiwylliant cywirdeb ac wedi'i seilio ar lywodraethu da, arfer gorau, a chymorth ar gyfer datblygu ymchwilwyr;

- Rydym wedi ymrwymo i ddefnyddio prosesau tryloyw, cadarn a theg i fynd i'r afael â honiadau o gamymddwyn ymchwil os byddant yn codi; a

- Rydym wedi ymrwymo i gydweithio i gryfhau cywirdeb ymchwil ac i adolygu cynnydd yn rheolaidd mewn modd agored.

Rydym i gyd yn rhannu'r cyfrifoldeb am ddeall, cynnal, a hyrwyddo cywirdeb ymchwil a rhagoriaeth ymchwil, ac am sicrhau ein bod yn parhau i haeddu cael ein hymddiried gyda chymaint o brosiectau ymchwil hanfodol o bwysig ar draws amrediad llawn ein portffolio ymchwil, ein meysydd pwnc, a'n cymuned ymchwil. Mae'r Fframwaith hwn yn dangos ein penderfyniad i ymgorffori cywirdeb ymchwil wrth wraidd popeth a wnawn.

**Dirprwy Is-ganghellor, Ymchwil ac Arloesi**

## CWMPAS

Mae ***Cywirdeb Ymchwil: Fframwaith Polisi ar gyfer Moeseg a Llywodraethu Ymchwil*** yn 'ddogfen fyw', a chaiff ei hadolygu'n flynyddol gan Is-bwyllgor Moeseg a Llywodraethu Ymchwil y Brifysgol i sicrhau ei bod yn adlewyrchu arfer gorau, a'r ddeddfwriaeth lle bo hynny'n berthnasol, mewn ymchwil.

Nod y Fframwaith yw gosod safonau a disgwyliadau sy'n gwella ansawdd, cywirdeb a chydymffurfiad yr ymchwil, ac yn diogelu'r cyhoedd a'r ymchwilwyr fel ei gilydd.

Mae'r Fframwaith yn ddilys ar gyfer pawb sy'n cynnal ymchwil dan nawdd Prifysgol Abertawe. Mae'r egwyddorion a safonau ymchwil a amlygir yn y Fframwaith yn berthnasol ar bob cam o unrhyw brosiect ymchwil.

Mae **Ymchwil** yn ymwneud â chasglu gwybodaeth, ac mae moeseg ymchwil yn ymwneud â'r dulliau a ddefnyddir i gasglu a dadansoddi'r wybodaeth honno, yn ogystal â'i chyflwyno a'i chyhoeddi. Os bwriedir casglu gwybodaeth:

- nad yw ar gael yn gyhoeddus; a/neu
- sy'n ymwneud â defnyddio cyfranogwyr dynol (er enghraifft trwy holiadur neu gyfweliad), meinwe dynol, neu anifeiliaid, yna bydd angen, fel arfer, rhyw fath o adolygiad moesegol o'r ymchwil. Bydd angen rhyw fath o adolygiad moesegol ar gyfer ymchwil gan fyfyrwyr israddedig, myfyrwyr ôl-raddedig, a staff os bydd yr ymchwil yn bodloni'r meini prawf uchod.

Yn ôl llawlyfr Frascati, diffiniad arall o **ymchwil** yw gwaith creadigol ar sail systematig i gynyddu cyfanswm gwybodaeth, gan gynnwys gwybodaeth am y ddynoliaeth, diwylliant a chymdeithas, a defnyddio'r wybodaeth hon i greu cymwysiadau newydd.

Diffiniad **Ymchwilwyr** yw aelodau'r Brifysgol, gan gynnwys staff, myfyrwyr ôl-raddedig, a myfyrwyr eraill i'r graddau y maent yn ymwneud ag ymchwil, ac unigolion nad ydynt yn aelodau'r Brifysgol ond sy'n cynnal ymchwil ar dir y Brifysgol neu sy'n defnyddio cyfleusterau'r Brifysgol.

Mae'r Brifysgol yn gofyn bod ei holl staff, myfyrwyr, contractwyr annibynnol ac ymgynghorwyr, staff ymweld, staff emeritws, staff sydd ar gyd-gontract meddygol neu gontract er anrhydedd, ac unrhyw unigolyn arall sy'n cynnal ymchwil gan ddefnyddio cyfleusterau'r sefydliad neu ar dir y sefydliad neu dan nawdd y Brifysgol, yn cydymffurfio â'r egwyddorion a amlygir yn y ddogfen hon ac yn eu hyrwyddo, beth bynnag fo ffynhonnell eu hariannu neu faes eu hymchwil.

## CRYNODEB GWEITHREDOL

Mae ***Cywirdeb Ymchwil: Fframwaith Polisi ar gyfer Moeseg a Llywodraethu Ymchwil*** yn ddogfen drosfwaol sy'n nodi safonau, polisïau a gweithdrefnau ar gyfer rhoi 'llywodraethu ymchwil da' ar waith ym mhob maes pwnc. Mae'n amlinellu ymagwedd y Brifysgol tuag at gywirdeb ymchwil o ran cymeradwyaeth foesegol, camymddwyn ymchwil, ariannu ymchwil, adolygu gan gydweithwyr, cofrestru prosiectau ymchwil, a rheoli data ymchwil.

Datblygwyd y Fframwaith yn unol â chanllawiau'r ***Concordat Cynnal Cywirdeb Ymchwil, Côd Ymarfer Swyddfa Ymchwil a Chywirdeb y Deyrnas Unedig,*** a'r ***Fframwaith Llywodraethu Ymchwil ym maes Gofal Iechyd a Chymdeithasol yng Nghymru***.

Ar sail y cyfarwyddyd yn y Fframwaith, llunnir polisïau a gweithdrefnau moeseg a llywodraethu ymchwil penodol ar gyfer disgyblaethau unigol.

Is-bwyllgor Moeseg a Llywodraethu Ymchwil y Brifysgol sydd biau'r ddogfen hon, a bydd yr Is-bwyllgor yn rhoi'r fframwaith ar waith, ei fonitro, a'i adolygu gan gyflwyno adroddiad blynyddol i Bwyllgor Ymchwil y Brifysgol, i'r Senedd, ac i'r Cyngor.

## 1. CYFLWYNIAD

Mae'r Brifysgol yn sefydliad sy'n cynnal ymchwil ac yn cyflogi ymchwilwyr, ac sydd wedi llofnodi'r ***Concordat Cynnal Cywirdeb Ymchwil***, ac felly mae cyfrifoldeb arni i ddangos bod systemau addas o ran 'Cywirdeb Ymchwil: Moeseg a Llywodraethu' wedi'u hymgorffori yn ei phrosesau.

Mae'r Brifysgol yn ceisio cydymffurfio â'r holl ganllawiau a chodau ymarfer allanol perthnasol ar gyfer llywodraethu ymchwil, gan gynnwys y rhai a luniwyd gan y prif gyrff ariannu.

## 2. CYFRIFOLDEB AC ATEBOLRWYDD

Cyfrifoldeb pawb yw dangos tystiolaeth bod 'llywodraethu ymchwil' da ar waith. Dylai ymchwilwyr gydymffurfio â'r holl ddeddfau a statudau sy'n berthnasol i ymchwil, gan gynnwys Deddf Diogelu Data 1988, Deddf Meinwe Dynol 2004, Deddf Gallu Meddyliol 2005, Deddf Diogelu Grwpiau sy'n Agored i Niwed 2006, Rheoliadau Meddyginiaethau at Ddefnydd Dynol (Profion Clinigol) 2004, Deddf Anifeiliaid (Dulliau Gwyddonol) 1986, a chanllawiau'r Pwyllgor Rhyngwladol ar Safoni Arfer Clinigol Da.

Dylid atgyfnerthu ymrwymiad i gywirdeb ymchwil trwy'r amgylchedd ymchwil, y diwylliant ymchwil, arferion ymchwil, a hyfforddiant ymchwilwyr. Mae'r Brifysgol yn gyfrifol am:

- Cynnal y safonau uchaf o ran cadernid a chywirdeb ym mhob agwedd ar ymchwil;
- Cydymffurfio â'r holl ddeddfwriaeth weithredol o ran iechyd a diogelwch;
- Dangos codau ymarfer clir a fframwaith llywodraethu ymchwil;
- Sicrhau bod prif ymchwilwyr, staff a myfyrwyr ymchwil, ac unrhyw unigolyn arall sy'n cynnal ymchwil gan ddefnyddio cyfleusterau'r sefydliad neu ar dir y sefydliad yn ymwybodol o'r fframwaith llywodraethu ymchwil ac yn cydymffurfio ag e;
- Sicrhau bod trefniadau priodol o ran indemniad ac yswiriant ar waith ar gyfer unrhyw weithgarwch ymchwil a awdurdodir;
- Cyflawni swyddogaethau 'noddwr' o ran rheoli a monitro unrhyw waith sy'n ymwneud ag ymchwil;
- Dangos bod ganddi systemau ar gyfer monitro datblygiad proffesiynol parhaus staff ar bob lefel;
- Sicrhau cytundebau a systemau am adnabod a diogelu eiddo deallusol, ac am elwa arno;
- Sicrhau bod prosesau ar waith i alluogi unigolion i geisio unioni unrhyw niwed o ganlyniad i 'chwythu'r chwiban' gan staff ymchwil y Brifysgol, boed i fyfyrwyr ymchwil neu i rywun arall y mae gan y Brifysgol gyfrifoldeb amdano;
- Sicrhau bod systemau ar waith i ganfod twyll a mathau eraill o gamymddwyn ymchwil;
- Sicrhau bod systemau ar waith i brosesu unrhyw gamgymeriad neu gŵyn yn erbyn staff neu fyfyrwyr y Brifysgol, i fynd i'r afael â'r fath gamgymeriad neu gŵyn, ac i ddysgu gwersi ohono; a

- Sicrhau bod systemau ar waith i ganiatáu a hwyluso unrhyw archwiliad statudol, archwiliad arall, neu ymchwiliad sy'n deillio o gamgymeriad neu gŵyn yn ymwneud â'r ymchwil a wneir gan staff neu fyfyrwyr y Brifysgol.

**3. LLYWODRAETHU YMCHWIL**

Mae Llywodraethu Ymchwil yn gofyn bod gan y Brifysgol bolisïau a gweithdrefnau o ran ansawdd a rheoli risg, sydd wedi'u diffinio'n dda, ac sy'n:

- Diffinio safonau clir;
- Sicrhau bodloni'r safonau; a
- Sicrhau bod trefniadau ar waith i asesu, monitro a rheoli cydymffurfio â'r safonau ac i adrodd ar hynny.

Mae Llywodraethu Ymchwil yn ymdrechu'n gyson i wella safonau trwy amlygu egwyddorion, gofynion, a mecanweithiau. Mae'n disgrifio asesiadau ac arferion monitro er mwyn sicrhau:

- Cynnal cadernid a chywirdeb ym mhob agwedd ar ymchwil;
- Cynnal ymchwil yn unol â'r fframweithiau, ymrwymiadau a safonau moesegol, cyfreithiol a phroffesiynol perthnasol;
- Bod diwylliant cywirdeb a chymorth ar gael i ymchwilwyr;
- Bod y prosesau ar gyfer gwneud penderfyniadau'n dryloyw, gyda chyfrifoldebau clir a threfniadau monitro effeithiol;
- Bod prosesau cadarn a theg ar waith i ymateb i honiadau o gamymddwyn ymchwil; a
- Bod arferion ymchwil yn cael eu harchwilio a'u hadolygu'n rheolaidd.

Mae Llywodraethu Ymchwil yn berthnasol ar gyfer pawb sy'n:

- Cynllunio astudiaethau ymchwil;
- Ymgymryd ag ymchwil;
- Hwyluso ymchwil yn eu sefydliad;
- Ariannu cynigion ymchwil nei isadeiledd ymchwil; a
- Ymgymyd â, a rheoli, ymchwil ym mhob grŵp proffesiynol.

Disgwylir y bydd staff a myfyrwyr sy'n cynnal ymchwil yn ymgyfarwyddo â'r holl ganllawiau perthnasol ac y byddant yn atebol am eu gweithredoedd a'u hymddygiad. Disgwylir hefyd y byddant yn glynu wrth y safonau uchaf o ran cywirdeb, gonestrwydd, proffesiynoliaeth, trylwyredd a chadernid ym mhob agwedd ar eu gwaith ymchwil.

**4. MOESEG YMCHWIL**

Mae Ymchwil yn ymwneud â chasglu gwybodaeth, ac mae moeseg ymchwil yn ymwneud â'r dulliau a ddefnyddir i gasglu a dadansoddi'r wybodaeth honno, yn ogystal â'i chyflwyno a'i chyhoeddi. Os nad yw'r wybodaeth a gesglir ar gael yn gyhoeddus, neu os bydd ei chasglu'n cynnwys defnyddio cyfranogwyr dynol (er enghraifft trwy holiadur neu gyfweliad), meinwe dynol, neu anifeiliaid, yna bydd angen, yn ôl pob tebyg, rhyw fath o adolygiad a

chymeradwyaeth foesegol o'r ymchwil. Ystyriaeth bennaf unrhyw astudiaeth ymchwil ddylai fod urddas, hawliau, diogelwch a lles y cyfranogwyr. Dylai cydsyniad gwybodus fod wrth wraidd unrhyw ymchwil foesegol sy'n cynnwys cyfranogwyr dynol. Yn y lle cyntaf, mae'r cyfrifoldeb am gynnal ymddygiad moesegol da ar yr ymchwilwyr eu hunain. Mae ymchwil foesegol, felly, yn fater o fod yn ymwybodol o'r risg, ac nid o reidrwydd o osgoi risg.

## 5. EGWYDDORION YMCHWIL

Mae *Atodiad 3* o'r Fframwaith hwn yn cynnwys rhestr o'r derminoleg a syniadau moesegol pwysig.

## STRWYTHUR LLYWODRAETHU YMCHWIL PRIFYSGOL ABERTAWE

### A1. Cyfrifoldeb a threfniadau sefydliadol ar gyfer Moeseg a Llywodraethu Ymchwil

Mae gan y Brifysgol strwythur sefydliadol i sicrhau bod yr ymchwil a wneir o'r safon uchaf o ran cywirdeb. Mae hynny'n cynnwys nawdd, fframweithiau addas, dylunio ymchwil, a chanlyniadau ymchwil sy'n gadarn ac yn amddiffynadwy.

Ar lefel y sefydliad, mae gan yr **Is-bwyllgor Moeseg a Llywodraethu Ymchwil** gyfrifoldeb trosfwaol am reoli trefniadau moeseg a llywodraethu ymchwil y Brifysgol. Nid yw'r Is-bwyllgor hwn yn gyfrifol am gynnal adolygiadau moesegol ynddo'i hunan, ond mae'n gyfrifol am sicrhau bod y pwyllgorau, grwpiau, strwythurau a phrosesau ar waith ar lefel y Colegau er mwyn gallu cynnal adolygiadau moesegol i'r graddau angenrheidiol ar gyfer yr holl ymchwil berthnasol.

Mae'r Is-bwyllgor Moeseg a Llywodraethu Ymchwil yn gosod cyfeiriad y polisi ac yn darparu goruchwyliaeth foesegol i Golegau o ran eu trefniadau ar gyfer adolygiadau moesegol a sicrhau ansawdd. Mae'r Is-bwyllgor Moeseg a Llywodraethu Ymchwil yn ymdrin, ar lefel y sefydliad, ag unrhyw achos neu broblem eithriadol nad oes modd i Bwyllgor Moesegol y Coleg ymdrin ag e.

Mae'r Is-bwyllgor yn cyflwyno adroddiad blynyddol ar gynnydd i Bwyllgor Ymchwil y Brifysgol, i'r Senedd, ac i'r Cyngor.

### A2. Is-bwyllgor Moeseg a Llywodraethu Ymchwil y Brifysgol

*(mae'n atebol i Bwyllgor Ymchwil y Brifysgol, a dyma ei gylch gorchwyl a'i aelodaeth):*

**<u>Cylch gorchwyl</u>**

- Perchen ar 'Cywirdeb Ymchwil: Fframwaith Polisi ar gyfer Moeseg a Llywodraethu Ymchwil' y Brifysgol', a rhoi'r Fframwaith ar waith;
- Goruchwylio gwaith pwyllgorau'r Brifysgol gyda chyfrifoldeb penodol am faterion yn ymwneud â llywodraethu ymchwil, gan gynnwys Pwyllgorau Moeseg a Llywodraethu Ymchwil y Colegau, Paneli Sgrinio ac Ymchwilio i Gamymddwyn Ymchwil, y Pwyllgor Adolygu a Chymeradwyo Nawdd, a'r Grwpiau Goruchwylio ar gyfer pynciau neu feysydd penodol;
- Cyfrifoldeb am fonitro cydymffurfio â pholisïau a gweithdrefnau moesegol mewnol, ac â rheoliadau allanol a deddfwriaeth yn ymwneud â moeseg a llywodraethu ymchwil;
- Monitro, adolygu, a - lle bo angen - diweddaru polisïau a gweithdrefnau yn ymwneud â moeseg a llywodraethu ymchwil;
- Rheoli honiadau o gamymddwyn ymchwil a darparu cyfarwyddyd ar faterion yn ymwneud â chywirdeb ymchwil;
- Darparu cymorth a chyfarwyddyd i bob Coleg i sicrhau datblygu mecanweithiau a strwythurau addas ar lefel y Coleg er mwyn rheoli moeseg a llywodraethu ymchwil yn

effeithiol, gan gynnwys gosod moeseg a llywodraethu ymchwil yn eitem sefydlog ar agenda Pwyllgor Ymchwil pob Coleg;

- Hyrwyddo arfer gorau, ac annog cysondeb o ran moeseg a llywodraethu ymchwil ar draws y Brifysgol trwy hyfforddiant ar foeseg ymchwil;
- Goruchwylio a rheoli archwiliadau llywodraethu ymchwil o fewn y Brifysgol gan gyrff allanol (er enghraifft yr Asiantaeth Rheoleiddio Meddyginiaethau a Chynhyrchion Gofal Iechyd, yr Awdurdod Meinwe Dynol, Cynghorau Ymchwil y Deyrnas Unedig, neu'r Uned Archwilio Mewnol ar y Cyd) i sicrhau cydymffurfio;
- Diweddaru a lledaenu holl ddogfennaeth y sefydliad sy'n ymwneud â Llywodraethu Ymchwil yn rheolaidd, gyda'r bwriad o sicrhau bod yr holl randdeiliaid yn ymwybodol o''r prosesau llywodraethu ymchwil a chymeradwyaeth foesegol, ac yn eu deall; a
- Cymeradwyo, ac adolygu o bryd i'w gilydd, y fframweithiau moeseg a llywodraethu ymchwil a lunnir gan Bwyllgorau Moeseg a Llywodraethu Ymchwil y Colegau.

**Aelodau**

- Dirprwy Is-ganghellor Ymchwil ac Arloesi neu ei ddirprwy (Cadeirydd)
- Cadeiryddion Pwyllgorau Moeseg a Llywodraethu Ymchwil y Colegau
- Cadeirydd y Grŵp Goruchwylio Profion Clinigol neu gynrychiolydd â phrofiad o brofion clinigol.
- Cynrychiolwyr staff proffesiynol o'r Gwasanaeth Ymchwil, Ymgysylltu ac Arloesi
- Cynrychiolydd staff proffesiynol o Wasanaethau Datblygu a Hyfforddiant
- Rheolwr Cydymffurfio a Llywodraethu Ymchwil (Ysgrifennydd y Pwyllgor)

**I fod yn bresennol (os bydd angen):**

- Gweinyddydd Risg y Brifysgol
- Cynrychiolydd neu gynrychiolwyr y myfyrwyr
- Aelod neu aelodau lleyg
- Cynrychiolydd o'r Adran Caffael a Chyllid
- Cynrychiolydd Gwasanaethau Gwybodaeth a Systemau

**Amlder y cyfarfodydd**

- Fel arfer, unwaith bob tymor, gan gynnal cyfarfodydd arbennig yn ôl yr angen.

### A3. Pwyllgorau Moeseg a Llywodraethu Ymchwil y Colegau

Fel arfer, bydd gan bob Coleg Bwyllgor Moeseg a Llywodraethu Ymchwil sy'n atebol i Bwyllgor Ymchwil y Coleg. Os na fydd un Pwyllgor Moeseg a Llywodraethu yn ddigonol i fodloni anghenion cymuned ymchwil y Coleg, dylid creu capasiti ychwanegol trwy sefydlu is-bwyllgorau neu grwpiau goruchwylio o Bwyllgor Moeseg a Llywodraethu'r Coleg, a dylent fod yn atebol i'r pwyllgor hwnnw.

Dylai Cadeiryddion pwyllgorau Moeseg a Llywodraethu Ymchwil y Colegau fod yn gymwys i adolygu moeseg ymchwil. Arfer da yw cynnwys aelod lleyg ar y fath bwyllgorau i sicrhau elfen o farn annibynnol ac i helpu i osgoi unrhyw wrthdaro buddiannau. Dylai Pwyllgorau Moeseg a Llywodraethu Ymchwil y Colegau, ac unrhyw is-bwyllgorau neu grwpiau goruchwylio, feithrin diwylliant sy'n cydnabod bod cywirdeb ymchwil, moeseg a llywodraethu'n elfennau

cynhenid o ragoriaeth ymchwil. Hefyd, dylai Pwyllgorau Moeseg a Llywodraethu Ymchwil y Colegau ac unrhyw is-bwyllgorau fod yn ymwybodol o'r angen ar adegau i gyfeirio mater at sylw pwyllgor moeseg allanol, megis system adolygu moeseg y GIG.

Er mwyn sicrhau bod yr holl ymchwil a wneir gan staff a myfyrwyr ym Mhrifysgol Abertawe yn ymgorffori safonau uchel o ran moeseg a llywodraethu ymchwil, mae disgwyl i bob Coleg lunio fframwaith moeseg a llywodraethu ymchwil ar gyfer ei holl bynciau ac ymchwilwyr. Dylai'r fframweithiau hyn gydymffurfio â'r gofynion disgyblaethol, proffesiynol, rheoleiddiol a chyfreithiol, a dylent fod yn gyson â Fframwaith y Brifysgol. Dylai Is-bwyllgor Moeseg a Llywodraethu Ymchwil y Brifysgol gymeradwyo ac adolygu fframwaith bob Coleg bob blwyddyn.

Dylai fframwaith y Coleg roi cyfarwyddyd i staff a myfyrwyr ar gywirdeb ymchwil, llywodraethu ymchwil, a moeseg ymchwil o fewn y Coleg, gan gynnwys y gofynion a'r gweithdrefnau ar gyfer cynnal adolygiad moesegol a sicrhau cymeradwyaeth foesegol. Gellir, lle bo'n briodol, amrywio hyn i weddu ag anghenion penodol y Coleg (er enghraifft gweithdrefnau penodol i ddisgyblaeth; darpariaeth ar gyfer adolygiadau llai beichus ac adolygiadau sydyn yn ogystal ag adolygiadau moesegol llawn; a phrotocolau cymeradwy ar gyfer ymchwil sy'n cael ei hailadrodd yn aml).

**A4. STRWYTHUR ADRODD**

Dylai Pwyllgor Moeseg a Llywodraethu Ymchwil bob Coleg (ac unrhyw is-bwyllgor) gwrdd yn rheolaidd er mwyn cynnal adolygiadau moesegol, a dylai adrodd yn rheolaidd i Bwyllgor Ymchwil y Coleg ac i Fwrdd Rheoli'r Coleg fel y bo'n briodol.

Dylai Pwyllgor Ymchwil bob Coleg gyflwyno adroddiad **unwaith bob tymor** i Is-bwyllgor Moeseg a Llywodraethu Ymchwil y Brifysgol, gan nodi unrhyw anawsterau a gafwyd yn y broses o gynnal adolygiadau moesegol, a chan amlygu unrhyw achosion honedig o gamymddwyn ymchwil yn ystod y cyfnod.

Disgwylir y bydd unrhyw achos o anghytundeb mewn Pwyllgor Moeseg a Llywodraethu Ymchwil Coleg ynghylch cymeradwyaeth foesegol yn cael ei gyfeirio at sylw Is-bwyllgor Moeseg a Llywodraethu Ymchwil y Brifysgol. Yn fwy cyffredinol, dylai Is-bwyllgor Moeseg a Llywodraethu Ymchwil y Brifysgol geisio datrys unrhyw broblem nad oes modd ei thrin ar lefel y Coleg, a darparu cyngor i Gadeiryddion Pwyllgorau Moeseg Ymchwil y Colegau lle bo'n briodol.

Dylai gwefan pob Coleg gynnwys dolenni i wybodaeth berthnasol am ei fframwaith moeseg a llywodraethu ymchwil (er enghraifft Pwyllgorau Moeseg a Llywodraethu Ymchwil y Coleg a'i Is-bwyllgorau a grwpiau goruchwylio; eu cylch gwaith, eu haelodaeth, a dyddiadau eu cyfarfodydd; canllawiau ymchwil; gweithdrefnau er mwyn ceisio cymeradwyaeth foesegol; a dolenni i wefannau allanol perthnasol).

Dylai Cadeirydd Pwyllgor Moeseg a Llywodraethu Ymchwil y Coleg fod yn aelod o Bwyllgor Ymchwil y Coleg.

Dyma ddolenni i ofynion penodol Colegau a phynciau:

- Coleg y Celfyddydau a'r Dyniaethau
http://www.swansea.ac.uk/cy/y-brifysgol/colegau/celfyddydauardyniaethau/

- Coleg Peirianneg
http://www.swansea.ac.uk/cy/peirianneg/

- Coleg y Gwyddorau Dynol ac Iechyd
http://www.swansea.ac.uk/cy/y-brifysgol/colegau/colegygwyddoraudynolaciechyd/

- Coleg y Gyfraith
http://www.swansea.ac.uk/cy/y-gyfraith/

- Ysgol Reolaeth
http://www.swansea.ac.uk/cy/y-brifysgol/colegau/ysgol_reolaeth/

- Coleg Meddygaeth
http://www.swansea.ac.uk/cy/y-brifysgol/colegau/colegmeddygaeth/

- Coleg Gwyddoniaeth.
http://www.swansea.ac.uk/cy/y-brifysgol/colegau/coleggwyddoniaeth/

**A5. GOFYNION CYDYMFFURFIO**


- **Cydymffurfio â pholisïau moeseg y GIG:** Mae'r Fframwaith wedi'i ddylunio i ategu system adolygu moesegol y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (GIG). Felly, nid yw gweithdrefn adolygiad moesegol y Brifysgol yn ceisio dyblygu swyddogaethau system adolygu moesegol y GIG, nac i orgyffwrdd â'i chylch gwaith.

- **Cydymffurfio â pholisïau moeseg y cyrff ariannu ymchwil:** Mae'n bosibl y bydd gan gorff ariannu ymchwil ei bolisïau a'i ofynion ei hun o ran moeseg ymchwil. Mewn achos o'r fath, mae disgwyl i'r ymchwilydd ufuddhau i'r polisïau hynny, ac ystyrir amodau'r ariannu wrth ochr polisïau'r Brifysgol. Cynghorir ymchwilwyr y dylid ufuddhau i bolisïau a gweithdrefnau perthynol y Brifysgol bob amser, yn haen ychwanegol o lywodraethu moeseg ymchwil.

- **Cydymffurfio â pholisïau moeseg rhanddeiliaid allanol:** Mae'n bosibl y bydd gan gyrff proffesiynol a chymdeithasau dysgedig eu polisïau, canllawiau, a gofynion moesegol eu hunain hefyd. Er y dylid cydymffurfio â'r rhain lle bo'n briodol, rhaid i ymchwilwyr ufuddhau i Fframwaith y Brifysgol hefyd.

***Os canfyddir unrhyw fath o wrthdaro, gofynnir i'r unigolyn dan sylw ymgynghori â Chadeirydd Pwyllgor Moeseg Ymchwil ei Goleg yn y lle cyntaf.***

# STRWYTHUR LLYWODRAETHU YMCHWIL Y BRIFYSGOL




**AWERP: Grŵp Proses Adolygu Lles a Moeseg o ran Defnyddio Anifeiliaid.*    _____Llinell adrodd.  ------------Llinell cyfathrebu.

## POLISI AR GYMERADWYAETH FOESEGOL

### B1. Safonau Moesegol

Mae cynnal safonau uchel wrth ymgymryd ag ymchwil yn golygu derbyn a pharchu egwyddorion cywirdeb, gonestrwydd, a thryloywder. Mae cynnal ymchwil â chywirdeb yn golygu croesawu gonestrwydd deallusol a derbyn cyfrifoldeb personol am yr hyn yr ydych yn ei wneud.

Cyn, yn ystod, ac ar ôl, cwblhau gweithgarwch ymchwil, mae disgwyl i ymchwilwyr ystyried goblygiadau moesegol eu hymchwil, gan ddibynnu ar ei natur a'r cyd-destun.

Dylai ymchwilwyr bob amser ystyried eu hymchwil o safbwynt bob parti perthnasol.

### B2. Penderfynu a oes angen cymeradwyaeth foesegol

Fel arfer, bydd angen rhyw fath o adolygiad moesegol os bydd ymchwil yn ymwneud â data nad ydynt yn gyhoeddus neu â chyfranogwyr dynol (er enghraifft trwy holiadur, ymyriad neu gyfweliad), meinwe dynol, neu anifeiliaid. Lle nad oes gofyniad cyfreithiol neu reoleiddiol pendant i gael cymeradwyaeth foesegol, dylid ystyried nifer o gwestiynau wrth bennu pa fath o gymeradwyaeth foesegol sy'n angenrheidiol ar gyfer cynnig ymchwil. Dylai'r fath gwestiynau gynnwys, fan lleiaf:

- Ydy'r ymchwil yn ymwneud â grwpiau sy'n agored i niwed, megis plant neu bobl â nam gwybyddol?
- Oes unrhyw risg y gallai'r cyfranogwyr posibl deimlo eu bod dan bwysau i gytuno i gymryd rhan yn yr ymchwil? Gallai hyn ddigwydd, er enghraifft, lle nad oes cytbwysedd grym rhwng yr ymchwilydd a'r cyfranogwyr (er enghraifft, meddyg a chlaf, darlithydd a myfyriwr, rheolwr llinell ac aelod o staff).
- Fydd yr astudiaeth yn trafod materion sensitif (er enghraifft profedigaeth, rhywioldeb neu ddefnydd cyffuriau)?
- Allai'r ymchwil amharu ar anhysbysrwydd y cyfranogwyr (er enghraifft trwy ddefnyddio e-bost neu'r Rhyngrwyd)?
- Allai'r astudiaeth achosi embaras, pryder, neu drallod i gyfranogwyr?
- Fyddai'r ymchwil yn ymwneud ag anifeiliaid, organebau, meinwe dynol, neu ddata personol, neu'n peri niwed i'r amgylchedd?

*(Mae'r enghreifftiau uchod yn nodi'r mathau o bethau y dylid eu hystyried, ond nid yw'n rhestr gynhwysfawr o bell ffordd.)*

Cyfrifoldeb Pwyllgor Moeseg Ymchwil y Coleg yw pennu'r gofynion am gymeradwyaeth foesegol. Dylid llunio rhestrau gwirio penodol-i-bwnc yn y Colegau i nodi a oes angen cyflwyno cais llawn am gymeradwyaeth foesegol i Pwyllgor Moeseg Ymchwil y Coleg. Arfer da yw i unrhyw ymchwilydd arweiniol neu Brif Ymchwilydd (neu oruchwyliwr ymchwil myfyriwr) sy'n paratoi cais adolygu'r rhestr wirio a defnyddio ei ddoethineb proffesiynol. Os oes ateb cadarnhaol i un neu fwy o'r cwestiynau yn y rhestr wirio, yna dylid ceisio cymeradwyaeth

foesegol ar gyfer yr ymchwil arfaethedig. Fel arall, dylid ceisio cadarnhad Pwyllgor Moeseg Ymchwil y Coleg beth bynnag.

Dylai'r Coleg gadw pob rhestr wirio a'r dogfennau sy'n gysylltiedig ag adolygu a chymeradwyo moeseg ymchwil at ddibenion sicrhau ansawdd ac archwilio, ac mae'n bosibl y bydd angen dod o hyd i'r fath ddogfennau ar fyr rybudd (er enghraifft ar gyfer archwiliad allanol).

**B3. Gweithdrefnau gwirio a sicrhau ansawdd**

Bydd y Brifysgol yn darparu cyfarwyddyd i ymchwilwyr, a bydd yn ymdrechu i greu a chynnal diwylliant cywirdeb ymchwil sy'n annog ac yn cefnogi ymchwilwyr trwy ddarparu hyfforddiant i'w helpu i ddeall a bodloni'r gofynion.

Bydd y Brifysgol yn darparu offer a hyfforddiant fel a ganlyn i alluogi cydymffurfio â'r Fframwaith Polisi hwn:

- Templed asesu risg ar ffurf rhestr wirio i dywys ymchwilwyr trwy'r rheoliadau ac i'w galluogi i gofrestru eu prosiectau a sicrhau'r gymeradwyaeth briodol;
- Hyfforddiant ac addysg am y rheoliadau sy'n rheoli'r meysydd ymchwil hyn trwy ddatblygu staff, a thrwy ddefnyddio e-ddysgu a darparwyr hyfforddiant allanol;
- Monitro prosiectau ymchwil yn unol â gweithdrefnau monitro ac archwilio'r Brifysgol;
- Cefnogi, a chymryd rhan mewn, archwiliadau mewnol ac allanol, ac archwilio prosiectau ymchwil; a
- Adroddiad blynyddol i Bwyllgor Moeseg a Llywodraethu Ymchwil y Brifysgol.

## CYFRIFOLDEBAU PRIFYSGOL ABERTAWE O RAN NODDWYR YMCHWIL

Yn achos rhai prosiectau ymchwil, rhaid cael noddwr ffurfiol. Amlygir y gofynion nawdd ar gyfer ymchwil gofal iechyd a chymdeithasol yn ***Fframwaith Llywodraethu Ymchwil ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol yng Nghymru*** (Ail argraffiad), 2009. Mae ***Cyfarwyddeb Profion Clinigol yr Undeb Ewropeaidd*** yn ddilys ar gyfer ***Profion Clinigol Cynnyrch Meddyginiaethol Ymchwiliadol***, a cheir mwy o eglurhad yn ***Cyfarwyddeb Arfer Clinigol Da 2005/28/EC***. Gall y bydd angen noddwr ffurfiol ar gyfer mathau eraill o ymchwil, gyda chyfrifoldebau penodol.

Mae Pwyllgorau Moeseg Ymchwil y GIG yn mynnu cael tystiolaeth bod noddwr wedi derbyn y rôl pan gyflwynir cais iddynt. Mae'r Asiantaeth Rheoleiddio Meddyginiaethau a Chynhyrchion Gofal Iechyd yn mynnu cael tystiolaeth bod noddwr wedi derbyn y rôl cyn y bydd yn awdurdodi unrhyw Brofion Clinigol neu Brofion Dyfais.

Yn ei swyddogaeth, yn 'Noddwr' Profion Clinigol neu Brofion Dyfais, neu ar gyfer unrhyw ymchwil arall ym maes iechyd sy'n cynnwys cleifion neu ddata amdanynt, bydd y Brifysgol yn:

- derbyn cyfrifoldeb am gychwyn, rheoli ac ariannu unrhyw astudiaeth, a bydd yn atebol am sicrhau bod safonau a threfniadau perthnasol ar waith ar gyfer monitro ac adrodd;
- sicrhau bod unigolion y mae un neu fwy o swyddogaethau'r noddwr wedi'u dirprwyo'n ffurfiol iddynt (er enghraifft Prif Ymchwilwyr) yn gymwys i ymgymryd â'r rôl;
- sicrhau bod pob parti'n ymwybodol o'i rolau a chyfrifoldebau, a bod contractau wedi'u diffinio'n glir;
- sicrhau llinellau cyfathrebu clir, a nodi ymrwymiadau pob parti, trwy adroddiadau am gynnydd;
- sicrhau bod unrhyw astudiaeth yn talu sylw priodol i'r ddyletswydd gofal tuag at gleifion;
- cynnal asesiad risg cyn cychwyn ar yr ymchwil, a sicrhau bod capasiti ac arbenigedd yn eu lle cyn cynnal astudiaeth neu brawf sydd â risg uchel;
- sicrhau hyfforddi aelodau'r tîm ymchwil yn briodol, ac, yn achos astudiaethau ar fwy nag un safle, sicrhau bod staff ar y safle wedi'u hyfforddi fel bo angen, a bod ganddynt yr adnoddau angenrheidiol, i gynnal yr astudiaeth yn llwyddiannus;
- sicrhau bod trefniadau priodol o ran indemniad ac yswiriant ar waith ar gyfer unrhyw weithgarwch ymchwil a awdurdodir; a
- monitro ac archwilio astudiaethau i ganfod cydymffurfio gwael a'i gywiro.

Ni fydd y Brifysgol yn gweithredu fel 'Noddwr' oni fydd yn fodlon bod:

- y prosiect yn parchu urddas, hawliau, diogelwch a lles y cyfranogwyr a'r berthynas gyda gweithwyr gofal proffesiynol;
- proses addas o adolygu arbenigol annibynnol yn dangos bod y prosiect yn werth chweil, o ansawdd wyddonol uchel, ac yn darparu gwerth da am arian;
- Pwyllgor Moeseg Ymchwil neu bwyllgor Adolygu a Chymeradwyo Nawdd priodol wedi adolygu'r prosiect a rhoi barn gefnogol mewn ysgrifen;
- trefniadau priodol ar waith ar gyfer cofrestru'r prawf neu ymchwil arall ym maes iechyd,

lle bo'n briodol;

- gan y Prif Ymchwilydd a'r ymchwilwyr allweddol eraill, gan gynnwys y rhai ar safleoedd cydweithredol, yr arbenigedd a'r profiad angenrheidiol, a mynediad at yr adnoddau a chymorth sydd eu hangen i gynnal y prosiect arfaethedig yn llwyddiannus;
- y trefniadau a'r adnoddau arfaethedig yn caniatáu casglu a chadw, mewn modd priodol, data o ansawdd uchel, ac mai'r systemau a'r adnoddau arfaethedig yw'r rhai sy'n angenrheidiol i ganiatáu dadansoddi a diogelu'r data mewn modd priodol;
- y trefniadau arfaethedig ar gyfer y prosiect yn gyson â'r holl reoliadau, statudau a chanllawiau perthnasol;
- y sefydliadau a'r unigolion sy'n ymwneud â'r prosiect yn cytuno'r ffordd y rhennir cyfrifoldebau rhyngddynt er mwyn sicrhau:

    - bod trefniadau boddhaol yn eu lle ar gyfer rheoli a monitro'r prosiect, a bod y rhain wedi'u cofnodi;
    - bod trefniadau boddhaol ar waith i gwblhau'r prosiect, gan gynnwys cynlluniau addas ar gyfer adrodd ar y prosiect, lledaenu’r canfyddiadau, archifo, a chadw a dinistrio'r data; a
    - bod Prif Ffeil y Prawf, neu ddogfennaeth yr astudiaeth, yn cynnwys copïau o'r dogfennau canlynol: y ffurflen cydsyniad gwybodus; CV y Prif Ymchwilydd; y cais i Bwyllgor Moeseg Ymchwil perthnasol y GIG a'r Asiantaeth Rheoleiddio Meddyginiaethau a Chynhyrchion Gofal Iechyd, a'r llythyrau cymeradwyo pan y'u derbynnir; y Protocol ac unrhyw welliannau iddo a gymeradwywyd; a

- cytundeb ysgrifenedig ar drefniadau addas ar gyfer:

    - cofnodi, adrodd ac adolygu digwyddiadau anffafriol ac unrhyw ddatblygiadau pwysig wrth i'r prosiect fynd yn ei flaen, yn arbennig rhai sy'n peri risg i ddiogelwch unigolion neu enw da'r Brifysgol;
    - cymeradwyo unrhyw welliannau i ddyluniad y prosiect;
    - system gadarn i dynnu sylw'r Brifysgol a rhanddeiliaid eraill, gan gynnwys Pwyllgor Moeseg Ymchwil y GIG a'r Asiantaeth Rheoleiddio Meddyginiaethau a Chynhyrchion Gofal Iechyd, at unrhyw ddatblygiad pwysig wrth i'r prosiect fynd yn ei flaen, boed o ran diogelwch unigolion neu o ran y cyfeiriad gwyddonol;
    - sicrhau bod gan bob aelod o'r tîm ymchwil gontract addas i gyflawni ei ymrwymiadau ar y prosiect ac i alluogi'r Prif Ymchwilydd a'r Brifysgol, fel Noddwr, i gyflawni eu cyfrifoldebau; a
    - cytundeb lefel gwasanaeth gan y Brifysgol fel bod gan unigolyn dynodedig hawl i weithredu rhai o gyfrifoldebau'r Noddwr ar ei rhan ar gyfer pob astudiaeth a noddir gan y Brifysgol, lle bynnag y'u cynhelir.

<u>Lle cyd-noddir prosiect</u>, dylid rhoi trefniadau ffurfiol ar waith:

a) <u>Rhwng y cyd-noddwyr</u> - fel ei bod yn glir pwy sy'n gyfrifol am fodloni'r holl ofynion. Yn ddelfrydol, dylid cofnodi hyn mewn contract neu Femorandwm Dealltwriaeth, naill ai ar gyfer y prawf unigol neu ynteu ar ffurf cytundeb trosfwaol ar gyfer yr holl brofion clinigol lle mae gan ddau sefydliad gysylltiad agos a lle maent yn cydweithredu'n aml

(er enghraifft Ymddiriedolaeth y GIG a'r Brifysgol); a

b) Rhwng noddwr a'r rhai y dirprwywyd swyddogaethau'r noddwr iddynt - i sicrhau bod pob parti'n ymwybodol o'r swyddogaethau a ddirprwywyd iddo.

**CYFRIFOLDEBAU'R PRIF YMCHWILYDD**

Os bydd y Prif Ymchwilydd yn aelod o staff y Brifysgol, neu'n gweithio ar Brofion Clinigol Cynnyrch Meddyginiaethol Ymchwiliadol neu Brawf Dyfais a noddir gan y Brifysgol, rhaid sicrhau:

- rhoi blaenoriaeth i urddas, hawliau, diogelwch a lles cyfranogwyr yr ymchwil ar bob adeg;
- cydymffurfio'n dynn â'r Protocol. Fodd bynnag, ni fydd yr angen i lynu wrth y Protocol yn drech na phenderfyniad clinigol y Prif Ymchwilydd i ddefnyddio dulliau eraill os bydd o'r farn bod angen y rhain i ddiogelu cyfranogwyr yr ymchwil y mae fe'n gyfrifol amdanynt yn glinigol;
- bod gan y Prif Ymchwilydd y profiad, cymwysterau, hyfforddiant ac arbenigedd angenrheidiol i gyflawni tasgau'r prosiect;
- bod y Prif Ymchwilydd yn gyfrifol am sicrhau bod gan unrhyw staff ymchwil sy'n ymwneud â'r prosiect y profiad, cymwysterau, hyfforddiant ac arbenigedd angenrheidiol i gyflawni tasgau'r prosiect. Yn achos Profion Clinigol, dylai'r hyfforddiant gynnwys arfer clinigol da a dylid cynnwys copi o'r hyfforddiant ym Mhrif Ffeil y Prawf; a
- bod y Prif Ymchwilydd yn sicrhau bod gan fyfyrwyr a staff ymchwil oruchwyliaeth, cymorth a hyfforddiant digonol i gyflawni eu dyletswyddau ar y prosiect.

***Mae'r Brifysgol yn cadw'r hawl i dynnu ei nawdd yn ôl ac i gymryd pa gamau bynnag y bydd yn tybio eu bod yn angenrheidiol i sicrhau diogelwch cyfranogwyr yr ymchwil a'i gallu i weithredu fel noddwr os bydd o'r farn nad yw'r Prif Ymchwilydd yn cyflawni ei ddyletswyddau.***

***Ar ben hynny, gall methiant y Prif Ymchwilydd i gyflawni ei ddyletswyddau arwain at weithredu dan Weithdrefnau Disgyblu'r Brifysgol, a gall annilysu telerau yswiriant y Brifysgol ar gyfer y prawf.***

**Adran D**

## POLISI AR YMCHWIL GOFAL IECHYD A CHYMDEITHASOL

Yn achos unrhyw ymchwil sydd â chyfranogwyr dynol (gan gynnwys meinwe dynol, organau, a data), cynhelir yr ymchwil i'r safonau uchaf o ran Moeseg a Llywodraethu Ymchwil ac o ran cydymffurfio â'r ddeddfwriaeth berthnasol, a chyda'r gofal a pharch pennaf tuag at les a hawliau'r cyfranogwyr.

Rhaid i gyfranogwyr dynol mewn ymchwil gymryd rhan o'u gwirfodd a heb fod unrhyw bwysau arnynt. Fel arfer, ceir cydsyniad gwybodus gan unrhyw gyfranogwyr dynol. Fel arfer, hysbysir yr holl staff ymchwil a'r holl gyfranogwyr yn llawn am bwrpas a methodoleg yr ymchwil, y risgiau wrth gymryd rhan, a defnydd arfaethedig y data ymchwil. Rhaid ceisio cydsyniad am unrhyw samplau biolegol y gellid eu defnyddio mewn ymchwil ychwanegol yn y dyfodol.

Rhoddir ystyriaeth foesegol i unrhyw ymchwil sy'n ymwneud â chyfranogwyr dynol neu samplau biolegol. Cynhelir adolygiad gan bwyllgor moeseg perthnasol (boed yn allanol neu'n fewnol yn y Brifysgol) fel y bo'n briodol. Ceisir cymeradwyaeth gan gyrff rheoleiddiol eraill, megis yr Asiantaeth Rheoleiddio Meddyginiaethau a Chynhyrchion Gofal Iechyd, yr Awdurdod Ffrwythlondeb ac Embryoleg, y Pwyllgor Ymgynghorol ar Therapi Genynnau, neu'r Ganolfan Wybodaeth Iechyd a Gofal Cymdeithasol lle bo angen. Dylai ymchwilwyr sicrhau cyfrinachedd gwybodaeth bersonol yn ymwneud â chyfranogwyr yr ymchwil, a sicrhau bod yr ymchwil yn bodloni unrhyw ofynion cyfreithiol, megis Deddf Diogelu Data 1998.

### D1. Ymchwil Iechyd a Gofal Cymdeithasol.

Mae Sefydliad Cenedlaethol ar gyfer Ymchwil Gofal Cymdeithasol ac Iechyd Llywodraeth Cymru yn gosod fframwaith clir ar gyfer llywodraethu a moeseg ymchwil ym maes iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru. Mae'r Sefydliad yn gyfrifol am ddatblygu polisi moeseg ymchwil yng Nghymru.

Mae Pwyllgorau Moeseg Ymchwil y GIG yn rhan o Wasanaeth Moeseg Ymchwil effeithiol, atebol ac annibynnol i ddiogelu urddas, hawliau, diogelwch a lles y rhai sy'n cymryd rhan mewn ymchwil.

### D2. Fframwaith llywodraethu ymchwil

Mae ail argraffiad Fframwaith Llywodraethu Ymchwil Llywodraeth Cymru yn amlinellu'r egwyddorion llywodraethu da sy'n ddilys ar gyfer yr holl ymchwil a gynhelir o fewn cylch gwaith Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru. Ym mis Medi 2009, cyhoeddodd Swyddfa Ymchwil a Datblygu Iechyd a Gofal Cymdeithasol Cymru ail argraffiad y Fframwaith Llywodraethu Ymchwil, oedd yn cynnwys newidiadau yn llywodraethu ymchwil ers 2001, gan gynnwys datblygiadau'n ymwneud â chyflwyno Rheoliadau Meddyginiaethau at Ddefnydd Dynol (Treialon Clinigol) 2004, Deddf Meinwe Dynol 2004, a Deddf Galluedd Meddyliol 2005. Mae hefyd yn ymgorffori nifer o newidiadau sy'n amlinellu sefyllfa Cymru o ran cynlluniau llywodraethu ymchwil ar draws y Deyrnas Unedig.

Mae llywodraethu ymchwil yn un o safonau creiddiol sefydliadau gofal iechyd. Mae'r ddogfen yn nodi cyfrifoldebau:

- Noddwyr ymchwil;
- Arianwyr;
- Ymchwilwyr;
- Sefydliadau cyflogi;
- Sefydliadau gofal;
- Gweithwyr gofal proffesiynol; a
- Cyfranogwyr.

Mae gan y cyfan ohonynt ddyletswyddau o ran sicrhau bod unrhyw ymchwil a wneir ym maes iechyd a gofal cymdeithasol yn bodloni'r safonau hyn.

Dylai ymchwilwyr sy'n gweithio gyda'r GIG sicrhau cydymffurfio â Fframwaith Llywodraethu Ymchwil y GIG.

**D3. Pwyllgorau Moeseg Ymchwil y GIG**

Yn achos ymchwil ym maes Iechyd a Gofal Cymdeithasol, rhaid i ymchwilwyr fodloni Pwyllgor Moeseg Ymchwil bod yr ymchwil a gynigir ganddynt yn foesegol ac yn werth chweil. Rhaid bodloni'r Pwyllgor y caiff unrhyw risg, pwysau, neu ymyriad sy'n effeithio ar gyfranogwyr ei isafu, a bod y risgiau, pwysau, neu ymyriadau wedi'u cyfiawnhau gan y buddion a ddisgwylir i'r cyfranogwyr neu i wyddoniaeth a'r gymdeithas. Mae Pwyllgor Moeseg Ymchwil yn grŵp o bobl a benodir i adolygu cynigion ymchwil i asesu'n ffurfiol a yw'r ymchwil yn foesegol. Yng Nghymru, mae gennym 8 Pwyllgor Moeseg Ymchwil yn y GIG, a sefydlwyd i roi cymeradwyaeth foesegol ar gyfer ymchwil a gynhelir o fewn y GIG. Cydnabuwyd 4 Pwyllgor Moeseg Ymchwil yng Nghymru gan Awdurdod Pwyllgor Moeseg y Deyrnas Unedig i allu adolygu Profion Clinigol Cynnyrch Meddyginiaethol Ymchwiliadol fel mae Rheoliadau Meddyginiaethau at Ddefnydd Dynol (Treialon Clinigol) 2004 yn gofyn. Mae 4 Pwyllgor Moeseg Ymchwil yng Nghymru sydd wedi'u hawdurdodi i adolygu pob cais ymchwil ac eithrio'r rheini sy'n ymwneud â Phrofion Clinigol Cynnyrch Meddyginiaethol Ymchwiliadol.

**D4. Awdurdod Meinweoedd Dynol**

Mae'r Awdurdod Meinweoedd Dynol yn trwyddedu sefydliadau sy'n storio neu'n defnyddio meinwe dynol at ddibenion megis ymchwil, trin cleifion, archwiliadau post-mortem, addysgu, ac arddangosiadau cyhoeddus. Yn y Coleg Meddygaeth, mae unigolion dynodedig yn gyfrifol am sicrhau cydymffurfio â'r ddeddfwriaeth berthnasol ar Feinweoedd Dynol ar gyfer ymchwil ac addysgu.

**D5. Coleg Meddygaeth - System Ddiogel ar gyfer Cysylltu Gwybodaeth Ddienw**

Mae Cronfa Ddata'r System Ddiogel ar gyfer Cysylltu Gwybodaeth Ddienw yn system o'r radd flaenaf sy'n dod â'r ystod ehangaf bosibl o ddata sy'n cael eu casglu'n rheolaidd at ei gilydd at ddibenion ymchwil, datblygu a gwerthuso. Mae trefniadau llywodraethu cadarn yn tanategu pob agwedd ar y gwaith, fel bod y System yn ffynhonnell data gwerthfawr, wrth gydymffurfio

â deddfwriaeth diogelu data a chanllawiau ar gyfrinachedd.

Mae gan y System:

- trefniadau cadarn o ran Llywodraethu ac Ymgysylltu Cyhoeddus er mwyn sicrhau bod ei gwaith yn cydymffurfio â'r fframweithiau deddfwriaeth a rheoleiddiol perthnasol, ac er lles y cyhoedd.

- Bwrdd Ymgynghorol i roi mewnbwn strategol oddi wrth aelodau'r cyhoedd ac arweinwyr ym maes gwybodaeth ac ymchwil iechyd yng Nghymru.

- Panel Defnyddwyr mawr i ddarparu persbectif y cyhoedd ar ymchwil cysylltu data.

- Bwrdd Rheoli sy'n cynnwys Cyfarwyddwyr y System a'r Tîm Rheolwyr i oruchwylio a chyfarwyddo trefniadau gweithredol.

- Panel Adolygu Llywodraethu Gwybodaeth sy'n darparu cyngor annibynnol ar Lywodraethu Gwybodaeth, ac yn adolygu pob cynnig i ddefnyddio data'r system i sicrhau ei fod yn briodol ac er lles y cyhoedd.

Mae'r Panel yn cynnwys cynrychiolwyr o: Cymdeithas Feddygol Prydain, y Gwasanaeth Moeseg Ymchwil Cenedlaethol, Iechyd Cyhoeddus Cymru, Gwasanaeth Gwybodeg GIG Cymru a'r Panel Defnyddwyr.

## POLISI AR YMCHWIL SY'N DEFNYDDIO ANIFEILIAID

Rhaid i unrhyw weithgarwch ymchwil neu addysgu gan staff neu fyfyrwyr, boed yn y Brifysgol neu yn y maes, sy'n cynnwys defnyddio anifeiliaid gael ei gymeradwyo a'i fonitro gan Grŵp Lles Anifeiliaid a Phroses Adolygu Moesegol y Brifysgol. Mae aelodau'r grŵp yn cynnwys Swyddog Gofal a Lles Anifeiliaid, Milfeddyg, a chynrychiolwyr yr holl Golegau sy'n gweithio yn y maes hwn.

Yn achos rhai mathau o waith yn y maes hwn, mae angen trwydded berthnasol oddi wrth y Swyddfa Gartref hefyd. Rheoleiddir y rhain o dan Reoliadau 2012 Diwygio Deddf Anifeiliaid (Dulliau Gwyddonol) 1986.

Mae'r Brifysgol wedi ymrwymo i 3 egwyddor o ran gweithio gydag anifeiliaid: Y rhain yw:

- **Disodli** defnyddio anifeiliaid, neu osgoi defnyddio anifeiliaid yn gyfan gwbl.

- **Lleihau** nifer yr anifeiliaid a ddefnyddir i'r nifer isaf posibl, gan ddefnyddio llai o anifeiliaid i gael yr un faint o wybodaeth neu drwy gael rhagor o wybodaeth o'r un faint o anifeiliaid.

- **Mireinio**'r ffordd y cynhelir arbrofion, er mwyn sicrhau bod anifeiliaid yn dioddef cyn lleied â phosibl. Mae hyn yn cynnwys gwella'u llety a gwella'r prosesau er mwyn isafu poen a dioddef a/neu wella lles yr anifeiliaid.

Dylid anfon unrhyw gwestiwn ynghylch gweithio gydag anifeiliaid byw i awerp@abertawe.ac.uk

Mae'r Brifysgol wedi cymeradwyo'r canllawiau 'Ymchwil Anifeiliaid: Adrodd ar Brofion In Vivo' a ddatblygwyd yn rhan o gynllun y Ganolfan Genedlaethol ar gyfer Disodli, Lleihau, a Mireinio Defnydd Anifeiliaid ar gyfer Ymchwil. Bwriad y cynllun oedd gwella dylunio ymchwil ar anifeiliaid ac adrodd ar y fath ymchwil, a nod y canllawiau yw sicrhau bod astudiaethau'n gadarn, bod modd eu hail-adrodd, a'u bod yn ychwanegu i gyfanswm ein gwybodaeth.

Yn amodol ar bolisïau golygyddol, mae'r Brifysgol yn annog pob ymchwilydd i gyhoeddi ei waith yn unol â'r Canllawiau.

Ceir rhagor o wybodaeth am yr adnoddau sydd ar gael yn:
(www.nc3rs.org.uk/ARRIVEuniversities)

## POLISI AR REOLI PERYGLON YMCHWIL I'R AMGYLCHEDD

Yn achos unrhyw ymchwil gan staff neu fyfyrwyr, yn y Brifysgol neu yn y maes, sy'n peri risg bosibl i'r amgylchedd (megis rhywogaethau ymledol yn dianc, neu Organebau wedi'u Haddasu'n Enetig, neu waith gyda phathogenau, boed rhai dynol neu anifeiliaid), rhaid hysbysu Cadeirydd Is-bwyllgor Moeseg a Llywodraethu Ymchwil y Brifysgol, gan nodi sut y rheolir y risg. Disgwylir y defnyddir cyfleusterau defnydd amgaeedig, yn unol â chyfarwyddyd yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch (http://www.hse.gov.uk/biosafety/GMO/index.htm).

Rhaid dangos gwybodaeth am, a chydymffurfio â, yr holl reoliadau a deddfwriaeth sydd mewn grym ar y pryd. Yr awdurdod cymwys yn achos defnyddio Organebau wedi'u Haddasu'n Enetig yw'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch a'r Ysgrifennydd Gwladol (a gynrychiolir gan swyddogion Adran yr Amgylchedd, Bwyd, a Materion Gwledig). Yn benodol, rhaid cysylltu â Thîm Hysbysu'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch a'r Timoedd Archwilio Arbenigol. Yn yr un modd, yn achos ymchwil sy'n ymwneud â firysau a gludir yn y gwaed, rhaid dangos cydymffurfio â'r ddeddfwriaeth, a rhaid gwneud asesiad risg priodol a rhoi gweithdrefnau lleihau risg priodol ar waith, yn ôl pob tebyg ar ôl ceisio cyngor y Pwyllgor Ymgynghorol ar Bathogenau Peryglus (http://www.hse.gov.uk/biosafety/blood-borne-viruses/index.htm).

Dylai ymchwilwyr a'r rhai sy'n gyfrifol am ystâd y Brifysgol fod yn ymwybodol o gyflwr yr adeiladau a'r cyfleusterau lle cynhelir gwaith ar anifeiliaid a phlanhigion, a sicrhau eu bod yn addas ar gyfer yr ymchwil a wneir. Weithiau, bydd angen addasu adeiladau neu gyfleusterau, neu lunio rheoliadau, er mwyn osgoi rhannu defnydd a'r risg llygru neu ddianc. Dylai ardaloedd risg uchel gael eu lleoli y tu allan i'r prif adeiladau, gyda mynediad uniongyrchol ar gyfer derbyn samplau a gwaredu arnynt.

**Adran G**

## POLISI AR DRIN HONIADAU O GAMYMDDWYN YMCHWIL

(Drafftiwyd yr adran hon gyda chyfarwyddyd oddi wrth Swyddfa Ymchwil a Chywirdeb y Deyrnas Unedig ac wrth dalu sylw priodol i weithdrefnau Cynghorau Ymchwil y Deyrnas Unedig a Swyddfa Ymchwil a Chywirdeb y Deyrnas Unedig ar gyfer ymchwilio i honiadau o gamymddwyn ymchwil.)

**<u>Hefyd, defnyddir</u> y polisi hwn a'r weithdrefn hon ar gamymddwyn ymchwil i ymchwilio i, ac i ymdrin â, honiadau ynghylch dwyn neu gamddefnyddio arian ac offer ymchwil.**

**Caiff y Brifysgol dderbyn ac ystyried honiadau dienw.**

*(Gweler Adran H am wybodaeth am bolisi'r Brifysgol ar Chwythu'r Chwiban.)*

### G1 Diffinio Camymddwyn Ymchwil

Diffiniad ***Cynghorau Ymchwil y Deyrnas Unedig*** o ***gamymddwyn ymchwil*** yw **palu celwyddau, ffugio, llên-ladrad neu wyriad difrifol arall o arfer cyffredinol ym maes ymchwil** ar gyfer cynnig, cynnal neu adolygu ymchwil, neu ar gyfer adrodd am y canlyniadau.

**Palu celwyddau** yw ffugio data neu ganlyniadau a chofnodi neu adrodd y fath ddata neu ganlyniadau.
**Ffugio** yw newid deunydd, offer neu brosesau ymchwil, neu newid neu hepgor data neu ganlyniadau, mewn modd sy'n golygu nad yw'r ymchwil yn cael ei hadlewyrchu'n gywir yn y cofnod ymchwil.

**Llên-ladrad** yw defnyddio syniadau, prosesau, canlyniadau neu eiriau rhywun arall heb gydnabod hynny mewn modd priodol.

**Camgyfleu** gan gynnwys

- Cam-gyfleu data, er enghraifft trwy guddio canfyddiadau neu ddata arwyddocaol, gan gynnwys syniadau'r ymchwilydd ei hun, neu gyfleu dehongliad gwallus o ddata, boed yn ddiofal neu trwy esgeulustra difrifol.
- Cyhoeddi dwywaith heb ddatgan y ffaith, gan gynnwys cyflwyno llawsygrif dwywaith i'w chyhoeddi heb ddatgan y ffaith.
- Cam-gyfleu buddiannau, gan gynnwys methu datgan buddiant perthnasol, naill ai o eiddo'r ymchwilydd neu ynteu o eiddo arianwyr yr ymchwil.
- Cam-gyfleu cymwysterau neu brofiad, gan gynnwys hawlio neu awgrymu cymhwyster neu brofiad nad oes gan yr unigolyn.
- Camgyfleu ymwneud, megis honiad amhriodol i fod yn awdur gwaith lle na wnaed cyfraniad o bwys, neu wadu bod rhywun yn awdur gwaith lle mae wedi gwneud cyfraniad o bwys.

**Tramgwyddo yn erbyn y ddyletswydd gofal**, boed yn fwriadol, yn ddiofal, neu trwy esgeulustra difrifol:

- Datgan enwau unigolion neu grwpiau sy'n ymwneud ag ymchwil mewn modd amhriodol

heb eu cydsyniad, neu dramgwyddo yn erbyn cyfrinachedd mewn ffordd arall.

• Rhoi unrhyw unigolyn sy'n ymgymryd ag ymchwil mewn perygl, boed yn wrthrych yr ymchwil, yn gyfranogwr yn yr ymchwil, neu rywun sy'n gysylltiedig â'r ymchwil, heb ei gydsyniad ymlaen llaw a heb ei ddiogelu mewn modd addas, hyd yn oed os bydd wedi cydsynio; mae hyn yn cynnwys peryglu ei enw da lle mae modd rhagweld hynny.

• Methu cymryd yr holl ofal rhesymol i sicrhau bod y cyfranogwyr neu eu cynrychiolwyr cyfreithiol yn gwybod am yr holl risgiau a pheryglon, yr amcanion cyffredinol, a'r noddwyr, er mwyn sicrhau cael cydsyniad gwybodus mewn modd priodol, penodol, a thryloyw.

• Methu cydymffurfio â gofynion cyfreithiol a moesegol rhesymol, neu â'r ddyletswydd gofal tuag at anifeiliaid, organau dynol neu feinwe a ddefnyddir mewn ymchwil, neu ar gyfer yr amgylchedd.

• Ymddygiad amhriodol o ran adolygiad gan gydweithwyr o gynigion neu ganlyniadau ymchwil (gan gynnwys llawysgrifau a gyflwynir i'w cyhoeddi); mae hyn yn cynnwys methu datgan gwrthdaro buddiannau; datganiad annigonol o gymhwysedd cyfyngedig; dwyn cynnwys deunydd; a thramgwyddo yn erbyn cyfrinachedd neu gamddefnyddio deunydd a ddarparwyd yn gyfrinachol at ddibenion adolygiad gan gydweithwyr.

<u>Nid</u> yw camymddwyn ymchwil yn cynnwys camgymeriad gonest na gwahaniaeth barn. Yn wahanol i arfer ymchwil gwael, lle mae angen nodi'r broblem a mynd i'r afael â hi trwy hyfforddiant a mentora, mae angen ymchwilio i gamymddwyn ymchwil a'i drin mewn modd priodol trwy'r gweithdrefnau disgyblu.

**G2 Terminoleg:**

a) **Unigolyn a enwir:** Yr 'unigolyn a enwir' yw'r unigolyn yn y Brifysgol sy'n gyfrifol am:
- derbyn unrhyw honiad ynghylch camymddwyn ymchwil
- cychwyn a goruchwylio'r weithdrefn ar gyfer ymchwilio i honiadau
- cadw gwybodaeth a chofnodion yn ystod yr ymchwiliad, a
- cymryd penderfyniadau ar gamau allweddol y broses, a gweithio fel dyfarnwr lle bo angen.

**Unigolyn a enwir ar gyfer Prifysgol Abertawe: Y Cofrestrydd a Phrif Swyddog Gweithredol.**

b) **Achwynydd:** yr Achwynydd yw'r unigolyn sy'n gwneud honiad o gamymddwyn ymchwil yn erbyn un neu fwy o Atebwyr.

c) **Atebydd:** yr Atebydd yw'r sawl y mae honiad o gamymddwyn ymchwil wedi'i wneud yn ei erbyn. Rhaid iddo fod yn aelod, neu'n gyn-aelod, o staff y Brifysgol.

d) **Proses Ddisgyblu**: Mae'r Broses Ddisgyblu yn cyfeirio at weithdrefnau'r Brifysgol am ddatrys problemau disgyblu gyda'i staff.

e) **Ymchwiliad Ffurfiol**: Yr Ymchwiliad Ffurfiol yw'r broses o archwilio honiadau o gamymddwyn ymchwil, clywed ac adolygu'r dystiolaeth, penderfynu a oedd camymddwyn ai peidio, a dod i farn o ran pwy oedd yn gyfrifol.

f) **Cam Sgrinio**: Mae'r Cam Sgrinio'n rhan o'r broses, a'i nod yw penderfynu a oes tystiolaeth prima facie o gamymddwyn ymchwil. Nid yw'r cam sgrinio'n penderfynu a oedd

camymddwyn na phwy a allai fod yn gyfrifol amdano.

**G3 Egwyddorion allweddol:**

**<u>Hefyd, defnyddir</u> y polisi hwn a'r weithdrefn hon ar gamymddwyn ymchwil i ymchwilio i, ac i ymdrin â, honiadau ynghylch dwyn neu gamddefnyddio arian ac offer ymchwil.**

Mae'r Brifysgol wedi ymrwymo i weithredu ar sail yr egwyddorion canlynol tra ei bod yn ymchwilio i honiadau o gamymddwyn ymchwil:

- Mae camymddwyn ym maes ymchwil yn fater difrifol.
- Ymchwilir i honiadau o gamymddwyn ymchwil yn unol â'r safonau uchaf o ran gonestrwydd, cywirdeb a thegwch.
- Mae'r Brifysgol am i'r holl randdeiliaid (sy'n cynnwys arianwyr, noddwyr, rheoleiddwyr, staff, cyhoeddwyr gwyddonol, myfyrwyr, cyfranogwyr ymchwil, a chleifion) fod yn hyderus bod y Brifysgol yn cynnal safonau uchel o ran cywirdeb ymchwil ar bob adeg, a'i bod yn cymryd honiadau o gamymddwyn ymchwil o ddifrif, gan ymchwilio iddynt mewn modd mor gyfrinachol ag sy'n rhesymol ymarferol.
- Bydd y Brifysgol yn sicrhau bod y sawl sy'n gyfrifol am ymchwilio i honiadau o gamymddwyn ymchwil yn gweithredu mewn modd cywir a sensitif ar bob adeg.
- Bydd y Brifysgol yn sicrhau bod y sawl sy'n ymchwilio i'r fath achos yn cydymffurfio â dyletswyddau statudol y Brifysgol ac yn parchu hawliau'r staff yn unol â'r gyfraith ar y pryd, a hefyd yn parchu unrhyw hawliau neu ddyletswyddau sy'n deillio o ordinhadau a statudau'r Brifysgol.
- Mae gan y sawl a gyhuddir o gamymddwyn ymchwil hawl i'r rhagdybiaeth ei fod yn ddieuog.
- Cydnabyddir ei bod yn bosibl y gwneid honiadau am resymau sy'n ymddangos i fod yn faleisus.
- Os caiff unigolyn ei gyhuddo'n ffurfiol o gamymddwyn ymchwil, rhoddir manylion ysgrifenedig llawn iddo am yr honiadau, a chaiff gyfle i gyflwyno ei achos ac ymateb i'r honiadau yn ei erbyn.
- Mae'r Brifysgol wedi ymrwymo i ddiogelu enw da'r rhai y drwgdybir, neu honnir, eu bod wedi cyflawni camymddwyn ymchwil os na chadarnheir yr honiadau.
- Caiff staff sy'n gwneud ymchwil hawl i ryddid academaidd o dan Statudau'r Brifysgol, ond rhaid iddyn nhw dderbyn cyfrifoldeb hefyd am sicrhau cynnal cywirdeb yr ymchwil, ac am sicrhau eu bod yn ymwybodol o'r gofynion cyfreithiol sy'n rheoli eu gwaith.
- Mae'n ofynnol bod staff, myfyrwyr, ac unrhyw unigolyn sydd â hawl i weithio yn y Brifysgol, i ddefnyddio ei chyfleusterau, neu i gynnal ymchwil ar ei rhan, yn hysbysu'r Brifysgol os bydd ganddynt unrhyw bryder ynghylch camymddwyn ymchwil posibl, boed wedi'i weld neu le mae cred resymol ei fod yn digwydd, wedi digwydd neu'n debyg o ddigwydd.
- Ni chaiff staff na myfyrwyr sy'n codi'r fath bryder yn unol â'r polisi hwn eu cosbi na dioddef anfantais o ganlyniad, cyhyd â'u bod yn codi'r pryder yn gyfrinachol ac yn credu, yn rhesymol, bod camymddwyn ymchwil yn digwydd, wedi digwydd neu'n debyg o ddigwydd.

- Mae dod i'r casgliad yr oedd unigolyn yn cyflawni camymddwyn ymchwil yn dibynnu ar farnu bod bwriad i gyflawni'r camymddwyn, neu esgeulustod wrth gynnal unrhyw agwedd ar yr ymchwil. Y safon prawf yw 'pwysau tebygolrwydd'.
- Lle bo'n briodol, gellir datrys problemau trwy drafodaeth anffurfiol, darparu cyngor, rhoi cyfarwyddyd neu gyflafareddu trwy gydsyniad heb fod angen ymchwiliad ffurfiol.
- Os cynhelir ymchwiliad, yna gellid cychwyn gweithdrefnau ffurfiol eraill, gan gynnwys gweithdrefnau disgyblu neu alluogrwydd y Brifysgol, gan ddibynnu ar ganlyniad yr ymchwiliad.
- Mewn achos o'r fath, gellir defnyddio'r wybodaeth neu'r canfyddiadau sy'n deillio o ymchwiliad, yn rhannol neu yn eu cyfanrwydd, yn lle'r elfen ymchwilio o'r cyfryw weithdrefnau.
- Mae'n ofynnol i bob parti hysbysu'r 'Unigolyn a Enwir' (sef y Cofrestrydd) ar unwaith os bydd unrhyw wrthdaro buddiannau. Dan y fath amgylchiadau, dylai'r Cofrestrydd benderfynu a yw buddiant a ddatgelwyd yn ddigonol i gyfiawnhau eithrio'r unigolyn o'r ymchwiliad.
- Os bydd y Cofrestrydd yn datgan buddiant, dylai'r enwebai amgen ar ei ran benderfynu a ddylid ei eithrio yntau o'r ymchwiliad.

**G4 Gweithdrefn:**

Nod y weithdrefn a amlygir isod yw:

- sicrhau bod unrhyw honiad o gamymddwyn ymchwil a ddygir at sylw'r Brifysgol fel y sefydliad sy'n cyflogi'r sawl y gwneir yr honiadau yn ei erbyn, neu fel y corff sy'n cynnal neu'n noddi'r ymchwil, yn cael ei drin yn unol ag arferion safonol a fabwysiadwyd yn genedlaethol gan brifysgolion eraill a sefydliadau ymchwil, a
- penderfynu a yw'r honiad yn wir ai peidio.

**G5 Derbyn honiadau:**

Yn ddelfrydol, dylid cyflwyno unrhyw honiad am 'gamymddwyn wrth gynnal ymchwil academaidd' mewn ysgrifen, gydag unrhyw dystiolaeth gefnogol, i'r Cofrestrydd trwy'r post neu trwy e-bost i (researchmiscondct@abertawe.ac.uk).

Caiff unrhyw honiadau a dderbynnir gan y Cofrestrydd eu hasesu yn y man cyntaf i benderfynu:

- a oes angen gweithredu brys ar unwaith i atal risg neu niwed pellach i staff, cyfranogwyr o blith y myfyrwyr, neu unigolion eraill, neu ddioddef anifeiliaid, neu effeithiau gwael ar yr amgylchedd; neu
- a yw'r gŵyn yn ymwneud â'r Brifysgol neu a ddylid ei chyfeirio at sylw sefydliad arall, corff allanol, neu reoleiddiwr; neu
- a yw'r honiad yn dod o fewn cwmpas y broses camymddwyn ymchwil neu a oes angen defnyddio gweithdrefn fewnol arall, er enghraifft y broses ddisgyblu; neu
- a oes angen gweithredu ar frys ar sail y pryderon a amlinellir yn yr honiad (hynny yw er mwyn diogelu cyfranogwyr, neu warchod cyllid neu dystiolaeth).

**G6 Cam cychwynnol:**

Ar ôl derbyn honiad o gamymddwyn ymchwil, bydd y Cofrestrydd yn hysbysu'r achwynydd yn ffurfiol, trwy lythyr neu e-bost (fel y bo'n briodol), ei fod wedi derbyn y gŵyn, gan nod pa weithdrefn a ddefnyddir.

Os na fydd yr honiad yn bodloni diffiniad 'camymddwyn ymchwil', bydd y Cofrestrydd yn hysbysu'r achwynydd mewn ysgrifen:

- pam nad oes modd ymchwilio i'r honiad o dan weithdrefnau'r Brifysgol;
- pa brosesau (os oes rhai) a allai fod yn addas ar gyfer trin yr honiad; a
- at sylw pwy y dylid cyfeirio'r honiad.

Os bydd yr honiad yn bodloni diffiniad 'camymddwyn ymchwil', bydd y Cofrestrydd yn hysbysu'r Is-ganghellor, y Cyfarwyddwr Adnoddau Dynol, y Dirprwy Is-ganghellor ar gyfer Ymchwil ac Arloesi, a'r Cyfarwyddwr Cyllid. Bydd yn eu hysbysu'n gyfrinachol am fanylion yr honiad, ac ymchwilir i'r honiad yn unol â gweithdrefnau'r Brifysgol. Bydd hefyd yn darparu manylion ffynonellau ariannu mewnol ac allanol, a manylion y rhai sy'n cydweithredu ar yr ymchwil dan sylw.

Mewn cyfarfod cyfrinachol, gyda chynrychiolydd o'r Adran Adnoddau Dynol yn bresennol, bydd y Cofrestrydd yn hysbysu'r Atebydd bod honiad o gamymddwyn ymchwil wedi'i dderbyn yn ei erbyn. Caiff yr Atebydd gopi wedi'i olygu o'r honiad, yn ogystal â chopi o'r weithdrefn a ddefnyddir. Fe'i hysbysir hefyd y caiff gyfle i ymateb i'r honiad a chyflwyno ei achos maes o law. Caiff yr Atebydd ddod â chydweithiwr, cynrychiolydd o'i undeb llafur, neu rywun arall i'r cyfarfod gyda fe, yn unol â'i hawliau o dan ei gontract.

Os yw'r honiadau'n ymwneud â mwy nag un Atebydd, bydd y Cofrestrydd yn hysbysu'r holl bartïon ar wahân, heb roi unrhyw wybodaeth am enwau'r Atebwyr eraill.

**Ar ôl cychwyn y broses, bydd yn parhau tan ei diwedd naturiol, gan ddiystyru:**

- a yw'r Achwynydd yn tynnu'r honiad yn ei ôl;
- a yw'r Atebydd yn cyfaddef, neu wedi cyfaddef, i'r camymddwyn honedig yn rhannol neu'n llawn, a/neu
- a yw'r Atebydd neu'r Achwynydd yn ymddiswyddo, neu eisoes wedi ymddiswyddo.

Bydd y Brifysgol yn ceisio cwblhau'r cam cychwynnol o fewn 10 diwrnod gwaith ar ôl derbyn yr honiad.

**G7 Cam sgrinio:**

- Bydd y Cofrestrydd yn cynnal ymchwiliad cychwynnol i'r honiad i benderfynu a gafodd ei wneud trwy gamgymeriad, neu ar sail wacsaw, blinderus neu faleisus.
- Os ceir bod yr honiad yn dod o dan un o'r categorïau hynny, bydd y Cofrestrydd yn gwrthod yr honiad mewn ysgrifen, gan hysbysu'r Achwynydd, yr Atebydd a'r holl bartïon eraill a hysbyswyd ar y cychwyn.
- Os ceir bod honiad yn wacsaw, yn flinderus, neu'n faleisus, bydd y Cofrestrydd yn ystyried argymell i'r Adran Adnoddau Dynol y dylid gweithredu yn erbyn yr Achwynydd o dan y

gweithdrefnau disgyblu, a bydd yn gweithredu i gefnogi enw da'r Atebydd a'r prosiect ymchwil dan sylw.

- Ni chosbir neb sy'n gwneud honiad yn ddidwyll, ac os bydd yn aelod o staff y Brifysgol, caiff gymorth berthnasol, gan gynnwys hyfforddiant.
- Os nad yw'r Cofrestrydd yn gallu gwrthod yr honiad yn gyfan gwbl, sefydlir **panel sgrinio** i benderfynu a oes tystiolaeth prima facie o gamymddwyn ymchwil.
- Bydd <u>o leiaf</u> dau aelod ar y panel sgrinio ac fel arfer, disgwylir iddo gwblhau ei waith o fewn **30 diwrnod** o gael ei sefydlu.
- Darperir adroddiad y panel sgrinio i'r Atebydd a'r Achwynydd, iddyn nhw gael gwirio'r ffeithiau ynddo. Ni fydd y panel sgrinio'n diwygio'r adroddiad oni fydd yn cynnwys camgymeriad o ran y ffeithiau.
- Lle tybir bod yr honiad yn gamgymeriad, yn wacsaw, yn flinderus neu'n faleisus, fe'i gwrthodir, a chymerir camau priodol i ddiogelu enw da'r Atebydd a'r prosiect ymchwil dan sylw.
- Gall y camau gweithredu gynnwys argymell i'r awdurdod perthnasol y dylid gweithredu o dan weithdrefnau disgyblu'r Brifysgol.
- Lle ceir bod rhywfaint o sylwedd i honiad, ond naill ai nad oedd y bwriad yn glir neu ynteu mae'r honiad o natur fân, caiff y mater ei drin trwy brosesau cymhwysedd, hyfforddiant ac addysg y Brifysgol, neu broses arall nad yw'n ymwneud â disgyblu, yn hytrach na thrwy ymchwiliad ffurfiol.
- Bydd y Cofrestrydd yn sicrhau rhaglen hyfforddiant neu oruchwyliaeth, trwy gytundeb â'r Atebydd a'i reolwr llinell.
- Os bydd y panel sgrinio o'r farn bod yr honiad yn ddigon difrifol, a bod digon o sylwedd iddo, i gyfiawnhau argymell ymchwiliad ffurfiol, bydd y Cofrestrydd yn gweithredu'n syth i sefydlu ymchwiliad ffurfiol.

**G8 Ymchwiliad ffurfiol:**

- Os bydd y panel sgrinio'n argymell cynnal ymchwiliad ffurfiol, bydd y Cofrestrydd yn gweithredu'n syth i sefydlu panel ymchwilio. Bydd hefyd yn hysbysu'r Atebydd a'r Achwynydd, neu eu cynrychiolwyr, y cynhelir ymchwiliad ffurfiol.
- Hefyd, bydd y Cofrestrydd yn hysbysu'r Is-ganghellor, y Dirprwy Is-ganghellor dros Ymchwil ac Arloesi, y Cyfarwyddwr Adnoddau Dynol, y Cyfarwyddwr Cyllid ac unrhyw sefydliad partner y mae gan naill ai'r Atebydd neu'r Achwynydd gontract anrhydeddus gydag e y cynhelir ymchwiliad ffurfiol i'r achos.
- Yna, bydd y Cofrestrydd yn cynnull panel ymchwilio ffurfiol sy'n cynnwys uwch staff o'r Brifysgol sydd â phrofiad perthnasol yn y maes. Os tybir bod angen, bydd yn gwahodd unigolyn o'r tu allan i'r Brifysgol i gadeirio'r panel neu i fod yn aelod ohono.
- Bydd y panel ymchwilio'n ystyried yr holl dystiolaeth a gasglwyd yn ystod ymchwiliad y panel sgrinio, ac yn ymchwilio ymhellach fel bo angen.
- Yn ystod yr ymchwiliad ffurfiol, <u>bydd</u> y panel ymchwilio yn <u>cyfweld</u> yr Atebydd a'r Achwynydd.
- Bydd y panel ymchwilio'n adolygu'r holl dystiolaeth a dogfennau er mwyn dod i gasgliad a yw'r honiad yn wir ai peidio, ac os yw, ai'n llawn neu'n rhannol.
- Y safon prawf ar gyfer yr ymchwiliad fydd 'pwysau tebygolrwydd'.
- Caiff y panel ymchwilio wrthod honiad ar y sail ei fod yn gamgymeriad, yn wacsaw, yn

flinderus, neu'n faleisus.

- Os daw tystiolaeth newydd i'r amlwg yn ystod yr ymchwiliad, o ran achosion eraill o gamymddwyn ymchwil gan yr Atebydd, heb unrhyw gysylltiad â'r honiadau sy'n cael eu harchwilio, neu o ran camymddwyn ymchwil gan rywun arall, bydd y panel ymchwilio'n cyflwyno'r honiadau newydd i'r Cofrestrydd i'w hystyried dan gamau cychwynnol y weithdrefn.
- Penodir y panel ymchwilio o fewn 30 diwrnod gwaith o gyflwyno adroddiad y panel sgrinio yn argymell ymchwiliad ffurfiol.
- Ni fydd amserlen na dyddiad cau ar gyfer y panel ymchwilio, ond bydd y panel yn ceisio cwblhau'r ymchwiliad cyn gynted ag y bo modd heb gyfaddawdu egwyddorion y broses.
- Os bydd yr ymchwiliad yn para am amser hir, bydd cadeirydd y panel yn darparu adroddiadau misol i'r Cofrestrydd. Bydd yntau'n rhoi gwybodaeth addas ar y cynnydd i'r partïon perthnasol.
- Ar ôl cwblhau'r ymchwiliad, bydd y panel yn cyflwyno adroddiad drafft i'r Cofrestrydd i'w anfon at yr Atebydd a'r Achwynydd iddynt wirio cywirdeb y ffeithiau.
- Ni ddiwygir yr adroddiad (gan y Cadeirydd) oni fydd yn cynnwys camgymeriadau ffeithiol neu faterion amherthnasol i'r ffeithiau a nodwyd gan yr Atebydd neu'r Achwynydd, a hynny dim ond ar ôl i'r panel ymchwilio gytuno bod angen y newidiadau.
- Yna, bydd y panel ymchwilio'n llunio adroddiad terfynol yn crynhoi cynnydd yr ymchwiliad, gan ddatgan ei benderfyniad ar yr honiad o gamymddwyn ymchwil, gan wneud argymhellion, a chan drafod unrhyw faterion o drefn a ddaeth i'r amlwg yn ystod yr ymchwiliad. Caiff argymhellion y panel gynnwys gweithredu pellach, gan gynnwys: cywiro erthyglau neu bapurau, neu eu tynnu'n ôl; diogelu cyfranogwyr a chleifion; cyflwyno adroddiad, lle bo angen, i reoleiddwyr, arianwyr, cyrff partner neu gyrff proffesiynol.
- Os cadarnheir rhan neu'r cyfan o unrhyw honiad, bydd y Cofrestrydd, y Cyfarwyddwr Adnoddau Dynol ac aelod hŷn arall o staff (Dirprwy Is-ganghellor neu Bennaeth Coleg) yn penderfynu a ddylid cyfeirio'r mater i'w brosesu trwy weithdrefnau disgyblu'r Brifysgol neu a ddylid gweithredu'n ffurfiol mewn modd arall.
- Bydd y Cofrestrydd yn hysbysu'r Atebydd a'r Achwynydd (neu eu cynrychiolwyr) am ganlyniad yr ymchwiliad ffurfiol, mewn ysgrifen.
- Bydd y Cofrestrydd yn hysbysu'r Is-ganghellor, y Dirprwy Is-ganghellor dros Ymchwil ac Arloesi ac unrhyw staff perthnasol eraill yn y Brifysgol hefyd, yn ogystal ag unrhyw sefydliadau partner, cyrff ariannu, cyrff rheoleiddio a chyrff proffesiynol.
- Os caiff y mater ei gyfeirio at sylw gweithdrefnau disgyblu'r Brifysgol, adroddiad y panel ymchwilio fydd sail y dystiolaeth a gyflwynir i'r panel disgyblu.

### G9 Apeliadau:

Os bydd y panel ymchwilio ffurfiol yn dod i'r casgliad bod yr honiad yn wir, yn llawn neu'n rhannol, ond bod natur y camymddygiad o fath y dylid ei drin mewn modd anffurfiol, er enghraifft trwy rybudd anffurfiol, caiff yr Atebydd apelio yn erbyn y penderfyniad ar un neu fwy o'r seiliau canlynol:

(a) na thriniwyd yr honiad yn unol â'r gweithdrefnau uchod; a/neu

(b) bod tystiolaeth newydd wedi dod i'r amlwg nad oedd ar gael, neu nad oedd modd ei chyflwyno, i'r panel ynghynt.

<u>Dylai'r Atebydd gyflwyno unrhyw apêl yn erbyn y penderfyniad mewn ysgrifen i'r Cofrestrydd</u>

o fewn 28 diwrnod ar ôl dyddiad hysbysiad penderfyniad y panel. Dylai'r apêl gynnwys yr holl ddogfennau sy'n berthnasol i'r sail ar gyfer yr apêl.

# POLISI AR DDATGELIADAU CYHOEDDUS (CHWYTHU'R CHWIBAN)

## H1. Cyflwyniad

Mae Prifysgol Abertawe wedi ymrwymo i sicrhau didwylledd, gonestrwydd, ac atebolrwydd o'r safon uchaf. Mae'n ceisio trafod ei busnes mewn modd cyfrifol gan dalu sylw priodol i ofynion y cyrff ariannu a'r safonau ar gyfer bywyd cyhoeddus a amlygwyd yn adroddiadau Pwyllgor Nolan.

Mae Deddf Datgelu er Lles y Cyhoedd 1988 yn diogelu staff trwy gyfraith rhag cael eu diswyddo neu eu cosbi gan eu cyflogwyr o ganlyniad i ddatgelu pryderon yn gyhoeddus lle maent yn ddifrifol ac yn debyg o fod o ddiddordeb i'r cyhoedd yn ehangach. Mae'n amod sylfaenol pob contract cyflogaeth y bydd pob aelod o staff yn gwasanaethu ei gyflogwr ac yn ymatal rhag datgelu gwybodaeth gyfrinachol am fusnes ei gyflogwr. Fodd bynnag, pan fydd unigolyn yn darganfod gwybodaeth sydd, yn ei dyb e, yn dangos camymddwyn neu dramgwyddo o fewn sefydliad, dylai allu datgelu'r fath wybodaeth heb ofni dial, a hynny'n annibynnol o'i reolwr llinell. Mae'r hawl i fynegiant rhydd yn un o ddarpariaethau Deddf Hawliau Dynol 2000.

Caiff yr holl staff ddefnyddio'r polisi hwn, ond mae hefyd ar gael i'w ddefnyddio gan aelodau eraill[1] y Brifysgol, gan gynnwys aelodau'r Cyngor, aelodau'r llys, a myfyrwyr.

Nid yw'n fwriad bod y polisi hwn yn cael ei ddefnyddio yn lle gweithdrefn achwyn y Brifysgol, a dylid codi unrhyw bryder am sefyllfa cyflogaeth unigolyn trwy'r weithdrefn achwyn yn y ffordd arferol.

Ni ddylai Aelodau weld y polisi hwn yn:

- ffordd o herio neu gwestiynu penderfyniadau busnes neu benderfyniadau ariannol a wneir gan y Brifysgol;
- ffordd o apelio yn erbyn penderfyniadau a gymerwyd o dan unrhyw weithdrefn arall o eiddo'r Brifysgol;
- neu ffordd o ddelio â chamymddwyn neu dramgwyddo myfyrwyr.

## H2. Cwmpas y polisi

Dyluniwyd y polisi hwn i ganiatáu i aelodau'r Brifysgol godi pryderon a datgelu gwybodaeth mewn amgylchiadau lle'r mae'r unigolyn o'r farn bod camymddwyn wedi digwydd.

Yn ogystal â'r polisi hwn, mae gan y Brifysgol nifer o bolisïau a gweithdrefnau eraill ar waith, gan gynnwys achwyniadau a chwynion, aflonyddu, a disgyblaeth. Bwriad y polisi yw delio â

[1] Diffinnir aelodau'r Brifysgol yn yr Ordinhadau.

phryderon a godir er budd y cyhoedd ac y gellir (yn y lle cyntaf) eu harchwilio ar wahân, ond a allai arwain at weithredu'r gweithdrefnau eraill. Ymhlith y mathau o bryderon y byddai'n briodol eu hystyried dan y polisi hwn yw honiadau am:

- Twyll;
- Camymddwyn ac anghywirdeb ariannol (gan gynnwys afreoleidd-dra ariannol, llygredd, llwgrwobrwyo, anonestrwydd);
- Cyflawni trosedd;
- Methu cydymffurfio â gofyniad cyfreithiol neu â'r Siartr, â'r Statudau, â'r Ordinhadau a/neu â Rheoliadau'r Brifysgol;
- Camwedd;
- Peryglu iechyd a diogelwch;
- Peryglu'r amgylchedd;
- Ymddygiad anfoesol ac ymddygiad amhriodol;[1]
- Camymddygiad academaidd, gweinyddol, neu broffesiynol;
- Ymgais i guddio unrhyw un o'r materion uchod.

Nid yw'n fwriad bod y rhestr yn gynhwysfawr, ac anogir aelodau'r Brifysgol i ddefnyddio'r polisi hwn os ydynt o'r farn eu bod wedi darganfod camymddwyn neu anghywirdeb.

**H3. Trefniadau diogelu**

**Diogelu**

Dyluniwyd y polisi hwn i ddiogelu aelodau o'r Brifysgol sy'n datgelu'r fath bryderon, cyhyd ag y datgelir yr wybodaeth:

- Yn unol â'r weithdrefn isod;
- Yn ddidwyll; ac
- Ar sail cred yr unigolyn sy'n datgelu'r wybodaeth bod yr wybodaeth yn dangos camymddwyn.

**H4. Cyfrinachedd**

Bydd y Brifysgol yn trin unrhyw ddatgeliad priodol a wnaed gan ddefnyddio'r polisi hwn mewn modd cyfrinachol a sensitif. Felly, bydd yn ymdrechu i gadw enw'r sawl a ddatgelodd yr wybodaeth yn gyfrinachol. Fodd bynnag, rhaid deall y gallai'r broses ymchwilio ddatgelu ffynhonnell yr wybodaeth, a'i bod yn bosibl y bydd angen datganiad ffurfiol gan yr unigolyn yn rhan o'r broses ymchwilio.

Hefyd, bydd y Brifysgol yn cymryd yr holl gamau rhesymol i sicrhau na erlidir aelodau o'r

[1] Mae'r Brifysgol eisoes wedi cymeradwyo Protocol ar gyfer ymchwilio i honiadau am gamymddwyn mewn ymchwil, a byddai'r protocol hwnnw'n cael ei ddefnyddio pe byddai'r honiad am gamymddwyn yn ymwneud ag ymchwil.

Brifysgol sydd wedi codi pryderon dan y weithdrefn hon mewn unrhyw ffordd gan aelodau eraill o'r Brifysgol.

Caiff erledigaeth, neu unrhyw driniaeth arall sy'n niweidiol i aelod o staff, myfyriwr neu aelod arall o'r Brifysgol, o ganlyniad i'r ffaith bod yr unigolyn hwnnw wedi codi pryderon yn ddidwyll o dan y polisi hwn, ei drin fel tramgwydd difrifol o dan weithdrefn disgyblu'r Brifysgol.

**H5. Honiadau di-enw**

Bwriad y polisi hwn yw annog unigolion i roi eu henwau i unrhyw ddatgeliadau. Mae pryderon dienw yn llawer llai nerthol, ond caiff eu hystyried yn noethineb y Brifysgol.

Wrth ddefnyddio'i doethineb yn y mater hwn, bydd y ffactorau sydd i'w hystyried yn cynnwys:

- pa mor ddifrifol yw'r materion a godwyd;
- hygrededd y pryderon; ac
- y tebygrwydd y bydd modd cadarnhau'r honiad o ffynonellau hysbys.

**H6. Honiadau di-sail**

Os bydd unigolyn yn gwneud honiad didwyll nas cadarnheir gan ymchwiliad wedyn, ni chymerir unrhyw gamau yn erbyn yr unigolyn hwnnw. Fodd bynnag, os bydd unigolyn yn gwneud honiadau maleisus neu flinderus, ac yn arbennig os bydd yn parhau i'w gwneud, gellir cymryd camau disgyblu yn ei erbyn.

**H7. GWEITHDREFNAU**

**H7.1. Gweithdrefnau am wneud datgeliad**

**Cam Un**

(i) Dylai'r unigolyn wneud y datgeliad ysgrifenedig i'r ***swyddog dynodedig***, sef, fel arfer, y Cofrestrydd. Bydd y Cofrestrydd yn sicrhau bod yr Is-ganghellor yn ymwybodol o unrhyw ddatgeliad ac o'r cynnydd wrth ei drin, ond yn achos camymddwyn ariannol, bydd y Cofrestrydd yn ymgynghori'n agos â'r Is-ganghellor, fel Swyddog Cyfrifyddu'r Brifysgol, trwy gydol y broses.

(ii) Os bydd y datgeliad yn ymwneud â'r Cofrestrydd, yna dylid ei wneud yn uniongyrchol i'r Is-ganghellor.

(iii) Os bydd y datgeliad yn ymwneud â'r Is-ganghellor, yna dylid ei wneud i Gadeirydd y Cyngor.

(iv) Os nad yw'r unigolyn am godi'r mater gyda neb o'r rhai a enwyd uchod, yna caiff ei godi gyda Chadeirydd y Pwyllgor Archwilio, cyhyd â bod y mater o fewn cylch gwaith arferol y Pwyllgor; ac os nad yw o fewn cylch gwaith arferol y Pwyllgor, caiff ei godi gyda Chadeirydd y Cyngor.

**Cam Dau**

(i) Bydd y swyddog dynodedig yn ystyried yr holl wybodaeth a gyflwynwyd iddo, a phenderfynu pa fath o ymchwiliad y dylid ei gynnal. Yr opsiynau yw:

a) Ymchwilio i'r mater yn fewnol;

b) Cyfeirio'r mater at sylw'r heddlu;
c) Galw am ymchwiliad allanol annibynnol.

(ii) Os penderfynir cynnal ymchwiliad gan ddefnyddio mwy nag un o'r dulliau uchod, dylai'r swyddog dynodedig fodloni ei hun bod cyfiawnhad dros weithredu felly.

(iii) Lle bydd y mater yn destun ymchwiliad mewnol, bydd y swyddog dynodedig yn ystyried a oes achos *prima facie* i'w ateb. Bydd hyn yn cynnwys penderfynu:

a) Pwy ddylai gynnal yr ymchwiliad;
b) Y weithdrefn i'w dilyn;
c) Cwmpas yr adroddiad terfynol.

**Cam Tri**

(i) Fel arfer, Pennaeth yr Uned Archwilio Mewnol ar y Cyd, neu mewn achos nad yw'n ymwneud â materion ariannol, swyddog annibynnol arall y Brifysgol (fel arfer Dirprwy Is-ganghellor), fydd yn cynnal yr ymchwiliad mewnol gan gyflwyno adroddiad i'r swyddog dynodedig. Ni ddylai’r ymchwiliad gael ei gynnal gan yr unigolyn a fydd yn gorfod gwneud penderfyniad am yr adroddiad yn y pen draw.

(ii) O ganlyniad i'r ymchwiliad hwn, gallai'r swyddog dynodedig gychwyn gweithdrefnau mewnol eraill, megis:

a) Gweithdrefnau Disgyblu Staff;
b) Achwyniadau neu gwynion staff;
c) Aflonyddu staff;
d) Gweithdrefnau statudol;
e) Cysylltu â'r Heddlu.

Ar y cam hwn yn y broses, gellid cyfeirio'r mater at sylw'r heddlu hefyd.

(iii) Mewn rhai achosion, gallai fod angen cyfeirio'r mater at sylw awdurdod allanol i'w ymchwilio, er enghraifft Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru, neu un o'r cyrff a restrir yn y Ddeddf Datgelu er Lles y Cyhoedd.

**Cam Pedwar**

(i) Bydd y swyddog dynodedig yn hysbysu'r sawl a wnaeth y datgeliad am ba gamau sydd i'w cymryd, os oes rhai. Os penderfynir peidio â gweithredu ymhellach, dylid hysbysu'r unigolyn dan sylw am hynny gan roi cyfle iddo wneud y datgeliad i berson addas arall (yr adolygydd dynodedig) yn unol â'r tabl isod:

| ***Swyddog Dynodedig*** | ***Adolygydd Dynodedig*** |
|---|---|
| Cofrestrydd | Unrhyw Swyddog Dynodedig arall |
| Is-ganghellor | Unrhyw Swyddog Dynodedig arall |

| | |
|---|---|
| Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio | Trysorydd |
| Cadeirydd y Cyngor | Canghellor |

Bydd yr ***adolygydd dynodedig*** yn ystyried yr holl wybodaeth a gyflwynwyd, y gweithdrefnau a ddilynwyd, a'r rhesymau dros beidio â chymryd camau pellach. Canlyniad yr adolygiad fydd naill ai cadarnhau nad oes angen gweithredu ymhellach, neu ynteu fod angen ymchwilio pellach a fydd yn dilyn y prosesau a amlygwyd yng nghamau 2 a 3 uchod.

(ii) Pan wneir datgeliad, hysbysir y sawl y gwneir honiadau amdano ac fe'i hysbysir hefyd am y dystiolaeth sy'n cefnogi'r datgeliad. Rhoddir cyfle iddo ymateb cyn i unrhyw ymchwiliad, neu weithredu pellach, ddod i gasgliad.

**Cam Pump**

(i) Caiff unigolyn sy'n parhau i fod yn anfodlon, ar ôl i'r holl brosesau mewnol am ddelio â chwyn neu bryder ddod i gasgliad, ystyried a yw'n briodol i wneud cais i'r Ymwelydd. Ceir gwybodaeth am y broses hon oddi wrth y Cofrestrydd.

**14. Adrodd ar ganlyniadau**

(i) Bydd y swyddog dynodedig yn cyflwyno adroddiad ar bob datgeliad a'r camau a gymerwyd wedyn, a bydd yn cadw'r fath adroddiadau am dair blynedd. Ym mhob achos, cyflwynir adroddiad am ganlyniad yr ymchwiliad i'r Pwyllgor Archwilio. Bydd yn adroddiad manwl lle mae'r mater o fewn cylch gwaith y Pwyllgor, ac adroddiad cryno mewn achosion eraill, yn fodd i'r Pwyllgor fonitro effeithiolrwydd y broses.

**H8. Camddefnyddio'r polisi a'r gweithdrefnau**

Fel yr amlinellwyd uchod, bydd y Brifysgol yn diogelu staff ac aelodau eraill y Brifysgol rhag erledigaeth o ganlyniad i ddefnydd priodol y gweithdrefnau a amlygwyd yn y polisi hwn. Fodd bynnag, bydd y Brifysgol yn tybio bod unrhyw gamddefnydd o'r gweithdrefnau hyn yn fater difrifol iawn. Os bydd unrhyw aelod o'r Brifysgol yn camddefnyddio'r gweithdrefnau hyn er mwyn gwneud honiadau anwir neu faleisus, caiff hynny ei drin fel tramgwydd difrifol o dan reoliadau disgyblu'r Brifysgol, a gellid cymryd camau priodol yn erbyn yr unigolyn dan sylw.

# POLISI AR DDIOGELU DATA YMCHWIL

**Ymchwil a Deddf Diogelu Data 1998**

Mae rhai o'r ymchwil a wneir gan y Brifysgol yn defnyddio gwybodaeth am unigolion byw y mae modd eu hadnabod, ac yn defnyddio gwybodaeth bersonol sy'n destun i'r Ddeddf Diogelu Data. Mae'r Ddeddf Diogelu Data'n darparu yn benodol ar gyfer defnyddio gwybodaeth bersonol at ddibenion ymchwil ac mewn cyd-destunau addysgol eraill, ond nid yw hyn, mewn unrhyw ffordd, yn rhyddhau defnyddwyr data o'r angen i drin data yn unol â darpariaethau'r ddeddf.

**Bwriad y cyfarwyddyd hwn**

Bwriad y cyfarwyddyd hwn yw codi ymwybyddiaeth o oblygiadau'r Ddeddf Diogelu Data o ran data ymchwil, a sicrhau y gall unigolion gydymffurfio â'r ddeddfwriaeth. Mae'r eithriadau penodol yn cyfeirio at:

- At ba ddibenion y prosesir yr wybodaeth;
- Am ba hyd y cedwir yr wybodaeth; a
- Ceisiadau mynediad gwrthrychau'r data.

**Beth yw'r Ddeddf Diogelu Data?**

Mae'r Ddeddf Diogelu Data yn rhoi hawliau i unigolion (sef 'gwrthrychau data') o ran yr *wybodaeth bersonol* y mae sefydliadau'n ei dal amdanynt, ac yn gofyn bod sefydliadau ac unigolion yn bodloni safonau penodol wrth gasglu a defnyddio gwybodaeth bersonol. Mae'r Ddeddf yn dweud:

- Mae'n gyfreithlon i brosesu gwybodaeth bersonol mewn modd nas datganwyd yn wreiddiol at ddibenion ymchwil (gan gynnwys ymchwil ystadegol neu hanesyddol), ar yr amod y perchir yr amodau eraill. (Gellir dychmygu yn hawdd sut y gellid dod yn amlwg bod data a gasglwyd am un rheswm yn ystod arbrawf neu arolwg yn ddefnyddiol at ddibenion eraill.) Mae'r eithriad hwn - a'r eithriadau eraill - yn benodol iawn, a rhaid parchu'r holl amodau eraill - gan gynnwys datgan diben yn y lle cyntaf;

- Ni chaniateir prosesu data ymchwil os datgelir enw gwrthrych data heb ei gydsyniad, neu os bwriedir defnyddio'r data i gefnogi gwneud penderfyniad am unigolyn, neu os yw'n debygol y bydd niwed neu drallod sylweddol;

- Gellir cadw gwybodaeth bersonol am byth os na chaiff eu prosesu ond at ddibenion ymchwil;

- Mae gwybodaeth bersonol a brosesir at ddibenion ymchwil wedi'i heithrio o'r rheolau ynghylch ceisiadau mynediad, cyhyd ag y mae'r data yn cael eu prosesu'n unol â'r holl amodau eraill ac nad yw'r ymchwil yn enwi unigolion; a

- Tybir nad yw ystadegau na data dienw heb unrhyw wybodaeth a allai adnabod unigolyn yn wybodaeth bersonol, ac nid yw'r Ddeddf yn ei chynnwys.

**Pam dylai ymchwilwyr bryderu am y Ddeddf Diogelu Data?**

Mewn sawl ffordd, mae'r Ddeddf Diogelu Data'n atgyfnerthu'r arfer da a hyrwyddir gan gyrff proffesiynol yn eu codau moesegol a'u safonau ymarfer. Mae'r cysyniad cyfreithiol o 'gwybodaeth bersonol' yn gymhleth, a gall y gosb am beidio â chydymffurfio fod yn ddifrifol iawn. Os dangosir nad yw'r Brifysgol wedi cydymffurfio â'r ddeddf, gall bod goblygiadau cyfreithiol, a gall effeithio ar enw da'r sefydliad. Nid yw'r Ddeddf yn diogelu data am y meirw, ond mewn rhai amgylchiadau, gall fod dyletswydd dan gyfraith gwlad i ystâd yr ymadawedig o ran cyfrinachedd (er enghraifft o ran gwybodaeth feddygol sensitif).

**Beth ddylai ymchwilydd ei wneud os bydd yn dymuno defnyddio gwybodaeth bersonol at ddibenion ymchwil?**

Er mwyn defnyddio data at ddibenion ymchwil, mae gan ymchwilwyr ddau opsiwn:

1. cydymffurfio â'r Ddeddf Diogelu Data, *neu*
2. addasu'r data fel eu bod yn ddienw ac fel nad yw'r Ddeddf yn berthnasol bellach.

Ni thybir bod y data'n ddienw oni fydd yn amhosibl adnabod unigolion o'r wybodaeth, gan gynnwys eu hadnabod trwy ddefnyddio unrhyw wybodaeth arall a ddelir gan y Brifysgol neu y mae'r Brifysgol yn debyg o'u dal. Ni thybir bod data'n ddi-enw os rhoddir rhif i bob unigolyn a chedwir rhestr ar wahân sy'n cyfuno'r rhifau a'r enwau.

**Canllaw i Egwyddorion Diogelu Data ar gyfer ymchwilwyr**

Rhaid i unigolion a sefydliadau gydymffurfio ag wyth egwyddor diogelu data. Mae gofynion ychwanegol ar gyfer *gwybodaeth bersonol sensitif*, ac mae'n rhaid i'r Brifysgol fod yn arbennig o ofalus ynghylch y rhain.

- **Egwyddor gyntaf:** rhaid i wybodaeth bersonol gael ei defnyddio mewn modd teg a chyfreithlon. Rhaid rhoi gwybodaeth i unigolion sy'n nodi sut caiff data amdanynt eu defnyddio, oni fyddai darparu'r fath wybodaeth yn golygu ymdrech anghymesur. Ar ben hynny, rhaid bodloni nifer o amodau "prosesu teg" a amlygir yn y Ddeddf wrth gasglu neu defnyddio gwybodaeth bersonol.

- **Ail egwyddor:** ni chaniateir defnyddio gwybodaeth bersonol at unrhyw ddiben sy'n anghydnaws â'r rheswm am ei chasglu yn y lle cyntaf.

- **Trydedd egwyddor:** rhaid i wybodaeth bersonol fod yn ddigonol a pherthnasol ond heb fod yn ormodol o ystyried y rheswm dros ei chasglu.

- **Pedwaredd egwyddor** - rhaid i wybodaeth bersonol fod yn gywir a, lle bo angen, rhaid ei chadw'n gyfredol.

• **Pumed egwyddor:** rhaid peidio â chadw gwybodaeth bersonol yn hwy nag sydd angen o ystyried y rheswm dros ei chasglu.

• **Chweched egwyddor**: rhaid prosesu gwybodaeth bersonol yn unol â hawliau'r unigolion. Mae'r rhain yn cynnwys hawl i gael mynediad at yr wybodaeth a gedwir amdanynt; hawl i atal neb rhag defnyddio'r data mewn modd sy'n peri niwed neu drallod sylweddol iddynt; a hawl i fynnu bod gwybodaeth anghywir yn cael ei chywiro.

• **Seithfed egwyddor:** rhaid cymryd camau priodol o ran diogelwch i rwystro mynediad heb awdurdod at wybodaeth bersonol ac i osgoi colli, dinistrio neu niweidio'r data trwy ddamwain.

• **Wythfed egwyddor**: Yn aml, mae ymchwil yn cynnwys cydweithredu rhyngwladol. Fodd bynnag, mae'r wythfed egwyddor yn gwahardd trosglwyddo gwybodaeth bersonol y tu allan i'r Ardal Economaidd Ewropeaidd.[1] Ni chaniateir trosglwyddo gwybodaeth bersonol y tu allan i'r Ardal Economaidd Ewropeaidd ac eithrio i wlad lle mae systemau diogel data yn ddigonol. Bwriad sylfaenol y gofynion hyn yw diogelu hawl unigolion i breifatrwydd dan Erthygl 8 y Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol, sydd wedi'i ymgorffori yn neddfwriaeth y Deyrnas Unedig o ganlyniad i'r Ddeddf Hawliau Dynol.

Mae'r egwyddor gyntaf o ran diogelu data yn gofyn bod gwybodaeth bersonol yn cael ei phrosesu mewn modd teg a chyfreithlon. Er mwyn prosesu gwybodaeth bersonol, rhaid bodloni o leiaf un o'r amodau a amlygir yn Atodiad 2, sy'n cyfreithloni'r prosesu:

- cydsyniad gwrthrych y data;
- rheidrwydd oherwydd amodau contract;
- cyfrifoldeb cyfreithiol rheolydd y data nad yw'n amod contract;
- buddiannau hanfodol gwrthrych y data;
- mae'r prosesu'n angenrheidiol at ddibenion gweinyddu cyfiawnder neu gyflawni swyddogaethau statudol neu lywodraethol;
- buddiannau dilys y Rheolydd Data.

Os bydd ymchwilydd yn ceisio defnyddio gwybodaeth bersonol sensitif, bydd angen bodloni amod dilys yn Atodiad 3 hefyd (yn ogystal ag o leiaf un o'r amodau uchod o Atodiad 2);

- cydsyniad penodol gwrthrych y data;
- mae'r prosesu'n angenrheidiol i gydymffurfio â deddfwriaeth cyflogaeth;
- buddiannau hanfodol gwrthrych y data neu unigolyn arall;
- prosesir y data gan sefydliad nid-er-elw;
- mae gwrthrych y data eisoes wedi cyhoeddi'r data;
- mae angen y prosesu oherwydd achos cyfreithiol;
- mae'r prosesu'n angenrheidiol at ddibenion gweinyddu cyfiawnder neu gyflawni

[1]Dyma restr o wledydd sy'n aelodau'r Ardal Economaidd Ewropeaidd neu sydd a systemau diogelu data digonol ar hyn o bryd: Awstria, Andora, Yr Ariannin, Gwlad Belg, Canada, Denmarc, Ffindir, Ynysoedd Faroe, Ffrainc, Yr Almaen, Gwlad Groeg, Ys Iseldiroedd, Gwlad yr Iâ, Iwerddon, Yr Eidal, Ynys Manaw, Israel, Jersey, Liechtenstein, Luxembourg, Norwy, Seland Newydd, Portiwgal, Sbaen, Sweden, Y Swistir, Uruguay, a'r Deyrnas Unedig.

swyddogaethau statudol neu lywodraethol;

- mae'r prosesu'n angenrheidiol am resymau meddygol, ac fe'i gwneir gan weithiwr iechyd proffesiynol neu rywun sydd â dyletswydd cyfwerth o ran cyfrinachedd;
- mae angen y prosesu er mwyn monitro cyfle cyfartal, ac fe'i gwneir gan ddiogelu hawliau unigolion mewn modd priodol.

Nid oes angen, bob amser, i wrthrych y data gydsynio i brosesu data amdano. Fodd bynnag, er mwyn cydymffurfio ag egwyddor gyntaf y Ddeddf Diogelu Data, bydd angen bodloni un o'r amodau perthnasol eraill cyn y bydd yn gyfreithlon ac yn deg i brosesu'r data.

Mae'r Ddeddf Diogelu Data'n cydnabod bod rhai mathau o wybodaeth bersonol yn fwy sensitif nag eraill, ac yn diogelu "gwybodaeth bersonol sensitif" ymhellach. Mae "gwybodaeth bersonol sensitif" yn cynnwys gwybodaeth am ethnigrwydd, hil, barn wleidyddol, cred grefyddol neu ei thebyg, iechyd corfforol neu feddyliol, bywyd rhywiol, aelodaeth o undeb llafur, troseddu neu droseddu honedig, ac achosion troseddol yn erbyn yr unigolyn. Rhaid cymryd gofal arbennig wrth gasglu a defnyddio data yn y categorïau hyn.

Dim ond yn y Deyrnas Unedig y mae'r Ddeddf Diogelu Data'n ddilys. Nid yw'r Ddeddf yn ddilys yn achos data a gesglir ac a gedwir dramor, ond fe all y bydd deddfwriaeth gyfwerth ar waith yn lleol. Pan ddaw gwybodaeth bersonol i'r Deyrnas Unedig, caiff ei diogelu gan y Ddeddf yn yr un modd â data a gesglir yma. Bydd raid bodloni'r egwyddorion diogelu data wrth fewnforio’r data i'r Deyrnas Unedig ac wrth ddefnyddio'r data ar ôl hynny, gan gynnwys wrth allforio'r data o'r Deyrnas Unedig.

Dylid bob amser prosesu gwybodaeth bersonol mewn modd teg a chyfreithlon. Rhaid i unrhyw ymchwil a wneir gan staff a myfyrwyr y Brifysgol fodloni gofynion y Ddeddf Diogelu Data a pharchu hawliau unigolion o dan y ddeddf.

Mae'r Ddeddf yn rhoi hawl i unigolion erlyn y troseddwr am iawndal os bydd yn dioddef o ganlyniad i dramgwyddo yn erbyn y ddeddf, a hawl i ofyn am ymchwiliad gan y Comisiynydd Gwybodaeth (sef yr asiantaeth sy'n rheoleiddio Diogelu Data).

Yn gynyddol, mae arianwyr ymchwil yn mynnu bod gan brosiectau brotocolau digonol ar waith i ddiogelu gwybodaeth bersonol, a gallant wrthod ariannu sefydliad sydd ag arfer gwael o ran diogelu data. Fel mae achosion proffil uchel yn ymwneud â cholli gwybodaeth bersonol yn dangos, gall diogelwch data annigonol beri cyhoeddusrwydd gwael a niwed difrifol i enw da.

**Beth yw rôl cydsyniad?**

Y ffordd hawsaf, o bosibl, o fodloni gofynion egwyddorion 1, 2 ac 8 yw sicrhau cydsyniad gwrthrychau'r ymchwil i gasglu'r data. Mae cydsyniad yn gofyn bod gwrthrychau'r ymchwil yn deall yn llawn pwrpas, dulliau, a defnydd arfaethedig posibl yr ymchwil, a'r goblygiadau iddyn nhw (gan gynnwys unrhyw risgiau). Mae cynnal ymchwil mewn modd agored sy'n parchu hawliau gwrthrychau ymchwil, a chael eu cydsyniad yn rhan allweddol o gynnal ymchwil mewn modd moesegol.

I'r cydsyniad fod yn ystyrlon, rhaid i'r unigolyn ei roi yn wybodus ac o'i wirfodd. Mae cydsyniad "gwybodus" yn golygu bod gwrthrychau'r ymchwil yn deall i beth maent yn cydsynio, ac yn derbyn gwybodaeth gynhwysfawr am y prosiect mewn iaith a geirfa sy'n gyfarwydd iddynt. Er y bydd yr wybodaeth hon yn amrywio o brosiect i brosiect, ac er y bydd angen ei theilwra ar gyfer y diwylliant neu'r gymdeithas lle cynhelir yr ymchwil, argymhellir y dylid cynnwys:

- enw'r prosiect, ei bwrpas a'i amcanion;
- enwau'r sefydliadau neu unigolion sydd wedi ariannu'r ymchwil, a manylion eu buddiannau yn yr ymchwil;
- pam bod yr wybodaeth yn cael ei chasglu, a pham bod ei hangen ar gyfer y prosiect;
- enw a manylion cyswllt yr unigolyn fydd yn gyfrifol am gasglu'r data ar gyfer y prosiect;
- enwau'r unigolion gaiff fynediad at y data, gan gynnwys unrhyw sefydliadau neu unigolion y tu allan i'r sefydliad;
- camau diogelwch arbennig a gymerir i ddiogelu'r data;
- rhestr o wledydd y gellid trosglwyddo'r data iddynt. A gaiff y data eu casglu y tu allan i'r Deyrnas Unedig a'u trosglwyddo i'r Deyrnas Unedig, ac a gaiff y data eu trosglwyddo y tu allan i'r Undeb Ewropeaidd?;
- sut y caiff y data eu cyhoeddi, neu sut y rhoddir mynediad atynt, gan gynnwys a fydd modd adnabod gwrthrychau'r ymchwil yn y data a gyhoeddir neu a gyhoeddir y data mewn fformat dienw;
- beth a wneir i archifo'r data;
- sut caiff y data eu defnyddio mewn prosiectau ymchwil yn y dyfodol; a
- sut all gwrthrych yr ymchwil ddiddymu ei gydsyniad i gymryd rhan yn y prosiect os bydd yn penderfynu ei fod am wneud hynny.

Dylid ystyried i ba raddau y mae gwrthrych yr ymchwil yn gallu rhoi ei gydsyniad. Dylid gwneud pob ymdrech i gael cydsyniad gwybodus plant a grwpiau eraill sy'n agored i niwed (er enghraifft oedolion gydag anawsterau dysgu), er y cydnabyddir y gall cydsyniad gwybodus alw am ymwneud rhiant, gwarcheidwad, neu unigolyn arall gyda dyletswydd gofal. Fel arfer, dylid ceisio cydsyniad y rhieni yn achos plentyn dan 16 oed. Mae rhoi cydsyniad "o'i wirfodd" yn golygu na ddylai'r unigolyn fod dan bwysau: ni ddylai fod unrhyw oblygiadau negyddol iddo o ganlyniad i wrthod cymryd rhan, na dim pwysau (amlwg na dealledig) i gymryd rhan. Dylai ymchwilwyr gydnabod bod cydsyniad gwybodus a roddir o wirfodd y gwrthrych yn gofyn am drafodaeth barhaus â gwrthrych yr ymchwil, ac nid yw'n rhywbeth sy'n digwydd unwaith yn unig.

Mae'n bosibl y bydd angen ail-negodi cydsyniad, er enghraifft os bydd amcanion yr ymchwil neu'r modd y lledaenir ei chanlyniadau'n newid. Mae gan wrthrychau ymchwil hawl i dynnu eu cydsyniad yn ôl ar unrhyw adeg, gan gynnwys ar ôl cwblhau'r ymchwil.

**Sut y caiff cydsyniad ei gofnodi?**

Dylai ymchwilwyr bob amser geisio cydsyniad wedi'i gofnodi. Heb gofnod ysgrifenedig o gydsyniad gwrthrych yr ymchwil, mae llai o sicrwydd a yw prosiect wedi bodloni gofynion y Ddeddf Diogelu Data.

Mae'r Ddeddf Diogelu Data'n mynnu bod cydsyniad ar gyfer prosesu gwybodaeth bersonol "sensitif". Dehongliad arferol hyn yw bod cydsyniad yr unigolyn wedi'i nodi mewn rhyw fath o gofnod ysgrifenedig wedi'i awdurdodi ganddo. Y ffordd draddodiadol - a hawsaf - o gofnodi cydsyniad yw trwy ffurflen gydsynio papur a lofnodwyd gan wrthrych yr ymchwil. Dylai'r ffurflen gofnodi bod gwrthrych yr ymchwil wedi cydsynio y caiff yr wybodaeth amdano ei defnyddio yn y ffordd, ac at y dibenion, a ddisgrifiwyd yn yr wybodaeth a roddwyd iddo. Dylai hefyd gytuno bod gan y prosiect hawlfraint i ddefnyddio cyfraniad gwrthrych yr ymchwil.

Yn achos rhai mathau o waith maes, lle gallai defnyddio ffurflen gydsynio ysgrifenedig fod yn anymarferol, neu hyd yn oed yn niweidiol i'r berthynas rhwng yr ymchwilydd a gwrthrych yr ymchwil, dylai ymchwilwyr ganolbwyntio ar y nod o gael cyfranogiad gwybodus gwrthrych yr ymchwil, a mabwysiadu dull o wneud hynny sy'n addas i'r prosiect a'r gymdeithas lle cynhelir yr ymchwil. Dylid trin gwahaniaethau diwylliannol mewn modd sensitif mewn meysydd megis y cysyniad o gydsyniad gwybodus a'r berthynas rhwng yr unigolyn a'r grŵp.

Dylai unrhyw benderfyniad i beidio â defnyddio ffurflenni cydsyniad ystyried y materion canlynol:

- Gall fod dulliau eraill, mwy addas, o gofnodi cydsyniad gwrthrych yr ymchwil yn uniongyrchol, heb ddefnyddio ffurflen gydsynio ysgrifenedig. Er enghraifft os cesglir data trwy gofnodi sain a llun mewn cyfweliad, gallai'r cyfweliad cyntaf gychwyn gyda'r ymchwilydd yn esbonio natur a phwrpas y prosiect a sut y caiff y data eu defnyddio, gan ofyn i'r sawl sy'n cael ei gyfweld gadarnhau ei fod wedi cytuno i fod yn rhan o'r prosiect.

- Nid yw penderfyniad i beidio â defnyddio dull ffurfiol o gofnodi cydsyniad yn dileu cyfrifoldeb yr ymchwilydd, o ran moeseg a Diogelu Data, i roi digon o wybodaeth i wrthrychau ymchwil iddynt allu gwneud penderfyniad cwbl wybodus am gymryd rhan ai peidio. Dylid gwneud hyn gan ddefnyddio'r dull sydd fwyaf addas yn y cyd-destun ymchwil. Fodd bynnag, os gall gwrthrychau'r ymchwil ddarllen, byddai disgwyl fel arfer iddynt dderbyn gwybodaeth ysgrifenedig am y prosiect fel bod ganddynt gofnod o'r gwaith y maent yn cyfrannu iddo. Lle defnyddir ffurflenni cydsyniad ysgrifenedig, dylid rhoi copi i wrthrych yr ymchwil i'w gadw.

- Dylai cofnodion y prosiect (er enghraifft y cynllun prosiect, nodiadau maes) gofnodi'r dulliau a ddewiswyd gan yr ymchwilydd i gael cydsyniad gwybodus a sut y'u defnyddiwyd. Dylid cadw'r holl ddogfennau yn ymwneud â chael cydsyniad (gan gynnwys ffurflenni cydsynio a gwybodaeth ysgrifenedig arall a ddarperir i wrthrych yr ymchwil, lle bo'n berthnasol) am o leiaf cyhyd ag y cedwir y data mewn fformat nad yw'n ddienw.

**Beth yw cydsyniad yng nghyd-destun deunydd clyweled a ffotograffau?**

Tybir bod ffilmiau, recordiadau sain a delweddau'n wybodaeth bersonol os ydynt yn cynnwys unigolyn mewn ffordd ddigon clir i allu ei adnabod. Mae'r holl ystyriaethau o ran cydsyniad a amlinellwyd yn y paragraff blaenorol yn ddilys ar gyfer deunydd clyweled a ffotograffau hefyd. Mae ffilmio neu recordio "cudd" (lle nad yw'r unigolyn yn ymwybodol ei fod yn digwydd) yn codi pryderon moesegol a chyfreithiol difrifol, ac ni ddylid ei wneud heb adolygiad moesegol

llawn ymlaen llaw, yn unol â gweithdrefnau adolygiad moesegol y Coleg. Nid oes angen caniatâd cyn ffilmio neu recordio, o reidrwydd. Yn y Deyrnas Unedig, ni thybir, fel arfer, bod delweddau o leoedd cyhoeddus, lle delir unigolion trwy hap, yn codi pryder o ran preifatrwydd, na bod angen cydsyniad. Enghreifftiau o hyn byddai llun o stryd fawr yn dangos siopwyr yn cerdded ar ei hyd, neu ffilmio gwrthdystiad cyhoeddus ar gyfer y newyddion. Fodd bynnag, mae ansicrwydd cyfreithiol mawr yn y maes hwn; mewn rhai achosion, cafodd y llysoedd fod gan unigolion hawl i breifatrwydd o ran delweddu'r hyn maent yn ei wneud yn gyhoeddus. Fel arfer, mae hyn yn digwydd lle mae'r ddelwedd yn canolbwyntio ar unigolyn, yn ymwthio i'w fywyd preifat, yn cael ei defnyddio heb gydsyniad yr unigolyn, ac nad oes modd cyfiawnhau defnyddio'r ddelwedd ar sail lles y cyhoedd.

Dylai ymchwilwyr fod yn wyliadwrus hefyd nad ydynt yn defnyddio cysyniadau'r Deyrnas Unedig am beth sy'n breifat a beth nad yw'n breifat mewn cyd-destun diwylliannol arall. Mae'n bosibl y tybir bod gweithgareddau grŵp, yn ei ofod ei hun, yn "gudd", neu'n gyfrinachol i'r grŵp, hyd yn oed o'u cyflawni'n agored. Dylai ymchwilwyr fod yn gwbl agored, bob amser, gyda gwrthrychau ymchwil am recordio neu ddelweddu, ac am sut y caiff yr wybodaeth ei defnyddio. Os oes unrhyw amheuaeth, dylid dilyn yr argymhellion a amlinellwyd uchod o ran ceisio cydsyniad (gweler 'Beth yw rôl cydsyniad?' a 'Sut dylid cofnodi cydsyniad?').

**Beth yw ystyr cydsyniad o ran arolygon?**

Ni fydd arolwg sy'n gwbl ddienw (hynny yw, nid oes modd i'r ymchwilydd wybod enwau'r unigolion sy'n ymateb) yn casglu gwybodaeth bersonol fel y mae'r Ddeddf Diogelu Data'n ei diffinio. Nid yw ystyriaethau Diogelu Data'n berthnasol, gan nad oes modd o gysylltu'r data ag unigolyn. Fodd bynnag, arfer da o ran ymchwil foesegol fyddai darparu gwybodaeth am y prosiect i bawb sy'n ymateb, gan nodi sut y caiff yr ymateb ei ddefnyddio. Mae data o arolwg yn wybodaeth bersonol os oes modd adnabod yr unigolion, er enghraifft ar sail gwybodaeth a ddarperir ar y ffurflen neu ar sail gwybodaeth arall sydd ar gael i'r ymchwilydd. Rhaid cael cydsyniad gwybodus y rhai sy'n ymateb. Fel arfer, gwneir hyn trwy ddefnyddio hysbysiad Diogelu Data a elwir yn "casglu teg". Gall hyn fod yn rhan o'r ffurflen arolwg ei hun neu'n daflen wybodaeth ar wahân a ddarperir gyda'r ffurflen. Mae'r rhybudd "casglu teg" yn cyflawni'r un swyddogaeth â ffurflen cydsynio, a gellid ei seilio ar y ffurflen gydsynio enghreifftiol. Dylai'r hysbysiad "casglu teg" esbonio pwy sy'n casglu'r wybodaeth (teitl y prosiect, partneriaid, a noddwyr yr ymchwil) natur a dibenion yr ymchwil, a sut y caiff yr wybodaeth ei defnyddio.

Dylai fod yn amcan cynnwys, i'r graddau bod hyn yn bosibl, y pwyntiau a amlygwyd o dan 'Beth yw rôl cydsyniad?'. Hefyd, dylai'r hysbysiad ddatgan y tybir bod y sawl sy'n ymateb yn cydsynio, trwy lenwi'r ffurflen, y caiff yr wybodaeth ei defnyddio at y dibenion a ddisgrifir. Os bydd yn fwriad cysylltu â'r sawl sy'n ymateb eto (er enghraifft ar gyfer arolwg dilynol neu i roi diweddariad iddo am statws y prosiect), dylid esbonio hynny, a dylid esbonio sut y caiff yr unigolyn ddewis peidio â chael unrhyw gysylltiad yn y dyfodol (er enghraifft trwy roi tic mewn bocs).

Er bod cael llofnod yn fodd dymunol o gadarnhau cydsyniad, gall y bydd hynny'n anymarferol mewn rhai sefyllfaoedd (er enghraifft arolwg a wneir dros y we). Gellir defnyddio hysbysiad "casglu teg" i roi nifer o ddewisiadau i'r unigolion sy'n ymateb o ran sut y caiff yr wybodaeth

ei defnyddio, er enghraifft trwy gynnwys bocsys ticio. Fodd bynnag, dylai ymchwilwyr ofalu nad ydynt yn cyflwyno gormod o opsiynau, gan y gallai hynny ei gwneud yn anodd trin y data.

**Faint o wybodaeth y dylid ei chasglu?**

Yn amlwg, bydd yr ateb i'r cwestiwn hwn yn dibynnu ar nodau ac amcanion y prosiect ymchwil. Fodd bynnag, dylai ymchwilwyr gofio bod y drydedd Egwyddor Diogelu Data yn gofyn bod gwybodaeth bersonol yn **ddigonol, yn berthnasol, a heb fod yn ormodol** o gymharu â'r diben o'i chasglu. Dylid osgoi'r temtasiwn i gasglu mwy o wybodaeth am unigolion nag sy'n angenrheidiol ar gyfer y prosiect: er enghraifft gwybodaeth a allai fod o ddefnydd yn y dyfodol, ond na welir unrhyw ddefnydd iddi ar hyn o bryd.

**Sut mae cadw gwybodaeth yn ddiogel?**

Mae diogelu data'n dda'n rhan hanfodol o arfer ymchwil moesegol, ac yn ofyniad o dan y Ddeddf Diogelu Data. Gall mynediad heb awdurdod at wybodaeth bersonol, neu golli data trwy ddamwain, fod â goblygiadau difrifol ar gyfer gwrthrychau ymchwil, a gall niweidio enw da'r sefydliad a'r ymchwilydd unigol. Rhaid i ymchwil sy'n defnyddio systemau TG gydymffurfio â pholisïau a gweithdrefnau TG.

Lle mae mwy nag un unigolyn mewn tîm prosiect, rhaid rhoi'r cyfrifoldeb am ddiogelu data i un aelod o'r tîm (fel arfer, arweinydd y tîm). Dylai'r tîm prosiect gytuno'r gweithdrefnau y bydd yn eu dilyn i gadw data'n ddiogelu, a'u cofnodi.

Bydd addasrwydd y gweithdrefnau diogelu data yn dibynnu ar sensitifrwydd yr wybodaeth. Nid yw pob eitem o wybodaeth bersonol yr un mor sensitif. Mae'n bosibl na fydd angen llawer o ddiogelwch ar gyfer gwybodaeth am unigolion sydd eisoes wedi'i chyhoeddi, neu sydd ar gael yn gyhoeddus, os oes angen ei diogelu o gwbl. Yn yr un modd, bydd gwybodaeth am fywyd cyhoeddus unigolyn (er enghraifft teitl ei swydd, ei swyddogaeth, ei radd neu enw ei gyflogwr) fel arfer yn llai sensitif na gwybodaeth am ei fywyd preifat, ac mae'n bosibl na fydd angen llawer o ddiogelwch ar ei chyfer. Ar y llaw arall, bydd angen diogelwch cryf ar gyfer gwybodaeth bersonol sensitif, gwybodaeth ariannol bersonol, neu wybodaeth y gallai ei datgelu beri colled neu niwed i'r unigolyn. Yn gyffredinol, dylid tybio y gallai rhyddhau unrhyw wybodaeth yn ymwneud â bywyd preifat unigolyn (er enghraifft manylion cyswllt gartref, incwm, perthnasoedd personol, neu gred) heb awdurdod beri niwed.

Gall dileu enwau o ddata fod yn bwysig o ran sicrhau diogelwch. Gan nad yw cronfa ddata heb enwau'n wybodaeth bersonol, gellir ei defnyddio mewn amgylchedd llai diogel na'r fersiwn lle mae modd adnabod unigolion. Yn aml, nid oes angen ond y data dienw at ddibenion dadansoddi.

Cyn belled ag y bo modd, ni ddylid cadw data nad yw'n ddi-enw ond ar weinydd y sefydliad, lle gwneir copïau wrth gefn yn awtomatig, a lle caiff eu diogelu gan systemau diogelwch. Dylid cyfyngu mynediad i'r rhai y mae angen iddynt gael mynediad at y data at ddibenion y prosiect ymchwil: er enghraifft, trwy gyfyngu mynediad i ffolderi unigol a/neu ddefnyddio cyfrineiriau i ddiogelu ffeiliau unigol.

Mae'r rhan fwyaf o broblemau o ran methu â i ddiogelu data'n digwydd wrth symud data. Fel

y gwelir o lawer i achos uchel ei broffil, mae gliniaduron a dyfeisiadau cadw megis cof bach, CD, DVD, neu yriant caled symudol yn arbennig o ddiamddiffyn o ran colli data trwy ladrad neu ddamwain. Ni ddylid defnyddio'r fath declynnau i gludo data nad yw'n ddienw oni fydd hynny'n gwbl angenrheidiol. Lle cânt eu defnyddio, dylid diogelu ffeiliau unigol sy'n cynnwys data ymchwil am unigolion gyda chyfrinair, a dylid eu hamgryptio os byddant yn cynnwys gwybodaeth bersonol sensitif, gwybodaeth ariannol am unigolion, neu wybodaeth y gallai ei datgelu beri niwed neu golled i unigolion.

Ni ddylid trosglwyddo data am wrthrychau ymchwil ychwaith, oni fydd hynny'n gwbl angenrheidiol. Lle mae angen trosglwyddo'r fath wybodaeth, mae anfon atodiad wedi'i amgryptio trwy e-bost yn well nag anfon gwybodaeth bersonol trwy'r post. Rhaid diogelu atodiadau e-bost sy'n cynnwys data nad ydynt yn ddienw gyda chyfrinair, a rhaid eu hamgryptio os byddai modd i'r wybodaeth beri niwed neu golled i unigolion. Rhaid cyfathrebu'r cyfrineiriau ar wahân i'r wybodaeth ei hunan (dros y ffôn sydd orau). Os oes rhaid anfon gwybodaeth bersonol trwy'r post, dylid defnyddio dosbarthiad a gofnodwyd a rhaid diogelu'r wybodaeth trwy ei hamgryptio fel y disgrifiwyd uchod.

Mae data'n agored i niwed o gael eu defnyddio gartref, oherwydd y risg uwch o ladrad neu fynediad heb awdurdod.

I atal colli data trwy ddamwain, dylai ymchwilwyr wneud copïau wrth gefn yn rheolaidd os na chedwir yr wybodaeth ar weinydd y sefydliad, a dylent ymgyfarwyddo â pholisi diogelwch gwybodaeth y Brifysgol.

**Amgryptio a Chyfryngau y mae modd eu tynnu:** Dylid cadw cyfryngau y mae modd eu tynnu, megis cof bach, yn ddiogel lle bynnag y bo hynny'n bosibl, a dylid defnyddio meddalwedd amgryptio addas ar gyfer gwybodaeth sensitif neu gyfrinachol. Os caiff data'r Brifysgol eu cadw ar liniadur personol, cyfrifiadur cartref neu ddyfais symudol, dylid eu diogelu trwy gyfrinair ac amgryptio, a dylid cadw copi ar system y Brifysgol rhag ofn colli'r ddyfais neu'r cyfrinair. Mae TrueCrypt yn rhaglen ffynhonnell agored addas; mae amgryptio wedi'i ymgorffori yn Windows 7.

I sicrhau diogelwch gwybodaeth bersonol, mae'r Ddeddf Diogelu Data'n gosod gofynion penodol lle caiff data eu prosesu gan un sefydliad ar ran sefydliad arall (hynny yw lle rhoddir y gwaith o gasglu a dadansoddi'r data i sefydliad arall). Rhaid i'r prosesu ddigwydd dan gontract sy'n gosod cyfrifoldebau diogelwch ar y sawl sy'n prosesu'r data, a rhaid i'r sefydliad sy'n comisiynu'r prosesu sicrhau bod diogelwch digonol ar waith yn y sefydliad sy'n prosesu'r data.

Dylid cadw gwybodaeth bersonol sydd ar ffurf papur (er enghraifft ffurflenni cydsynio a lofnodwyd gan y rhai sy'n cymryd rhan yn yr ymchwil) mewn ardal ddiogel neu mewn cwpwrdd ffeilio dan glo pan nad yw'n cael ei defnyddio. Lle mae gan fwy nag un unigolyn fynediad at yr wybodaeth, dylid defnyddio system i gofnodi lle mae'r ffeiliau ar unrhyw adeg.

Dylid gwaredu ar wybodaeth bersonol a gesglir mewn prosiect ymchwil mewn modd diogel pan nad oes ei hangen bellach. Dylid gwaredu ar ddata ar ffurf papur yn yr un modd â gwastraff cyfrinachol, neu eu malu ar y safle os ydynt yn sensitif. Dylid dileu data electronig

a'u dileu o'r bin ailgylchu hefyd. Dylid clirio data mewn modd diogel o unrhyw gyfrifiadur neu gyfryngau a ddefnyddid i gadw gwybodaeth bersonol cyn gwaredu ar y ddyfais trwy brosesau'r Brifysgol.

**Cyhoeddi a lledaenu data**

Ni ddylid enwi gwrthrychau ymchwil wrth gyhoeddi canlyniadau ymchwil neu mewn setiau data sydd ar gael yn gyhoeddus, oni fydd yr unigolion wedi cydsynio i hynny, neu oni fydd yr wybodaeth eisoes yn gyhoeddus. Mae hyn yn wir a gasglwyd yr wybodaeth yn uniongyrchol oddi wrth yr unigolion neu a ddaeth yr wybodaeth bersonol gyfrinachol oddi wrth drydydd parti. Gellir cyhoeddi a lledaenu data dienw, a'u hadneuo mewn storfeydd data cyhoeddus.

Mae rhoi copi o ganlyniadau terfynol yr ymchwil, neu gyhoeddiadau ymchwil, i wrthrychau ymchwil yn cefnogi ymchwil dryloyw ac agored, ac yn arfer da. Fodd bynnag, dylai ymchwilwyr fod yn wyliadwrus wrth ymrwymo i ganiatáu i wrthrychau ymchwil weld neu olygu eu cyfraniad cyn cyhoeddi. Gallai hyn oedi cyhoeddi'r canlyniadau, a chreu disgwyl bod gan wrthrych yr ymchwil hawl i wahardd cyhoeddi. Gallai hefyd gynyddu'r risg y bydd gwrthrych yr ymchwil yn tynnu ei gydsyniad yn ôl. O gytuno trefniant o'r fath, dylid gosod amser cau am sylwadau, a dylid cytuno mai'r ymchwilydd sydd â'r hawl derfynol i benderfynu'r cynnwys.

**Pryd caiff data ymchwil eu hanfon dramor?**

Gellir trosglwyddo data ymchwil dienw y tu allan i'r Ardal Economaidd Ewropeaidd heb fynd yn groes i'r wythfed Egwyddor Diogelu Data, gan nad yw'n wybodaeth bersonol bellach. Gellir trosglwyddo data ymchwil sy'n enwi'r unigolion i wledydd y tu allan i'r Ardal Economaidd Ewropeaidd os bydd gwrthrychau'r ymchwil wedi cydsynio i hynny pan gasglwyd y data yn rhan o'r broses gydsynio. Fel arall, cyfyngir trosglwyddo data sy'n enwi unigolion y tu allan i'r Ardal Economaidd Ewropeaidd i nifer bach o wledydd lle mae'r Undeb Ewropeaidd wedi cymeradwyo lefel eu diogelwch data, ac i rai gwledydd penodol eraill (er enghraifft, cwmnïau yn yr Unol Daleithiau sydd wedi cofrestru dan y cynllun Harbwr Diogel). Ni chaiff Rheolydd Data drosglwyddo data i wlad y tu allan i'r Ardal Economaidd Ewropeaidd oni fydd y Comisiwn Ewropeaidd wedi cymeradwyo bod hawliau gwrthrychau data yn cael eu diogelu'n ddigonol yn y wlad dan sylw. Mae nifer o ffyrdd o sicrhau bod diogelwch digonol ar gyfer trosglwyddiad penodol. Gall y Rheolydd Data:

- Gwneud asesiad ei hun o lefel y diogelwch;
- Defnyddio contract i sicrhau diogelwch;
- Ceisio cymeradwyaeth y Comisiwn ar gyfer Rheolau Corfforaethol Gorfodol sy'n rheoli trosglwyddo data o fewn grŵp;
- Dibynnu ar un o'r eithriadau i'r gwaharddiad ar drosglwyddo gwybodaeth bersonol y tu allan i'r Ardal Economaidd Ewropeaidd.

Nid yw'r wythfed Egwyddor Diogelu Data yn rhwystro trosglwyddo gwybodaeth bersonol i'r Deyrnas Unedig, er ei bod yn bosibl y bydd deddfwriaeth leol yn y wlad lle cynhaliwyd yr ymchwil yn cyfyngu ar hynny. Ar ôl i'r data gyrraedd y Deyrnas Unedig, bydd darpariaethau'r Ddeddf Diogelu Data'n ddilys yn eu cylch. I fodloni gofynion Diogelu Data a moesegol, rhaid hysbysu gwrthrychau ymchwil y caiff gwybodaeth amdanynt ei throsglwyddo i'r Deyrnas

Unedig, a dylent gydsynio.

**Pryd caiff enwau eu dileu o ddata?**

Mae troi data ymchwil yn ddata dienw yn golygu dileu unrhyw wybodaeth a allai ganiatáu adnabod unigolyn, naill ai o'r data eu hunain neu ynteu trwy gyfuno'r data â gwybodaeth arall y gellid disgwyl y byddai ar gael i rywun sy'n derbyn y data. Ar ôl i'r data ddod yn ddienw, mae'n peidio â bod yn wybodaeth bersonol, a gellir eu lledaenu a'u cyhoeddi heb dramgwyddo yn erbyn y Ddeddf Diogelu Data.

Fodd bynnag, os bydd ymchwilydd yn cyhoeddi set data dienw ond hefyd yn cadw'r wybodaeth sy'n angenrheidiol i allu adnabod unigolyn, bydd y data sydd gan yr ymchwilydd yn eu crynswth (sef y data dienw a'r wybodaeth sy'n adnabod unigolion) yn parhau i fod yn wybodaeth bersonol, a rhaid eu rheoli'n unol â'r Ddeddf. Ni fydd y data sydd gan yr ymchwilydd yn peidio â bod yn wybodaeth bersonol tan i'r ymchwilydd waredu ar yr wybodaeth sy'n ei alluogi i adnabod unigolion, heb fod ganddo fodd o gael yr wybodaeth honno yn ei hôl. Yn achos data meintiol, gall eu troi'n ddata dienw fod mor syml â dileu'r wybodaeth sydd yn adnabod unigolyn yn uniongyrchol, megis ei enw a'i gyfeiriad cartref. Fodd bynnag, yn aml mae angen gwneud mwy na hynny. Mae'n bosibl y bydd angen dileu gwybodaeth neu drin y data er mwyn ymateb i sefyllfa lle mae modd adnabod unigolyn trwy gyfuniad o ddata, neu trwy gyfuno'r data gyda data arall sydd ar gael yn gyhoeddus. Er enghraifft: mae côd post llawn yn y Deyrnas Unedig yn aml yn cynnwys ond nifer bach o gyfeiriadau, a gallai yn hawdd arwain at adnabod unigolyn neu aelwyd wrth ei gyfuno â gwybodaeth arall.

I sicrhau bod cronfa ddata'n ddienw, gallai fod angen dileu'r cod post, neu gynnwys ond y rhan o gôd post sy'n cyfeirio at ardal ehangach. Yn achos data ansoddol, gall fod angen defnyddio ffugenwau a golygu'r data er mwyn dileu gwybodaeth a allai adnabod unigolion. Gall fod yn anodd troi data ansoddol yn ddata dienw oherwydd y perygl bod modd adnabod unigolion trwy ddefnyddio gwybodaeth am y cyd-destun, a'r perygl y bydd y broses o'u haddasu yn newid ystyr y data. Mae sicrhau bod data'n ddienw yn faes cymhleth.

Mae cyfarwyddyd pellach ar gael i ymchwilwyr ar wefan Archif Data'r Deyrnas Unedig.

**Am faint dylid cadw data?**

Mae'r Ddeddf Diogelu Data'n gosod egwyddor gyffredinol (yn y pumed Egwyddor Diogelu Data) na ddylid cadw gwybodaeth bersonol yn hwy nag sydd angen i gyflawni dibenion casglu'r data. Mae hyn yn golygu, yn gyffredinol, y dylid dinistrio data os nad ydynt o werth bellach o ystyried dibenion eu casglu: ni ddylid eu cadw oherwydd canfyddiad y gallent fod o ddefnydd at ddiben arall.

Fodd bynnag, mae eithriad yn y ddeddf sy'n caniatáu cadw gwybodaeth bersonol am gyfnod amhenodol at ddibenion ymchwil, ar yr amod y bodlonir y ddau amod canlynol:

- Ni cheir defnyddio'r data i "gefnogi camau gweithredu neu benderfyniadau ynghylch

unigolion penodol". Mewn geiriau eraill, rhaid defnyddio'r wybodaeth at ddibenion ymchwil yn unig, ac nid mewn ffordd sy'n effeithio'n uniongyrchol ar unigolion.

- Nid yw defnyddio'r data yn peri, ac nid yw'n debygol o beri, niwed sylweddol neu drallod sylweddol i unrhyw wrthrych y data. Mae'n debyg y gellir bodloni'r amod hwn trwy sicrhau na chyhoeddir ac na ledaenir y data ond ar ffurf ddienw, trwy ddilyn canllawiau llym o ran diogelwch y data, a thrwy atal mynediad cyhoeddus i'r data gwreiddiol yn ystod oes gwrthrychau'r ymchwil.

Mae'r darpariaethau hyn yn caniatáu cadw gwybodaeth bersonol a gesglir mewn prosiect ymchwil i'w defnyddio mewn prosiectau yn y dyfodol, heb dramgwyddo yn erbyn yr ail neu'r pumed Egwyddor Diogelu Data.

Fodd bynnag, nid ydynt yn dileu'r angen i gydymffurfio â gweddill yr Egwyddorion Diogelu Data, megis yr angen i gadw data'n ddiogel neu'r angen i brosesu data mewn modd "teg" a "chyfreithlon". Er enghraifft: bydd angen i brosiect ymchwil sy'n defnyddio data a gasglwyd mewn prosiect blaenorol ddarparu gwybodaeth i wrthrychau'r ymchwil am y prosiect newydd a cheisio cydsyniad ganddynt, oni fyddant wedi cydsynio i'r data gael eu defnyddio mewn prosiectau eraill yn y dyfodol pan gasglwyd y data hynny, neu le mae amodau'r ddeddf sy'n caniatáu defnyddio'r data heb gydsyniad yn berthnasol. Er bod y Ddeddf Diogelu Data'n golygu na ddylid cadw data ymchwil ar ôl iddynt golli unrhyw werth o ran ymchwil, gall eu gwerth at ddibenion ymchwil bara am gyfnod sylweddol ar ôl diwedd y prosiect. Dylid cadw data am gyfnod rhesymol ar ôl cwblhau'r ymchwil, i sicrhau bod modd gwirio'r canlyniadau ac ymateb i unrhyw gwestiynau sy'n codi ynghylch yr ymchwil.

Mae'r Cydbwyllgor Systemau Gwybodaeth wedi llunio cyfarwyddyd ar gyfer Rheoli Cofnodion Ymchwil, ac yn achos sefydliadau Addysg Uwch mae'n **argymell cadw cofnodion ynghylch cynnal yr ymchwil am 10 mlynedd ar ôl cwblhau'r prosiect**.

Cynghorir ymchwilwyr i ddilyn argymhellion y Cydbwyllgor yn gyffredinol wrth benderfynu am faint y dylent gadw gwybodaeth bersonol a gwybodaeth arall yn ymwneud â phrosiectau ymchwil. Fodd bynnag, y mae nifer o ffactorau a allai alw am gadw deunydd yn hwy na 10 mlynedd, neu hyd yn oed am byth:

- Rhaid bodloni unrhyw ofyniad o ran cadw neu archifo data a osodir gan arianwyr yr ymchwil. Er enghraifft, gall yr arianwyr fynnu bod data ymchwil (boed mewn fformat dienw neu fel arall) yn cael eu hadneuo mewn archif data, ac y dylid cadw cofnodion y prosiect am gyfnod penodol. Dylid esbonio'r gofynion hyn i wrthrychau'r ymchwil yn rhan o'r broses o geisio cydsyniad gwybodus.

- Mae'n bosibl y bydd modd cyfiawnhau cadw data ymchwil nad ydynt yn ddienw yn archif barhaol os maent yn ymwneud â phrosiect o arwyddocâd mawr yn genedlaethol neu'n rhyngwladol. Mae'n bosibl y bydd angen cadw data nad yw'n ddienw yn hwy na 10 mlynedd os oes eu hangen yn rhan o astudiaeth hirdymor.

- Rhaid cadw'r wybodaeth a roddwyd i wrthrychau'r ymchwil, y ffurflenni cydsynio, a chofnodion eraill sy'n dystiolaeth o gael cydsyniad, am yr un cyfnod ag y cedwir y data ar

ffurf ddienw, fan lleiaf.

**Perchnogaeth data ymchwil ar ôl iddynt adael y sefydliad**

Yn ôl y Ddeddf Diogelu Data, y sefydliad sydd â'r cyfrifoldeb cyfreithiol pennaf yw'r sefydliad sy'n cyflogi'r staff sy'n casglu'r wybodaeth bersonol yn rhan o gofnodion ffurfiol prosiect ymchwil. Y sefydliad hwnnw yw'r "Rheolydd Data".

Nid oes gan staff unrhyw hawl i symud y fath ddata heb gydsyniad y sefydliad. Gallai wneud hynny amharu ar hawliau gwrthrychau'r ymchwil, er enghraifft trwy beri i ddata gael eu symud i amgylchedd heb ddiogelwch digonol. Rhaid i staff geisio caniatâd Pennaeth y Coleg os ydynt yn dymuno mynd â data ymchwil dienw gyda nhw ar ddiwedd eu cyfnod cyflogaeth. Os rhoddir caniatâd, bydd raid i'r staff lofnodi cytundeb cyfrinachedd sy'n eu hymrwymo i gydymffurfio â'r Ddeddf Diogelu Data, Polisi Cywirdeb Ymchwil Prifysgol Abertawe ac unrhyw ymrwymiad a wnaed i wrthrychau'r ymchwil. Bydd y Brifysgol yn cadw copi o'r data oni fydd y cyfnod cadw perthnasol wedi darfod.

Mae myfyrwyr yn gyfrifol fel unigolion o dan y Ddeddf Diogelu Data am wybodaeth bersonol a gesglir ac a ddefnyddir yn eu hastudiaethau, ac mae'n ofynnol iddynt, yn ystod eu hymchwil, gydymffurfio â Fframwaith Polisi Moeseg a Llywodraethu Ymchwil myfyrwyr Prifysgol Abertawe hefyd. Caiff myfyrwyr fynd â gwybodaeth bersonol a gasglwyd ganddynt yn ystod eu hymchwil pan fyddant yn gadael, oni chynhaliwyd yr ymchwil yn rhan o brosiect ymchwil sefydliadol yr oedd y myfyriwr yn rhan ohono, neu oni fydd y cytundeb gyda'r arianwyr neu'r noddwyr yn gofyn nad yw hynny'n digwydd.

Atgoffir myfyrwyr bod yn rhaid iddynt barhau i fodloni gofynion y Ddeddf Diogelu Data a gofynion cyfreithiol a moesegol eraill wrth gadw a defnyddio'r data.

**Gaiff gwrthrychau'r ymchwil fynediad at y data amdanynt?**

Un o'r hawliau mwyaf sylfaenol a roddwyd i unigolion dan y Ddeddf Diogelu Data yw'r hawl i gael mynediad at yr wybodaeth y mae sefydliadau'n ei chadw amdanynt. Fodd bynnag, cyfyngir ar yr hawl hon yn achos data ymchwil. Nid oes raid i sefydliad ganiatáu mynediad at ddata ymchwil os bodlonir y cyfan o'r amodau canlynol:

- Ni cheir defnyddio'r data i "gefnogi camau gweithredu neu benderfyniadau ynghylch unigolion penodol". Mewn geiriau eraill, rhaid defnyddio'r wybodaeth at ddibenion ymchwil yn unig, ac nid mewn ffordd sy'n effeithio'n uniongyrchol ar unigolion;

- Ni chaniateir cyhoeddi ystadegau a chanlyniadau ymchwil mewn modd sy'n gallu adnabod unrhyw wrthrych ymchwil; a

- Nid yw defnyddio'r data yn peri, ac nid yw'n debygol o beri, niwed sylweddol neu drallod sylweddol i unrhyw wrthrych ymchwil. Mae'n debyg y bodlonir y gofyniad hwn trwy sicrhau nad yw'r data yn cael eu cyhoeddi neu eu lledaenu ond mewn ffurf ddienw trwy ddilyn gweithdrefnau diogelu data llym, a thrwy rwystro mynediad cyhoeddus i'r data gwreiddiol yn ystod oes gwrthrych yr ymchwil. Fodd bynnag, wrth ddilyn arfer moesegol

bydd Prifysgol Abertawe, fel arfer, yn darparu'r wybodaeth a gedwir am wrthrych ymchwil, ac a gasglwyd yn ystod ymchwil gan staff y Brifysgol, i'r unigolyn ar gais, yn amodol ar yr angen i ddiogelu gwybodaeth bersonol am unigolion eraill ac ar fodloni gofynion cyfrinachedd.

Caiff ceisiadau gan unigolion am fynediad at ddata ymchwil amdanynt eu trin fel ceisiadau Diogelu Data, a dylid eu cyflwyno i Swyddog Diogelu Data'r Brifysgol.

O dan y Ddeddf Diogelu Data, nid oes modd gofyn am fynediad at ddata ymchwil a gesglir neu a gedwir gan fyfyrwyr yn ystod eu hastudiaethau.

## POLISI AR REOLI DATA YMCHWIL

Mae'r Brifysgol yn hyrwyddo'r safonau uchaf o ran rheoli data a chofnodion ymchwil, yn rhywbeth sy'n sylfaenol i ymchwil o safon a chywirdeb academaidd.

Mae'n cydnabod ei chyfrifoldeb i sicrhau bod systemau cadarn ar waith i hyrwyddo arfer gorau, gan gynnwys polisi clir, cyfarwyddyd, goruchwylio, hyfforddiant a chymorth.

Mae'r Brifysgol yn cydnabod bod data cywir y gellir eu cyrchu yn elfen hanfodol o unrhyw brosiect ymchwil, ac yn angenrheidiol i wirio ac amddiffyn, lle bo angen, prosesau a chanlyniadau ymchwil. Mae data ymchwil yn werthfawr i ymchwilwyr am hyd eu hymchwil, ac mae'n bosibl bod ganddynt werth hirdymor ar gyfer ymchwil ac addysgu. Mae hefyd yn bosibl y bydd modd i unigolion, y llywodraeth, busnesau a sefydliadau eraill elwa yn ehangach arnynt, er lles y cyhoedd, wrth i'r prosiect fynd yn ei flaen ac ar ôl cyhoeddi canlyniadau'r ymchwil.

Dylai ymchwilwyr gadw cofnodion clir a chywir o'u hymchwil. Mae hyn yn cynnwys gweithdrefnau, protocolau, cymeradwyaeth, ffynonellau a ddefnyddiwyd, a'r canlyniadau a gafwyd, gan roi sylw dyledus i ofynion anhysbysrwydd a chyfrinachedd. Rhaid i ymchwilwyr bennu'r cyfnod cadw ar gyfer eu data ymchwil a'u cofnodion ar sail y prosiect unigol, neu fan lleiaf ar sail categorïau prosiect, gan ystyried:

- y fframwaith cyfreithiol a rheoleiddiol ar gyfer mathau penodol o ymchwil;
- y telerau a'r amodau a osodir gan arianwyr neu noddwyr allanol;
- sensitifrwydd masnachol, gwleidyddol, neu foesegol o fathau penodol o ymchwil, neu o ymchwil ar gyfer noddwyr allanol penodol.

Rhaid i Golegau, adrannau, unedau proffesiynol a darparwyr gwasanaethau, yn ogystal, lle bo'n briodol, â noddwyr a chydweithredwyr allanol, weithio mewn partneriaeth i sicrhau arfer da ac i fodloni'r gofynion deddfwriaethol a rheoleiddiol perthnasol, yn ogystal â gofynion arianwyr yr ymchwil.

O ran data a chofnodion ymchwil:

- dylent fod yn gywir, yn gyflawn, yn ddilys ac yn ddibynadwy;
- dylai fod modd eu hadnabod a'u cyrchu, a dylai fod modd cael gafael arnynt pan fo angen;
- dylent fod yn ddiogel;
- dylid eu cadw mewn modd sy'n cydymffurfio â'r gofynion cyfreithiol a, lle bo'n berthnasol, gofynion cyrff ariannu a phrotocolau penodol i brosiect; a
- dylai fod modd sicrhau eu bod ar gael i bobl eraill yn unol ag egwyddorion ynghylch moeseg, rhannu data, a mynediad agored.

**Am faint dylid cadw cofnodion ymchwil?**

Mae'n bwysig sicrhau cywirdeb yr ymchwil a bod modd ei harchwilio. Mae pob prosiect ymchwil yn unigryw, ac mae angen defnyddio doethineb wrth benderfynu am faint y dylid cadw cofnodion. Ni ddylid cadw data na chofnodion ymchwil ond tra eu bod o werth parhaus i'r ymchwilydd a'r gymuned ymchwil ehangach, a dylid bodloni unrhyw ofynion a bennir gan arianwyr yr ymchwil, y ddeddfwriaeth patent, a gofynion deddfwriaethol a rheoleiddiol eraill. Dylid llunio Cynllun Rheoli Data cyn cychwyn y prosiect, sy'n trafod holl gofnodion y prosiect. Yn aml iawn, mae hyn yn ofynnol yn rhan o gais am gyllid ymchwil.

Fel arfer, dylai data gael eu cadw a dylent fod ar gael am **o leiaf 10 mlynedd ar ôl cwblhau'r ymchwil**. Yn achos cofnodion sy'n deillio o astudiaethau sydd o bwys mawr yn nhermau iechyd clinigol, cymdeithasol, amgylcheddol neu etifeddiaeth, neu astudiaethau parhaus neu ddadleuol, dylid eu cadw am o leiaf 20 mlynedd ar ôl cwblhau'r ymchwil. Gallai fod yn briodol cadw'r fath ddata'n barhaol o fewn y Brifysgol, o fewn casgliad cenedlaethol, neu fel y bydd polisi data'r arianwyr yn pennu.

Lle cefnogir ymchwil gan gontract neu gan grant i'r Brifysgol sy'n cynnwys amodau penodol o ran perchnogaeth, cadw, neu fynediad at ddata, yr amodau hynny gaiff y flaenoriaeth.

Os bwriedir dileu neu ddinistrio data a chofnodion ymchwil, naill ai oherwydd bod y cyfnod cadw a gytunwyd wedi darfod, neu ynteu am resymau cyfreithiol neu foesegol, dylid gwneud hynny'n unol â'r holl ofynion cyfreithiol a moesegol, a holl ofynion yr arianwyr neu gydweithredwyr, a chan roi sylw arbennig i gyfrinachedd a diogelwch.

Caiff ymchwil a wneir ar ran y GIG, neu dan gontract ar gyfer sefydliad masnachol, ei thrin o dan bolisïau'r sefydliad hwnnw o ran archifo, diogelu data, a chadw data. Yn achos Profion Clinigol Cynnyrch Meddyginiaethol Ymchwiliadol, dylid archifo deunydd yn unol â Rheoliadau'r Undeb Ewropeaidd. Mae cyfarwyddyd manwl ar gael yn y pecyn offer ar gyfer profion clinigol, a geir yma: http://www.ct-toolkit.ac.uk.

Dylid penodi rheolwr data a/neu bwyllgor monitro data ar gyfer Profion Clinigol Cynnyrch Meddyginiaethol Ymchwiliadol, a dylid talu sylw dyledus i'r rheoliadau. Dylid agor Prif Ffeil ar gyfer y Profion wrth eu cychwyn, a dylid ei chynnal trwy gydol y profion yn unol ag Arfer Clinigol Da. Mae cyfarwyddyd mwy penodol a manwl ar gael yn http://www.ct-toolkit.ac.uk/routemap/archiving.

Dylai ymchwilwyr fod yn ymwybodol o bolisïau archifo sefydliadau eraill sy'n ymwneud â'r ymchwil, ac maent yn gyfrifol am:

- rheoli data a chofnodion ymchwil yn unol â'r egwyddorion a gofynion perthnasol;
- datblygu a chofnodi gweithdrefnau clir am gasglu, cadw, defnyddio, ailddefnyddio, cyrchu, cadw, a dinistrio'r data a chofnodion ymchwil. Bydd hyn yn cynnwys, lle bo'n briodol, diffinio protocolau a chyfrifoldebau mewn prosiect ymchwil cydweithredol aml-sefydliad. Dylid ymgorffori'r wybodaeth hon, lle bo'n briodol, mewn cynllun rheoli data ymchwil;
- llunio cynllun ar gyfer gofalu am y data yn barhaus (boed yn y Brifysgol neu trwy ddefnyddio gwasanaethau trydydd parti) ar ôl cwblhau'r ymchwil, neu yn achos gadael y

Brifysgol neu ymddeol o'r Brifysgol, dod i gytundeb â Phennaeth yr Adran neu'r Coleg (neu ei enwebai), yn nodi lle a sut cedwir y fath ddata; a

- sicrhau bodloni unrhyw ofynion o ran rheoli data a chofnodion ymchwil a bennir gan gyrff ariannu neu asiantaethau rheoleiddio, neu o dan delerau contract ymchwil gyda'r Brifysgol.

Dylid nodi'r pwyntiau canlynol:
- dylid enwi ceidwad ar gyfer unrhyw wybodaeth gaiff ei harchifo.
- dylid cadw data yn unol â pholisïau eraill.
- dylid cadw data mewn modd sy'n caniatáu archwiliad llawn yn ddiweddarach os bydd angen.
- dylid cadw data'n ddiogel, gyda gweithdrefnau addas ar gyfer cadwraeth a chopïau wrth gefn ar waith.
- dylid trin data'n gyfrinachol, yn arbennig gwybodaeth bersonol - hynny yw, dylid eu cadw'n ddiogel heb fynediad nas awdurdodir.
- os bydd tîm ymchwil yn darfod, neu os bydd yr arweinydd yn symud i sefydliad arall, disgwylir mai'r Brifysgol a gynhaliodd yr ymchwil wreiddiol sy'n gyfrifol am yr wybodaeth.
- dylai ymchwil a gynhelir yn y GIG gydymffurfio â pholisi cadw data'r Ymddiriedolaeth berthnasol, yn amodol ar ufuddhau i ofynion y ddogfen bolisi hon.

**Bydd y Brifysgol yn gyfrifol am:**

- darparu mynediad at wasanaethau a chyfleusterau am gadw ac adneuo data a chofnodion ymchwil, ac am wneud copïau wrth gefn, sy'n galluogi ymchwilwyr i fodloni'r gofynion o dan y polisi hwn a gofynion arianwyr eu hymchwil;
- darparu mynediad at hyfforddiant, cymorth a chyngor ar gyfer ymchwilwyr ym maes rheoli data a chofnodion ymchwil;
- darparu'r adnoddau angenrheidiol i'r unedau gweithredol sy'n gyfrifol am ddarparu'r gwasanaethau, cyfleusterau a hyfforddiant hyn.

Bydd Is-bwyllgor Moeseg a Llywodraethu Ymchwil y Brifysgol, sy'n is-bwyllgor i Bwyllgor Ymchwil y Brifysgol, yn gyfrifol am arwain y gwaith o ddatblygu a diweddaru'r polisi.

## CEISIADAU AM GRANT YMCHWIL - GWEITHDREFNAU LLYWODRAETHU

(Mae gwaith ar y gweill i ddatblygu'r adran hon.)

Mae gan y Brifysgol drefniadau am reoli gofynion allweddol o ran datblygu cynigion ymchwil a cheisiadau am gyllid. Ceir manylion am y rhain yn:

- **Gwneud cais am gyllid**: http://www.swansea.ac.uk/business-and-industry/r-and-i/funding-bids/applying%20-%20for%20-funding/

- **Adolygiad gan gydweithwyr**: mae trefniadau ar waith am Adolygiad gan Gydweithwyr o dan Fframwaith Polisi Adolygiad gan Gydweithwyr y Brifysgol. Gellir cyrchu hwn trwy'r ddogfen Word 'Canllawiau ar gyfer Adolygiad gan Gydweithwyr i hwyluso cynigion am ariannu' yn: www.swansea.ac.uk/

- **Awdurdod Llofnodi ar gyfer Ceisiadau Grant** - a'r gofynion am gymeradwyo ceisiadau grant ymchwil cyn eu cyflwyno i'r arianwyr perthnasol (gwybodaeth i'w hychwanegu)

- **Cofrestru Prosiectau Ymchwil** - yn rhoi manylion am y gofynion ar gyfer cofrestru prosiectau ymchwil. (gwybodaeth i'w hychwanegu)

- **Cyfleusterau, Cyfarpar, ac Asesu Risg** (gwybodaeth i'w hychwanegu)

## POLISI AR IECHYD A DIOGELWCH YNG NGHYD-DESTUN YMCHWIL

**Iechyd, diogelwch a lles cyfranogwyr:**

Rhaid i bob ymchwilydd (gan gynnwys myfyrwyr PhD) mewn sefydliad ymchwil:

- derbyn cyfrifoldeb am ei iechyd a'i ddiogelwch eu hun, a sicrhau nad yw'n amharu ar iechyd a diogelwch neb arall trwy wneud rhywbeth neu trwy beidio â gwneud rhywbeth;
- gweithio mewn modd diogel ac effeithlon;
- dilyn polisïau, canllawiau, a dulliau gweithio diogel y sefydliad;
- mynychu sesiynau hyfforddi a rhoi'r hyfforddiant ar waith yn y gweithle;
- cynnal asesiad risg neu gynorthwyo asesiad risg ynghylch ei waith;
- defnyddio offer diogelu fel yr argymhellir;
- peidio â newid protocolau ymchwil neu waith arall heb drafod y newid gyda'i reolwyr ac ymgynghorwyr diogelwch arbenigol fel bo'n briodol ymlaen llaw;
- cyflwyno adroddiad am unrhyw ddigwyddiad a arweiniodd at, neu a allai fod wedi arwain at, anaf neu ddifrod;
- cynorthwyo ymchwilio i ddamweiniau gyda'r nod o gyflwyno camau atal;
- cyflwyno adroddiad am amodau neu weithredoedd anniogel;
- gweithio mewn modd cydweithredol i wella safonau a pherfformiad iechyd a diogelwch.

Fel rheol, ni ddylai'r bobl sy'n cymryd rhan mewn ymchwil wynebu peryglon sy'n fwy na, neu'n ychwanegol at, y peryglon y byddant yn wynebu'n rhan o'u harddull byw arferol. Mae ymchwilwyr yn gyfrifol am ddiogelu cyfranogwyr rhag unrhyw niwed sy'n deillio o ymchwil. Os disgwylir y gallai cyfranogwyr ddioddef niwed, anghysur anarferol, neu unrhyw ganlyniad negyddol arall, boed yn ystod yr ymchwil neu yn y dyfodol, o ganlyniad i gymryd rhan yn yr ymchwil, rhaid i'r prif ymchwilydd gael, cyn i neb gymryd rhan:

- cymeradwyaeth adolygwyr moeseg annibynnol ac achrededig (er enghraifft adolygwyr moeseg y Brifysgol, Pwyllgor Moeseg Ymchwil y GIG, neu'r Pwyllgor Moeseg Ymchwil ar gyfer Gofal Cymdeithasol);
- cydsyniad gwybodus y cyfranogwyr arfaethedig.

Gan ddibynnu ar natur yr ymchwil, mae gan ymchwilwyr gyfrifoldeb i holi cyfranogwyr am unrhyw ffactorau, megis cyflyrau meddygol sydd eisoes yn bodoli, a allai beri risg iddynt os byddant yn cymryd rhan mewn prosiect ymchwil penodol, a rhaid rhoi gwybod i gyfranogwyr am unrhyw beth penodol y dylent ei wneud i osgoi risg.

Cyn cymryd rhan, dylid rhoi gwybod i bobl sut y gallant gysylltu â'r prif ymchwilydd, Pennaeth yr Adran, neu, yn y pen draw, y Cofrestrydd o fewn amser rhesymol os, yn sgil cymryd rhan, maent yn dioddef straen neu niwed, neu os bydd ganddynt unrhyw bryder arall am yr ymchwil.

Yn achos profion clinigol, ni ddylai'r ymchwil fynd yn ei blaen oni thybir bod y risgiau a'r anghyfleustra a ragwelir ar gyfer y cyfranogwyr arfaethedig (hynny yw gwrthrychau'r profion a/neu gleifion) yn debyg o fod yn llai na'r buddion posibl iddynt ac i gleifion y dyfodol. Mewn rhai achosion penodol, gall claf gefnogi prosiect ymchwil a thriniaeth fewnwthiol a allai fod

yn niweidiol iawn os, oherwydd yr amgylchiadau penodol (er enghraifft os bydd afiechyd marwol arno), bydd yn teimlo ei bod yn werth cymryd risg sylweddol a allai, o bosibl, fod yn fygythiad i'w fywyd. Mae'r enghraifft hon yn dangos bod pwynt lle gallai cyfranogwyr deimlo bod ganddynt hawl i gyfranogi yn ogystal â hawl i dynnu'n ôl; hynny yw, hawl, mewn amgylchiadau eithafol, i gael eu niweidio, yn ogystal â hawl i gael eu diogelu rhag niwed.

Yn achos dulliau ymchwil nad ydynt yn fewnwthiol megis cyfweliadau neu holiaduron, gallai'r cynnwys a'r cwestiynau fod yn sensitif iawn, gallant godi materion personol cyfrinachol, a gallant ymyrryd, neu greu canfyddiad o ymyrryd, â chyfforddusrwydd neu breifatrwydd y cyfranogwr. Y prif ymchwilydd sy'n gyfrifol am farnu, yn y lle cyntaf, a yw cwestiwn yn sensitif neu'n debyg o achosi niwed neu anghysur. Am ragor o gyngor yn y fath amgylchiadau, dylai'r prif ymchwilydd gysylltu â Swyddog Cymorth Llywodraethu Ymchwil y Coleg neu Gadeirydd Pwyllgor Moeseg Ymchwil y Coleg yn y lle cyntaf.

Mae Rheoliadau Rheoli Iechyd a Diogelwch yn y Gweithle 1999 yn gofyn bod cyflogwyr yn gwneud trefniadau addas ar gyfer "cynllunio, trefnu, rheoli, monitro, ac adolygu effeithiol" o ran eu systemau nodi a rheoli risg. Mae'r ymagwedd hon yn cael ei hargymell yn nogfen yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch: *Successful health and safety management* (HSG65). Mewn system sydd â'r nod o reoli agweddau iechyd a diogelwch ar brosiect ymchwil, mae hyn yn golygu cyhoeddi polisi a chanllawiau iechyd a diogelwch sefydliadol, a:

- cynllunio trefniadau iechyd a diogelwch ar gyfer y gweithgarwch **(CYNLLUNIO)**
- rhoi'r dulliau rheoli iechyd a diogelwch ar waith a chyflawni'r gweithgarwch **(GWNEUD)**
- gwirio bod y trefniadau a'r dulliau rheoli a roddwyd ar waith i osgoi anaf, niwed ac afiechyd yn gweithio yn ôl y bwriad **(GWIRIO)**
- adolygu'r gweithgarwch i sicrhau bod y trefniadau iechyd a diogelwch wedi bod yn ddigonol ac yn gymesur, ac wedyn ymgorffori unrhyw newidiadau yn y gweithgarwch ymchwil nesaf **(ADOLYGU)**

**Dylai'r Brifysgol, y Prif Ymchwilydd, neu'r ymchwilydd:**

- nodi goblygiadau iechyd a diogelwch posibl pob prosiect ymchwil.
- cymryd camau rhesymol i sicrhau iechyd a diogelwch pob cyfranogwr ac ymchwilydd.
- lle bo'n briodol, ceisio cymeradwyaeth Iechyd Galwedigaethol ar gyfer ymchwilwyr sy'n mynd i amgylchedd iechyd a gofal cymdeithasol.
- sicrhau bod staff a myfyrwyr y mae eu gwaith ymchwil yn cynnwys cyfranogiad grwpiau agored i niwed, megis yr henoed, pobl ifanc, a phobl sâl, wedi cael Datgeliad o'r Swyddfa Cofnodion Troseddol cyn cychwyn ar eu hymchwil.
- sicrhau nodi unrhyw risgiau posibl neu barhaus, a bod trefniadau addas ar waith am fynd i'r afael â nhw, gan gynnwys eu rheoli, diogelu pobl rhagddynt, a'u monitro.

Am ragor o wybodaeth am sut i gynnal ymchwil mewn modd diogel, darllenwch y ddogfen '**responsible research – Managing health & safety in research**: **guidance for the not-for-profit sector**' http://www.iosh.co.uk/ushaguide
Wrth lunio cynnig am ariannu prosiect ymchwil, a chyn cychwyn unrhyw brosiect ymchwil, darllenwch bolisïau Iechyd a Diogelwch y Brifysgol trwy ddilyn y ddolen hon:
http://www.swansea.ac.uk/estates-and-facilities-management/safetyoffice/policiesandprocedures/

# POLISI AR EIDDO DEALLUSOL, CYHOEDDI A LLEDAENU CANFYDDIADAU YMCHWIL

## M1. EIDDO DEALLUSOL

### Cyflwyniad

M1.1 Polisi a Rheolau Prifysgol Abertawe O RAN:

- perchnogaeth Eiddo Deallusol a grëir gan staff y Brifysgol ("Staff y Brifysgol")
- defnyddio a masnacheiddio Eiddo Deallusol; a
- gweithredu a gweinyddu'r Polisi Eiddo Deallusol.

O bryd i'w gilydd, cyhoeddir cyfarwyddyd ychwanegol i'r polisi hwn, yn unol â'r Gweithdrefnau.

M1.2 **Masnacheiddio** yw gwireddu gwerth masnachol neu ariannol trwy ymelwa ar Eiddo Deallusol, a dehonglir y term **"Masnacheiddio"** felly.

M1.3 **Creu** yw creu, dyfeisio, dylunio, darganfod, bod yn awdur ar, neu esgor ar unrhyw Eiddo Deallusol, a dehonglir **Crëwr** felly.

M1.4 **Eiddo Deallusol** yw (1) patentau, hawlfraint, hawliau cronfa data, hawliau dylunio, marciau masnachu, hawliau topograffeg, hawliau bridwyr planhigion a'r holl hawliau eiddo deallusol neu ddiwydiannol, boed wedi'u cofrestru neu beidio, sy'n bodoli ar hyn o bryd neu a fydd yn bodoli yn y dyfodol o dan gyfraith Cymru a Lloegr, cyfraith yr Undeb Ewropeaidd neu gyfraith unrhyw awdurdodaeth gyfreithiol ledled y byd, (2) hawl i geisio am, a cheisiadau am, y fath hawliau, a (3) y fath hawliau wedi'u hymestyn neu eu hadnewyddu. Hefyd, bydd Eiddo Deallusol yn cynnwys asedau deallusol eraill megis dyfeisiadau a darganfyddiadau ac unrhyw gynnyrch neu nodwedd arall gweithgarwch deallusol neu academaidd (a yw hawliau eiddo ffurfiol yn bodoli, neu'n gallu bodoli, ai peidio) megis (ond heb fod yn gyfyngedig i) medrau, gwybodaeth ac arbenigedd, sgiliau, technegau, a chanlyniadau arbrofion, profion neu gyfrifiadau.

M1.5 **Staff Y Brifysgol** yw unrhyw aelod o staff y Brifysgol.

M1.6 **Gweithdrefnau** yw Gweithdrefnau Prifysgol Abertawe am Weithredu ei Pholisi ar Eiddo Deallusol fel y'i newidir o bryd i'w gilydd o ran gweithredu a gweinyddu'r Polisi hwn.

## M2. Egwyddorion Cyffredinol

Yr egwyddorion cyffredinol sy'n tanategu'r polisi hwn yw:

M2.1 **Y Brifysgol sydd biau'r Eiddo Deallusol a grëir gan Staff y Brifysgol ac eithrio pan fydd y polisi hwn yn dweud fel arall.**

M2.2 **Dylai Staff y Brifysgol sydd wedi creu Eiddo Deallusol sy'n cael ei Fasnacheiddio dderbyn cyfran deg o'r buddion masnachol, fel y dylai'r Brifysgol a'r Coleg perthnasol o fewn y Brifysgol ill dau hefyd.**

M2.3 **Lle bynnag y gwneir defnydd o arian, cyfleusterau, staff neu adnoddau eraill y Brifysgol i (1) creu Eiddo Deallusol y manteisir arno'n fasnachol neu (2) i ymgymryd â gweithgarwch masnachol arall, rhaid i'r Brifysgol sicrhau gwerth da am ei buddsoddiad.**

Mae hyn oherwydd:

- Yn elusen, mae dyletswydd ar y Brifysgol i sicrhau cyfrifo'n gywir am ei hadnoddau, ac

- Ariennir y rhan fwyaf o weithgarwch ac adnoddau'r Brifysgol gan arian cyhoeddus. Yn gyffredinol, ni chaniateir defnyddio arian neu adnoddau cyhoeddus er mantais uniongyrchol neu anuniongyrchol busnes masnachol, oherwydd y perygl bod y wladwriaeth yn rhoi cymorth anghyfreithlon. Lle rhoddir cymorth anghyfreithlon gan y wladwriaeth, rhaid ei ad-dalu.

Fodd bynnag, lle mae defnydd adnoddau'r Brifysgol yn dila wrth greu'r Eiddo Deallusol, caiff y Brifysgol ildio ei pherchnogaeth o'r Eiddo Deallusol, gan roi sylw i'r canllawiau a bennir dan y Gweithdrefnau hyn.

M2.4 **O ran Eiddo Deallusol y mae'r Brifysgol yn penderfynu peidio â manteisio arno neu beidio â'i fasnacheiddio, dylai'r Brifysgol fod â'r hawl i ddefnyddio'r Eiddo Deallusol hwnnw at ei dibenion ei hun ac i dderbyn cyfran o unrhyw enillion o ganlyniad i fasnacheiddio, ond ni ddylai wrthod, yn afresymol, trwyddedu neu drosglwyddo'r Eiddo Deallusol i'r Crëwr.**

## M3 Perchnogaeth Eiddo Deallusol - Staff y Brifysgol

M3.1 Dan y gyfraith, mae unrhyw Eiddo Deallusol a grëir gan aelod o staff yn ystod ei gyflogaeth yn eiddo i'r Brifysgol.

M3.2 Tybir bod Eiddo Deallusol a grëir gan aelod o staff o fewn maes academaidd neu arbenigedd ymchwil ei gyflogaeth yn ystod ei gyfnod cyflogaeth yn y Brifysgol wedi'i greu yn ystod ei gyflogaeth, ac felly'n eiddo i'r Brifysgol.

M3.3 Beth bynnag, os defnyddir arian, cyfleusterau, staff neu adnoddau eraill y Brifysgol,

mae'r Brifysgol yn gosod amod ar eu defnydd bod unrhyw Eiddo Deallusol sy'n tarddu o'r gwaith yn eiddo i'r Brifysgol.

M3.4 Mae dyletswydd ar staff y Brifysgol i ddatgelu i'r Brifysgol unrhyw Eiddo Deallusol a grëwyd ganddynt yn ystod eu cyfnod cyflogaeth y tybir yn rhesymol ei fod yn addas i fanteisio arno'n fasnachol. O dan y ddyletswydd hon, rhaid i Staff y Brifysgol gadw'r fath Eiddo Deallusol yn gyfrinachol ar bob adeg, ac ni chânt ei gyhoeddi neu ei ddatgelu heb dderbyn caniatâd penodol mewn ysgrifen oddi wrth y Brifysgol o dan y Polisi hwn neu fel arall.

**M4 Defnyddiau Dysgu a Defnyddiau Academaidd eraill**

M4.1 Yr egwyddor a ddefnyddir gan y Brifysgol o ran Defnyddiau Dysgu a Defnyddiau Academaidd eraill yw y dylai fod gan y Brifysgol hawl i ddefnyddio'r Eiddo Deallusol at ei dibenion ei hun a derbyn cyfran o unrhyw enillion o fasnacheiddio, ond nid yw'n mynnu ei bod yn berchen arno.

M4.2 Y Crëwr fydd yn berchen ar hawlfraint defnyddiau dysgu, cyhoeddiadau academaidd a chyhoeddiadau eraill (llyfrau, erthyglau ac yn y blaen), traethodau ymchwil a thraethodau hir, cynlluniau gwers a modiwlau dysgu oni bai eu bod wedi'u creu o feddalwedd cyfrifiadau gwreiddiol, manylion dyfais neu wybodaeth arall y mae modd manteisio'n fasnachol arno neu wybodaeth na throsglwyddwyd i'r parth cyhoeddus, neu pan fydd y defnyddiau wedi'u comisiynu'n benodol gan y Brifysgol neu dan amgylchiadau lle mae Cymal 6 yn berthnasol ac mae rhwymedigaeth ar y Brifysgol trwy gontract i berchen ar yr hawlfraint.

M4.3 Rhoddir hawl anghyfyngedig, diamod, parhaol a di-alw'n ôl i'r Brifysgol i gopïo, defnyddio ac addasu'r defnyddiau hyn at unrhyw ddiben sy'n ymwneud â'r Brifysgol ac unrhyw is-sefydliad neu sefydliad cysylltiol. Bydd y drwydded o ran Defnyddiau Academaidd heb gyfyngiad. Bydd y drwydded o ran Defnyddiau Dysgu, cynlluniau gwers a modiwlau dysgu'n gyfyngol yn ystod y cyfnod cyflogaeth a heb gyfyngiad wedyn. Yn ei doethineb, bydd y Brifysgol yn cydnabod y Crëwr mewn modd rhesymol a phriodol.

M4.4 Heb gydsyniad penodol y Brifysgol mewn ysgrifen, ni fydd y Crëwr yn cyhoeddi gwybodaeth fasnachol sensitif y Brifysgol, manylion unrhyw ddyfais y gellir o bosibl gael patent arni, neu unrhyw wybodaeth y mae ei chyhoeddi'n groes i Gytundeb Cyfrinachedd rhwng y Brifysgol a thrydydd parti.

M4.5 Os caiff y Deunydd Dysgu neu'r Deunydd Academaidd arall neu unrhyw ddeunydd arall eu masnacheiddio, bydd gan y Brifysgol hawl i dderbyn 15% o unrhyw enillion dros £2000.

M4.6 Mae rhwymedigaeth ar y Crëwr i sicrhau bod unrhyw hawliau Eiddo Deallusol mewn Defnydd Dysgu neu Ddefnydd Academaidd arall neu unrhyw ddefnydd a drwyddedir neu a drosglwyddir i drydydd parti, megis cyhoeddwr academaidd, yn amodol ar hawl y Brifysgol i ddefnyddio ac addasu'r fath ddeunydd.

M4.7 Bydd y Crëwr yn digolledu'r Brifysgol ar y pryd ac i'r dyfodol am unrhyw gostau, hawliad, iawndal neu dreuliau a delir gan y Brifysgol neu y gallai'r Brifysgol ddod dan rwymedigaeth i'w talu sy'n deillio o, neu'n ymwneud â, unrhyw ddefnydd neu fasnacheiddio'r Defnydd Dysgu neu Ddefnydd Academaidd arall neu unrhyw ddefnydd arall gan yr awdur, gan gynnwys unrhyw dreth, yswiriant gwladol, llog neu gosb.

**M5 Masnacheiddio Eiddo Deallusol**

M5.1 Ni chaiff unrhyw aelod o staff y Brifysgol, heb ganiatâd penodol y Brifysgol, gychwyn unrhyw drafodaeth neu ddechrau negodi, na dod i drefniant neu gytundeb, ag unrhyw unigolyn neu sefydliad o ran unrhyw Eiddo Deallusol sy'n eiddo i'r Brifysgol.

M5.2 Rhaid i staff y Brifysgol roi gwybod i'r Brifysgol am unrhyw Fasnacheiddio posibl Eiddo Deallusol. Oni fydd y Brifysgol yn awdurdodi gweithredu fel arall, ni fasnacheiddir unrhyw Eiddo Deallusol ond trwy'r Brifysgol. Bydd y Brifysgol yn penderfynu sut a phryd y bydd yn Masnacheiddio Eiddo Deallusol sy'n eiddo iddi yn unol â'r Gweithdrefnau, gan gynnwys unrhyw ddarpariaethau o ran ymgynghori a geir ynddynt.

M5.3 Yn gyffredinol, os bydd y Brifysgol yn penderfynu nad yw'n dymuno Masnacheiddio Eiddo Deallusol, bydd y Brifysgol yn trwyddedu neu'n trosglwyddo'r Eiddo Deallusol i'r Crëwr lle mae modd bodloni'r Brifysgol yn rhesymol bod y trosglwyddo neu'r trwyddedu ar delerau sy'n gyson â rhwymedigaethau'r Brifysgol fel elusen ac o ran defnyddio arian cyhoeddus. Os caiff yr Eiddo Deallusol ei fasnacheiddio gan y Crëwr, bydd gan y Brifysgol hawl i dderbyn cyfran o'r refeniw yn unol â'r canllawiau yn y Gweithdrefnau.

M5.4. Caiff y Brifysgol, yn unol â'r Gweithdrefnau, gyhoeddi ymwadiad ynghylch perchnogaeth Eiddo Deallusol mewn achosion addas neu ddarparu am drwyddedu neu drosglwyddo'r Eiddo Deallusol i'r Crëwr.

**M6 Ymchwil ac Ymgynghori dan Gontract**

M6.1 Pan fydd y Brifysgol yn cytuno contract i ddarparu gwasanaethau ymchwil neu ymgynghori, mae'n debyg y bydd darpariaethau arbennig yn ymwneud ag Eiddo Deallusol a grëir yn ystod y broses o ddarparu'r gwasanaethau hynny.

M6.2 Bydd unrhyw Eiddo Deallusol a grëir gan Staff y Brifysgol wrth ddarparu'r gwasanaethau hynny'n eiddo i'r Brifysgol, a chaiff ei drin yn unol â'r contract perthnasol.

**M7 Rhannu Refeniw**

M7.1 Bydd y Brifysgol yn dosbarthu'r refeniw net neu'r buddion diriaethol eraill a dderbynnir gan y Brifysgol (ar ôl i'r Brifysgol adennill ei chostau a threuliau rhesymol mewn perthynas ag adnabod, diogelu, creu a masnacheiddio'r fath Eiddo Deallusol) sy'n deillio o Eiddo Deallusol a grëir gan Staff y Brifysgol yn unol â'r fformiwla ganlynol. Os oes mwy nag un Crëwr, byddant yn rhannu eu cyfran nhw yn gyfartal rhyngddynt, oni chytunir fel arall rhyngddynt.

| **SWM** | **CREWYR** | **PRIFYSGOL** | |
|---|---|---|---|
| | | **YSGOL** | **PRIFYSGOL** |
| £2000 Cyntaf | 100% | 0 | 0 |
| £2000 - £20000 nesaf | 60% | 30% | 10% |
| £20,000 - £100,000 nesaf | 50% | 35% | 15% |
| £100,000 - £250,000 nesaf | 40% | 40% | 20% |
| Symiau ychwanegol | 35% | 35% | 30% |

M7.2 Mae ymrwymiad y Brifysgol yn amodol ar, a chaiff ei newid i adolygu:

24.2.1 unrhyw fentrau trosfwaol mawr y mae'r Brifysgol yn ymuno â nhw, yn dilyn ymgynghori perthnasol, a allai fod â modelau gwobrwyo gwahanol;

24.2.2 hawl y Crëwr i dderbyn buddion eraill trwy'r broses Masnacheiddio (gan bennaf, perchnogaeth ecwiti mewn cwmni deillio, ac yn yr achos hwnnw os bydd crëwr yn derbyn cyfrandaliadau neu opsiwn i brynu cyfrandaliadau yn y Cwmni Deillio, ni fydd gan y dyfeisiwr hawl i dderbyn refeniw ychwanegol oddi wrth y Brifysgol).

**M8 Gweithredu'n groes i'r Polisi neu'r Canllawiau**

M8.1 Os bydd unrhyw aelod o Staff y Brifysgol yn gweithredu'n groes i'r polisi hwn neu i unrhyw ganllawiau a lunnir yn unol â'r Gweithdrefnau, gallai hynny fod yn fater disgyblaethol a/neu yn tresmasu ar hawliau'r Brifysgol, ac o ganlyniad, gallai arwain at weithredu disgyblaethol neu gyfreithiol gan y Brifysgol.

**M9 Rhoi ar waith a datrys anghydfod**

M9.1 Cyfrifoldeb yr Is-ganghellor yw gweithredu a gweinyddu'r Polisi hwn, a chaiff ddirprwyo'r cyfrifoldeb i unigolyn arall.

M9.2 Os bydd gan yr Is-ganghellor neu Gadeirydd y Cyngor fuddiant personol mewn unrhyw

fater yn ymwneud ag Eiddo Deallusol y Brifysgol, neu os bydd ganddynt unrhyw wrthdaro buddiannau arall â'r Brifysgol yn ymwneud ag unrhyw fater masnachol, yna gweithredir swyddogaethau'r Is-ganghellor a/neu Gadeirydd y Cyngor o dan y polisi hwn a'r Gweithdrefnau gan y cyfryw unigolyn neu unigolion ag y bydd y Cyngor yn eu dewis.

M9.3 Bydd y Gweithdrefnau'n cynnwys gweithdrefn fewnol ar gyfer datrys anghydfod.

M9.4 Os bydd aelod o staff yn honni nad yw'r Brifysgol wedi cydymffurfio â'r Polisi hwn a'i Weithdrefnau, caiff ofyn i'r mater gael ei ddatrys gan gyflafareddwr. Dylai'r Brifysgol a'r aelod o staff gytuno ar y cyflafareddwr. Os na allant ddod i gytundeb o fewn mis calendr ar ôl y cais am gyflafareddu, penodir cyflafareddwr gan Lywydd Cymdeithas y Gyfraith yng Nghymru a Lloegr. Cynhelir y cyflafareddu yn Abertawe yn unol â chyfraith Cymru a Lloegr. Bydd penderfyniad y cyflafareddwr yn rhwymo'r Brifysgol a'r aelod o staff, a thelir y costau fel y bydd yr arbenigwr yn pennu. Bydd gan y naill barti neu'r llall hawl i ddwyn achos yn y llysoedd er mwyn ceisio ymwared gorfodol, datganiadol, neu fel arall nad yw ar gael trwy gyflafareddwr.

## GWEITHDREFNAU AM ROI'R POLISI AR EIDDO DEALLUSOL AR WAITH

### M10. Cyflwyniad

Ar 17 Mawrth 2008, cymeradwyodd y Cyngor sefydlu Grŵp Eiddo Deallusol Abertawe i reoli ac i fasnacheiddio Eiddo Deallusol y Brifysgol. Mae'r grŵp yn rhan o'r Adran Ymchwil ac Arloesi.

### M11. Diffiniadau

Oni chânt eu diffinio'n wahanol yn y ddogfen hon, bydd i eiriau ac ymadroddion a ddiffinnir yn y Polisi Eiddo Deallusol yr un ystyr yn y ddogfen hon.

M11.1. **Awdurdodwr**

yw'r unigolyn a nodir yn y tabl isod:

| **Awdurdodwr** | **Aelod o Staff** |
|---|---|
| Cadeirydd y Cyngor | Is-ganghellor |
| Is-ganghellor | Cofrestrydd a Dirprwy Is-gangellorion |
| Y Dirprwy Is-ganghellor perthnasol | Penaethiaid Coleg neu Benaethiaid Sefydliad |
| Cofrestrydd | Uwch Weinyddwyr a Phenaethiaid Adrannau nad ydynt yn rhan o Ysgol |
| Pennaeth y Coleg | Staff academaidd, academaidd perthynol, ymchwil, a thechnegol, ac aelodau eraill o staff y mae Pennaeth y Coleg perthnasol yn rheolwr llinell arnynt. |
| Pennaeth y Sefydliad | Staff y mae Pennaeth y Sefydliad yn rheolwr llinell arnynt |
| Uwch Weinyddwr | Staff y mae eu rheolwr llinell yn yr adran weinyddol berthnasol |

M11.2 Yr **Adran** yw'r Adran Ymchwil ac Arloesi.

M11.3 Y **Cyfarwyddwr** yw Cyfarwyddwr yr Adran Ymchwil ac Arloesi sydd hefyd yn bennaeth y Grŵp Eiddo Deallusol Abertawe.

M11.4 Y **Grŵp Eiddo Deallusol** yw Grŵp Eiddo Deallusol Abertawe, grŵp o fewn yr Adran sydd â'r prif gyfrifoldeb am weinyddu a gweithredu'r Polisi Eiddo Deallusol.

M11.5 **Corff Allanol** yw cwmni y mae'r Brifysgol yn dal llai na 11.5% o'r cyfranddaliadau ynddo (yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol) corff llywodraethol, endid arall nas rheolir gan y Brifysgol, neu unigolyn nad yw'n aelod o staff y Brifysgol.

M11.6 **Adnoddau'r Brifysgol** yw unrhyw:

M11.6.1 arian, cyfleusterau, amser staff neu adnoddau eraill (gan gynnwys, heb gyfyngiad, offer a nwyddau traul, gwres, golau neu bŵer) y Brifysgol neu is-gwmni i'r Brifysgol; neu

M11.6.2 defnyddio enw neu arfbais y Brifysgol, neu unrhyw farc neu nodwedd wahaniaethol arall wrth hyrwyddo'r gwaith, os nad yw costau'r adnoddau wedi'u had-dalu'n llawn i'r Brifysgol.

**M12 Perchnogaeth Eiddo Deallusol**

M12.1 Pennir perchnogaeth Eiddo Deallusol gan y Polisi Eiddo Deallusol. Dan y Polisi Eiddo Deallusol, caiff y Brifysgol ildio perchnogaeth Eiddo Deallusol a grëwyd gan ddefnyddio Adnoddau'r Brifysgol ond i raddau tila.

M12.2 Defnydd tila yw:

29.2.1 ond ychydig iawn o gronfeydd digyfyngiad y Brifysgol a ddefnyddiwyd;

29.2.2 dim ond i raddau tila y defnyddiwyd Adnoddau'r Brifysgol, megis swyddfeydd, y llyfrgell neu ffynonellau gwybodaeth eraill cyffredinol eu defnydd, cyfrifiaduron personol, ac offer swyddfa personol; a

29.2.3 crëwyd yr Eiddo Deallusol yn ystod amser personol di-dâl y sawl a'i creodd.

M12.3 Y Grŵp Eiddo Deallusol, mewn ymgynghoriad â'r Awdurdodwr, fydd yn penderfynu a oedd defnydd Adnoddau'r Brifysgol yn dila ai peidio.

M12.4 Yn unol â'r Polisi Eiddo Deallusol, bydd unrhyw Eiddo Deallusol a grëwyd o dan gytundeb â Chorff Allanol yn eiddo i'r Brifysgol yn y lle cyntaf, fel bod modd i'r berchnogaeth gael ei phenderfynu'n unol â'r cytundeb.

M12.5 Rhaid i staff y Brifysgol sicrhau nad yw cytundebau (megis cytundebau ymgynghori personol neu drefniadau cyflogaeth eraill) yn gwrthdaro â'r Polisi Eiddo Deallusol. Mae'n gyfrifoldeb ar bob aelod o staff, a'i Awdurdodwr perthnasol, i sicrhau glynu wrth y rheol hon, a bod copi o bob cytundeb o'r fath yn cael ei roi i'r Grŵp Eiddo Deallusol i'w gadw.

M12.6 Rhaid i staff y Brifysgol roi cymorth a chydweithrediad rhesymol i sicrhau perchnogaeth lawn y Brifysgol ar Eiddo Deallusol.

M12.7 Mae'n ofynnol i bobl eraill nad ydynt yn aelodau o staff y Brifysgol ond sydd â chysylltiad â'r Brifysgol neu fynediad at Adnoddau'r Brifysgol (megis rhai Uwch-gymrodyr Ymchwil, academyddion ymweld, unigolion gyda phenodiad anrhydeddus, a staff emeritws), oni chytunir fel arall, drosglwyddo i'r Brifysgol

unrhyw Eiddo Deallusol y byddant yn ei greu yn ystod eu cysylltiad â, neu weithgareddau dros, y Brifysgol, neu trwy ddefnyddio Adnoddau'r Brifysgol. At ddibenion rhannu refeniw, cânt eu trin yn yr un modd â staff y Brifysgol. Rhaid bod cytundeb ar waith rhwng y Brifysgol a'r unigolyn a/neu ei gyflogwr cyn dechrau cyfnod penodiad yr unigolyn. Rhaid i'r fath unigolyn gadw unrhyw wybodaeth y caiff fynediad ati yn gyfrinachol, gan beidio â'i defnyddio ond at y diben y'i darparwyd amdano, ym mhob achos fel petai'n aelod o staff y Brifysgol. Mae'n gyfrifoldeb ar Bennaeth y Coleg neu Bennaeth y Sefydliad i sicrhau glynu wrth y rheol hon, a bod copi o bob cytundeb o'r fath yn cael ei roi i'r Grŵp Eiddo Deallusol i'w gadw.

**M13 Diogelu a Masnacheiddio Eiddo Deallusol**

M13.1 Y Grŵp Eiddo Deallusol sydd â'r prif gyfrifoldeb am ddiogelu a masnacheiddio Eiddo Deallusol.

M13.2 Y Grŵp Eiddo Deallusol, ar ôl ymgynghori â Chrëwr yr Eiddo Deallusol a'r Awdurdodwr, fydd yn pennu strategaeth addas ar gyfer diogelu a masnacheiddio Eiddo Deallusol.

M13.3 Ni fydd y Brifysgol yn hyrwyddo, cefnogi, neu fasnacheiddio unrhyw brosiect yn ymwneud ag Eiddo Deallusol sy'n groes i bolisïau'r Brifysgol neu a allai, yn ei thyb hi, effeithio'n negyddol ar ei henw da. Cyfrifoldeb y Grŵp Eiddo Deallusol yw sicrhau glynu wrth y rheol hon.

M13.4 Mae'r Brifysgol yn cydnabod y caiff, yn ei doethineb (ar ôl ymgynghori gyda'r sawl a greodd yr Eiddo Deallusol a'r Awdurdodwr) droi'r Eiddo Deallusol yn eiddo cyhoeddus.

M13.5 Rhaid i staff y Brifysgol ddatgelu i'r Grŵp Eiddo Deallusol yr holl Eiddo Deallusol (a defnyddiau cysylltiedig) a grëwyd ganddynt a allai fod yn eiddo i'r Brifysgol ac y gellid ei fasnacheiddio.

M13.6 Mae dyletswydd ewyllys da i'r Brifysgol ar unrhyw un sy'n creu Eiddo Deallusol (a yw'n credu y caiff y Brifysgol hawlio perchnogaeth yr Eiddo Deallusol hwnnw ai peidio) sy'n golygu bod yn rhaid iddo ddatgelu'r Eiddo Deallusol i'r Grŵp Eiddo Deallusol. Bydd y datgeliad ar Ffurflen Datgelu Eiddo Deallusol, a bydd y Grŵp Eiddo Deallusol yn pennu fformat y ffurflen o bryd i'w gilydd.

M13.7 Bydd y Grŵp Eiddo Deallusol yn gorfodi'r Gweithdrefnau hyn ar gyfer yr holl Eiddo Deallusol sy'n eiddo i'r Brifysgol a yw'r sawl a'i creodd wedi'i ddatgelu i'r Brifysgol ai peidio.

M13.8 Caiff rhywun sydd wedi creu Eiddo Deallusol gyflwyno cais i'r Grŵp Eiddo Deallusol bod y fath Eiddo Deallusol yn cael ei drwyddedu neu ei drosglwyddo i'r Crëwr, gan amlygu ei gynigion am fasnacheiddio'r Eiddo Deallusol a manteision ac anfanteision y cynigion hynny i'r Brifysgol. Rhaid i'r fath gais gael ei lofnodi gan bawb a greodd yr Eiddo Deallusol os nas crëwyd gan unigolyn.

M13.9 Ym mhob achos, bydd y Grŵp Eiddo Deallusol yn adolygu'r wybodaeth ar y Ffurflen Datgelu Eiddo Deallusol a gwybodaeth angenrheidiol arall i ddod i benderfyniad gwybodus a ddylid masnacheiddio'r Eiddo Deallusol ac, os felly, sut. Efallai y bydd gofyn i Grëwr yr Eiddo Deallusol gwblhau Cofnod Dyfeisio mewn pa fformat bynnag y bydd y Grŵp Eiddo Deallusol yn pennu.

M13.10 Bydd y Grŵp Eiddo Deallusol yn hysbysu Crëwr yr Eiddo Deallusol a fydd yn ei fasnacheiddio ai peidio, ac am y camau eraill y bydd yn eu cymryd.

M13.11 Bydd y Grŵp Eiddo Deallusol, yn ei ddoethineb, yn penderfynu a fydd yn diogelu unrhyw Eiddo Deallusol ac, os felly, sut, yn ogystal â phennu'r ffordd orau o'i fasnacheiddio. Os bydd y Grŵp Eiddo Deallusol yn penderfynu wedyn i beidio â masnacheiddio rhan neu'r cyfan o'r Eiddo Deallusol, bydd yn hysbysu'r Crëwr.

M13.12 Y Grŵp Eiddo Deallusol fydd yn gwbl gyfrifol (gyda chymorth Crëwr yr Eiddo Deallusol) am drafodaethau gydag aseineion, trwyddedeion, a chydweithredwyr posibl, neu gwmnïau posibl a allai dderbyn neu ddefnyddio'r Eiddo Deallusol, a chyda buddsoddwyr ac arianwyr, am ddatblygu cynllun busnes ac am negodi trwyddedau addas neu gytundebau eraill.

M13.13 Pennir yr amserlen am unrhyw fasnacheiddio Eiddo Deallusol gan y Grŵp Eiddo Deallusol gan ddibynnu ar ffactorau megis cyflwr y farchnad a chyflwr datblygu'r Eiddo Deallusol.

M13.14 Bydd Crëwr yr Eiddo Deallusol yn rhoi cymorth rhesymol i'r Grŵp Eiddo Deallusol megis darparu gwybodaeth ychwanegol, mynychu cyfarfodydd gyda thrwyddedeion neu fuddsoddwyr posibl, a rhoi cyngor ar ddatblygiadau a gwelliannau ymhellach i'r Eiddo Deallusol.

M13.15 Os bydd y Grŵp Eiddo Deallusol yn penderfynu peidio â masnacheiddio unrhyw Eiddo Deallusol, bydd y Cyfarwyddwr yn ystyried, ar gais Crëwr yr Eiddo Deallusol, trwyddedu neu drosglwyddo'r Eiddo Deallusol iddo e, i'r graddau y mae hynny'n bosibl. Bydd trwyddedu neu drosglwyddo'r Eiddo Deallusol yn amodol ar (1) cadw'r hawl i'r Brifysgol ei ddefnyddio at ddibenion gweinyddol, hyrwyddol, addysgu ac ymchwil, (2) indemniad o ran treth ac ymrwymiadau eraill, (3) darparu am iawndal i'r Brifysgol yn unol â Chymal 4.17, a chydymffurfio ag amodau Cymal 4.17, a (4) y fath dermau ac amodau sydd eu hangen i ddiogelu buddiannau'r Brifysgol, ei staff, a'i myfyrwyr**.** Y Cyfarwyddwr fydd yn gyfrifol am sicrhau bod hyn yn digwydd.

M13.16 Os bydd Crëwr yr Eiddo Deallusol o'r farn nad yw'r Grŵp Eiddo Deallusol yn gweithredu'n ddiwyd, caiff ofyn i'r Cofrestrydd adolygu'r masnacheiddio. Os bydd yn penderfynu nad yw'r Grŵp Eiddo Deallusol yn gweithredu mewn modd amserol, bydd y Cofrestrydd yn pennu gofynion i'r Grŵp. Os na fydd y Grŵp Eiddo Deallusol yn eu bodloni, caiff y Cofrestrydd benderfynu na fydd y Brifysgol yn masnacheiddio'r Eiddo Deallusol a mynnu trwyddedu neu drosglwyddo'r Eiddo Deallusol i'r Crëwr.

M13.17 Pan fydd y Brifysgol yn trwyddedu neu'n trosglwyddo Eiddo Deallusol i'r Crëwr:

M13.17.1 oni fydd y Brifysgol yn cytuno fel arall, ni chaiff Crëwr yr Eiddo Deallusol ddefnyddio enw'r Brifysgol mewn unrhyw ffordd, a bydd yn sicrhau nad yw neb arall y mae'n trosglwyddo'r Eiddo Deallusol iddo'n gwneud hynny chwaith, ac eithrio'r datganiad a ganlyn:

"Cafwyd a datblygwyd y syniad gwreiddiol ym Mhrifysgol Abertawe."

M13.17.2 yn unol â'r polisi Eiddo Deallusol, bydd yn talu i'r Brifysgol:

(a) unrhyw dreuliau a dalwyd eisoes gan y Brifysgol mewn cysylltiad â datblygu, cofrestru, neu elwa ar y fath Eiddo Deallusol (gan gynnwys ffioedd asiant breinlen). Pennir maint ac amseru'r fath daliad yn y drwydded neu'r ddogfen drosglwyddo.

(b) swm sy'n cyfateb i 15% o unrhyw incwm (er enghraifft breindaliadau, ffioedd trwyddedu, difidendau, ffioedd ymgynghori, neu unrhyw beth cyfatebol) neu gyfalaf (er enghraifft cyfandaliadau, cyfrandaliadau mewn cwmnïau, neu unrhyw beth cyfatebol) a dderbynnir gan neu ar ran Crëwr yr Eiddo Deallusol neu unrhyw Gydymaith iddo o ganlyniad i fasnacheiddio'r fath Eiddo Deallusol.

M13.17.3 Gall Cydymaith fod yn gydymaith personol neu'n gydymaith busnes.

M13.17.4 Cydymaith personol yw unigolyn sydd (1) yn briod, yn bartner sifil, neu'n berson arall mewn perthynas bersonol agos (ac yn cynnwys unrhyw gyn-briod neu gynbartner sifil); neu (2) yn berthynas (brawd, chwaer, ewythr, modryb, nai, nith, cyndad uniongyrchol neu ddisgynnydd uniongyrchol, gan drin perthynas hanner gwaedoliaeth fel perthynas gwaedoliaeth lawn, a chan gynnwys llysblant a phlant wedi'u mabwysiadu, a llys-rieni neu rieni mabwysiadol).

M13.17.5 Gall cydymaith busnes fod yn unigolyn neu'n endid. Mae unigolyn yn gydymaith busnes os yw, neu os yw erioed wedi bod, (1) yn bartner busnes i'r sawl a greodd yr Eiddo Deallusol neu un o'i gymdeithion personol, (2) yn cyflogi Crëwr yr Eiddo Deallusol neu un o'i gymdeithion personol, (3) wedi'i gyflogi gan Grëwr yr Eiddo Deallusol neu un o'i gymdeithion personol neu endid sydd yn Gydymaith iddo, (4) yn gyfranddaliwr neu'n Gyfarwyddwr yr un cwmni (heblaw am gwmni a restrir ar y gyfnewidfa stoc) â Chrëwr yr Eiddo Deallusol, neu (5) yn berson y mae Crëwr yr Eiddo Deallusol wedi cael trafodion busnes ag e heblaw am ar sail hyd braich. Tybir bod endid yn Gydymaith Crëwr yr Eiddo Deallusol os bydd ganddo fe, neu gan rywun sydd yn gydymaith busnes iddo, reolaeth drosto, boed yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol. Tybir bod gan unigolyn reolaeth dros endid os yw'r endid hwnnw'n arfer â gweithredu yn unol â chyfarwyddiadau'r unigolyn hwnnw, neu os oes gan yr unigolyn hwnnw hawl i draean neu fwy o'r pleidleisiau mewn unrhyw gyfarfod cyffredinol yr endid neu endidau eraill sydd yn rhieni i'r endid, neu os oes gan yr unigolyn hawl i

benodi mwyafrif ar y bwrdd cyfarwyddwyr neu gorff llywodraethu arall yr endid.

M13.18 Cyn gadael cyflogaeth y Brifysgol, rhaid i bob aelod o staff drosglwyddo'r eitemau canlynol i ofal yr Awdurdodwr perthnasol: unrhyw ddeunydd ffisegol neu electroneg sy'n ymwneud ag Eiddo Deallusol a grëwyd ganddo, gan gynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i, lluniau gwreiddiol, diagramau, gwybodaeth a gofnodwyd, llyfrau nodiadau labordy, rhaglenni cyfrifiadurol, a chronfeydd data. Mae'n gyfrifoldeb ar bob aelod o staff, a'r Awdurdodwr perthnasol, i sicrhau glynu wrth y rheol hon, a bod manylion am yr holl gyfryw ddeunydd yn cael eu rhoi i'r Grŵp Eiddo Deallusol i'w cadw.

M13.19 Wrth negodi cytundeb â chorff allanol o ran unrhyw Eiddo Deallusol, bydd y Grŵp Eiddo Deallusol a'r Adran yn cydymffurfio ag unrhyw bolisïau perthnasol y Brifysgol.

M13.20 Caiff yr Is-ganghellor sefydlu grŵp ymgynghorol i roi cyngor ar strategaeth a threfniadau Masnacheiddio.

**M14 Rhannu Refeniw**

M14.1 At ddibenion rhannu refeniw dan Gymal 7 y Polisi Eiddo Deallusol, gwerth unrhyw Eiddo Deallusol, yn achos trwyddedu neu drosglwyddo neu drefniant arall ar gyfer ennill incwm (ac eithrio cwmni deillio) fydd yr incwm a chyfalaf net a dderbynnir gan y Brifysgol (ac eithrio unrhyw incwm a dderbynnir ar gyfer ymchwil mewn cysylltiad â'r Masnacheiddio ar ôl didynnu'r holl dreuliau a dalwyd gan y Brifysgol (neu gan is-gwmni a enwebwyd ganddi)) mewn cysylltiad â datblygu, diogelu, marchnata, a Masnacheiddio'r Eiddo Deallusol perthnasol.

M14.2 Yn achos Cwmni Deillio:

M14.2.1 os bydd Crëwr yr Eiddo Deallusol yn derbyn cyfrandaliadau, neu opsiynau ar gyfer cyfrandaliadau, yn y Cwmni Deillio, ni fydd ganddo hawl i dderbyn iawndal neu incwm ychwanegol o unrhyw fath oddi wrth y Brifysgol;

M14.2.2 os nad yw Crëwr yr Eiddo Deallusol yn derbyn cyfrandaliadau, neu opsiynau ar gyfer cyfrandaliadau, yn y Cwmni Deillio, gwerth yr Eiddo Deallusol fydd gwerth yr enillion (ar ffurf difidendau neu fel arall) a dderbyniwyd gan y Brifysgol oddi wrth y Cwmni Deillio ar ôl didynnu'r holl dreuliau a dalwyd gan y Brifysgol (neu gan is-gwmni a enwebwyd ganddi) mewn cysylltiad â datblygu, diogelu, marchnata, a Masnacheiddio'r Eiddo Deallusol perthnasol.

M14.3 Ni wneir unrhyw daliad unigol o gyfran Crëwr yr Eiddo Deallusol tan ei fod yn cyrraedd £500.

**M15. CREWYR COLL**

Rhaid i Grëwr nad yw bellach yn aelod o staff y Brifysgol ac sydd â hawl i dderbyn taliadau dan drefniadau rhannu incwm y Brifysgol hysbysu'r Grŵp Eiddo Deallusol mewn ysgrifen am ei

gyfeiriad cyfredol neu ei fanylion banc cyfredol fel bod modd anfon neu dalu taliadau refeniw. Os na roddir y fath wybodaeth i'r Grŵp Eiddo Deallusol, caiff y Brifysgol fuddsoddi'r arian mewn cyfrif cadw am dair blynedd, oni hawlir yr arian ynghynt. Fforffedir unrhyw arian nas hawliwyd yn ystod y tair blynedd ar ôl i'r Brifysgol ei dderbyn.

**M16. TRETH AC YSWIRIANT GWLADOL**

Didynnir treth incwm ac yswiriant gwladol o unrhyw arian (megis taliadau neu gyfranddaliadau) a dderbynnir, neu sydd i'w dderbyn, gan Grewyr sydd ar staff y Brifysgol ar y pryd, oni fydd y Brifysgol yn penderfynu fel arall gyda chydsyniad Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi.

M16.1 Cyn i'r Brifysgol wneud unrhyw daliad, neu drosglwyddo unrhyw fudd arall, i gyn-aelod o staff, rhaid iddi ei diogelu ei hun rhag unrhyw ymrwymiad posibl i dalu treth, yswiriant gwladol, llog neu gosb, ac felly, yn rhag-amod i wneud y fath daliad neu drosglwyddo'r fath fudd, caiff ofyn:

M16.1.1 am gadarnhad ysgrifenedig y Crëwr (1) y bydd yn cynnwys y fath daliad ar bob ffurflen dreth berthnasol, (2) y caiff y Brifysgol ddatgelu'r fath daliad neu fudd i Gyllid a Thollau Ei Mawrhydi, a (3) y bydd yn digolledu'r Brifysgol am unrhyw dreth, yswiriant gwladol, llog neu gosb sy'n daladwy mewn perthynas â'r fath daliad neu fudd; a/neu

M16.1.2 bod y Crëwr yn gwneud taliad i'r Brifysgol ar gyfer unrhyw rwymedigaeth hysbys, neu rwymedigaeth y mae'n rhesymol ei disgwyl, o ran treth, yswiriant gwladol, llog neu gosb ynghylch y fath drefniant rhannu refeniw, a bydd y Brifysgol yn didynnu'r fath daliad o unrhyw swm sy'n ddyledus gan y Brifysgol i'r cyn-aelod o staff.

M16.2 Rhaid i Grewyr ddigolledu'r Brifysgol beth bynnag am unrhyw dreth, yswiriant gwladol, llog neu gosb a ddaw yn ddyledus yn y dyfodol o ganlyniad i daliadau a wnaed yn y gorffennol mewn perthynas â rhannu refeniw.

M16.3 Y Crëwr unigol a'r Cyfarwyddwr sy'n gyfrifol am sicrhau bod y gwaith papur perthnasol yn ei le i sicrhau cydymffurfio â'r Cymal hwn**.**

**M17 Cyfrinachedd**

M17.1 Rhaid i gytundebau cyfrinachedd yn enw'r Brifysgol sy'n ymwneud ag ymchwil, Eiddo Deallusol, neu weithgarwch Masnacheiddio gael eu llofnodi gan y Cyfarwyddwr neu gan ddirprwy a awdurdodwyd ganddo. Os caiff unigolyn gais i lofnodi cytundeb cyfrinachedd, ni chaiff ei lofnodi ond fel unigolyn.

M17.2 Rhaid peidio â datgelu gwybodaeth sy'n destun i gytundeb cyfrinachedd oni awdurdodir ei datgelu. Ar ben hynny, rhaid i staff y Brifysgol beidio â datgelu gwybodaeth gyfrinachol y Brifysgol heb awdurdod.

M17.3 Rhaid i holl Staff y Brifysgol fod yn gyfarwydd â'r gofynion cyfrinachedd a nodir mewn cytundebau cyfrinachedd neu gytundebau ymchwil, gan gynnwys unrhyw gyfyngiad ar ddatgelu neu gyhoeddi canlyniadau ymchwil. Gall rhai cytundebau roi hawl i'r Corff Allanol wneud y penderfyniad terfynol am gymeradwyo papurau i'w cyhoeddi, rhywbeth a all effeithio ar yrfa ymchwilydd unigol. Weithiau, gall cytundeb cyfrinachedd gyfyngu ar gyhoeddi tan ar ôl cyflwyno cais am batent. Rhaid i bob unigolyn wybod pa gyfyngiadau sydd ar ddatgelu canlyniadau ymchwil ac, os oes amheuaeth, rhaid cysylltu â'r Adran neu â'r Corff Allanol.

M17.4 Rhaid i staff y Brifysgol

M17.4.1 Ceisio cyngor priodol os bydd yn ansicr a yw cytundeb yn gofyn am ddatgeliad ynghylch rhywbeth a ddyfeisiwyd neu ddyluniad;

M17.4.2 Glynu wrth delerau cyfrinachedd unrhyw gytundeb a chymryd camau wrth ddefnyddio, cadw a chynnal y fath wybodaeth fel bo'n addas i ddiogelu ei chyfrinachedd;

M17.4.3 Cadw cofnodion cynhwysfawr am yr wybodaeth a dderbynnir neu a ddatgelir, a chofnodion cyfarfodydd lle gwneir datgeliad llafar; a

M17.4.4 Rhoi gwybod i'r Grŵp Eiddo Deallusol os bydd ganddo unrhyw bryder nad yw gwybodaeth gyfrinachol sy'n eiddo naill ai i Gorff Allanol neu ynteu i'r Brifysgol yn cael ei thrin mewn modd priodol.

**M18 Gwrthdrawiadau Buddiannau**

Mae'r Brifysgol yn sefydliad cyhoeddus ac mae ganddi ddyletswydd ymddiriedol i ddiogelu buddiannau ariannol y trethdalwyr, a phan fo posibiliad y gall fod gwrthdaro buddiannau, boed yn wirioneddol neu'n ganfyddedig, yn sgil unrhyw weithred, mae'n ofynnol i staff y Brifysgol ddilyn polisïau a gweithdrefnau'r Brifysgol ar wrthdaro buddiannau. Bydd y Cyfarwyddwr yn rhoi gweithdrefnau ar waith i ddatgelu a rheoli unrhyw wrthdaro buddiannau (boed yn wirioneddol, yn bosibl, neu'n ganfyddedig) sy'n codi yng nghyd-destun ymchwil neu ymgynghori, diogelu, elwa ar, defnyddio neu fasnacheiddio eiddo deallusol y Brifysgol.

**M19 Cyngor a Dehongli**

Caiff staff y Brifysgol ofyn i'r Grŵp Eiddo Deallusol ddehongli'r Polisi Eiddo Deallusol a'r Gweithdrefnau hyn.

**M20 Rhoi'r Polisi ar Waith**

Bydd gan y Grŵp Eiddo Deallusol awdurdod a disgresiwn eang o fewn terfynau (1) Siarter y Brifysgol ac unrhyw Reoliadau, Deddfiadau neu ddarpariaethau eraill y Cyngor, (2) y Polisi Eiddo Deallusol, a (3) unrhyw gyfarwyddyd a roddir gan, neu ar ran, yr Is-ganghellor, i addasu prosesau gweinyddol, cyfarwyddyd, ffurflenni, a dehongliadau fel bo angen er mwyn rhoi'r Polisi a'r Gweithdrefnau hyn ar waith yn effeithiol.

**M21 Datrys anghydfod**

M21.1 Cyfeirir unrhyw anghydfod sy'n codi o'r Polisi Eiddo Deallusol neu o'r Canllawiau a Gweithdrefnau hyn at sylw'r Awdurdodwr a'r Cyfarwyddwr.

M21.2 Os na allant gytuno neu os bydd y Crëwr yn parhau i ddadlau am eu penderfyniad, caiff y mater ei ddatrys gan banel sy'n cynnwys y Cofrestrydd (a fydd yn ei gadeirio), Pennaeth yr Ysgol neu'r Sefydliad perthnasol, y Dirprwy Is-ganghellor ar gyfer Gwyddoniaeth a Pheirianneg (neu, os bydd y fath unigolyn yn rhan o'r anghydfod, ei Awdurdodwr) a dau aelod o'r Cyngor, a bydd penderfyniad y panel yn derfynol.

**M22. Gwelliannau**

Cymeradwywyd y gweithdrefnau hyn gan y Cyngor; caiff y Pwyllgor Cyllid wneud newidiadau i'r Gweithdrefnau hyn cyhyd â nad ydynt yn anghyson â'r Polisi Eiddo Deallusol.

## N1. Cyhoeddi a lledaenu canfyddiadau ymchwil:

**Polisi Mynediad Agored Gwyrdd Prifysgol Abertawe**

Mae polisi'r Deyrnas Unedig ynghylch ymchwil academaidd a ariennir gan gyllid cyhoeddus wedi newid sefyllfa cyhoeddi ymchwil yn y DU yn sylweddol. Er bod llawer i'w drafod o hyd, mae'n hysbys eisoes ei bod yn ofynnol, yn sgil Fframwaith Rhagoriaeth Ymchwil (REF) 2014, rhoi erthyglau a gyhoeddir mewn cyfnodolion a thrafodion cynadleddau i'w cadw mewn cronfa sy'n hygyrch i'r cyhoedd. Mae'r polisi hwn yn cynnwys y gofynion hynny ac yn ceisio casglu, lledaenu a hyrwyddo gwaith academaidd staff y Brifysgol mor eang â phosib.

Mae'r Polisi Mynediad Agored Gwyrdd hwn yn ofyniad ffurfiol o 1 Mawrth 2015 ac mae'n ofynnol i ymchwilwyr gyflwyno testun llawn eu cyhoeddiadau ymchwil i System Gwybodaeth Ymchwil y Brifysgol i'w cyhoeddi yng nghronfa ymchwil y Brifysgol, sy'n hygyrch i'r cyhoedd, sef 'Cronfa'. (Nodyn 1)

Lle bynnag y bo modd, disgwylir i ymchwilwyr sicrhau bod yr holl ddeunyddiau ymchwil ar gael ar sail Mynediad Agored Gwyrdd. Fodd bynnag, gan gydnabod bod y sefyllfa'n newid o hyd, mae'n orfodol, i ddechrau, ar gyfer erthyglau a gyhoeddir mewn cyfnodolion a thrafodion cynadleddau. (Nodyn 2)

Mae System Gwybodaeth Ymchwil y Brifysgol yn system fewnol i ganiatáu i'r Brifysgol goladu a gwerthuso ei gwaith ymchwil, a chaiff ei defnyddio i gyflwyno gwaith ymchwil a dogfennau ategol ar gyfer y Fframwaith. Mae 'Cronfa' yn sicrhau bod gwaith ein hymchwilwyr yn weladwy i'r byd a'i fod yn cael ei fynegrifo gan Google Scholar a pheiriannau chwilio eraill. Mae'n ofynnol cyhoeddi gwaith mewn cronfa ymchwil er mwyn bod yn gymwys ar gyfer y Fframwaith; mae'n gallu cynyddu proffil ymchwil yn y byd academaidd a'r byd ehangach ac mae'n hyrwyddo cydweithredu a dyfyniadau.

Yn ôl Polisi Cronfa Ymchwil y Brifysgol, mae'n ofynnol:

1. Cyflwyno fersiwn derfynol gwaith ymchwil sydd wedi'i adolygu a'i dderbyn gan gymheiriaid i'r System Gwybodaeth Ymchwil ar unwaith pan gaiff ei dderbyn i'w gyhoeddi, ynghyd ag unrhyw wybodaeth am embargo, ac

2. Mae'n rhaid i awduron ddefnyddio 'Prifysgol Abertawe' yn y gwaith ymchwil wrth nodi eu cyfeiriad.

Mae cymorth wrth ddefnyddio'r System Gwybodaeth Ymchwil a bodloni'r meini prawf hyn ar gael gan y Llyfrgell, gan gynnwys canllaw i ddefnyddio'r System. Gall eich tîm pwnc roi cymorth a chyngor i chi.

Dolenni: System Gwybodaeth Ymchwil, Cronfa, Polisi Mynediad Agored Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru/ Cyngor Cyllido Addysg Uwch Lloegr

**Nodyn 1:** Gall prosiectau a ariennir gan Gynghorau Ymchwil y Deyrnas Unedig wneud cais am gyllid i dalu ffioedd prosesu erthygl mynediad agored aur - gweler y dudalen hon am ragor o fanylion.

**Nodyn 2:** Mae'n ofynnol cyflwyno'r testun llawn yn ôl meini prawf y Fframwaith. Mae'r gwaith ar gael i'r cyhoedd ar unwaith fel arfer, ond gellir parchu cyfnodau embargo rhesymol (12 mis ar y mwyaf ar gyfer Gwyddoniaeth, Technoleg, Peirianneg a Mathemateg, 24 mis ar gyfer y celfyddydau a'r dyniaethau). Yn ôl meini prawf y Fframwaith, ni fydd y mathau o ymchwil y mae'n orfodol eu cyflwyno'n gymwys ar gyfer y Fframwaith os na fodlonir y meini prawf cyflwyno i'w cadw a hygyrchedd.

**N2. Cywirdeb Cyhoeddi Ymchwil ar gyfer Awdurdon, Adolygwyr a Golygyddion**

Dylai ymchwilwyr gadw mewn cof moeseg cyhoeddi, a cheisio sicrhau ymgymryd â gwaith ysgrifennu, cyhoeddi, adolygiad gan gymheiriaid, golygu ac yn y blaen gyda chywirdeb. Mae hyn yn arbennig o bwysig wrth ystyried cyd-ysgrifennu a chyd-gyhoeddi lle gall fod gwahaniaeth sylweddol yn statws y rhai sy'n ymwneud â'r gwaith (er enghraifft ymchwilwyr sefydledig ac ymchwilwyr gyrfa gynnar; goruchwylwyr academaidd ac ymchwilwyr ôl-raddedig).

Mae'r **Pwyllgor ar Foeseg Cyhoeddi**'n bodoli er mwyn hyrwyddo cywirdeb o ran cyhoeddi ymchwil, ac mae'n ceisio diffinio arfer gorau ym moeseg cyhoeddi ysgolhaig er mwyn cynorthwyo ymchwilwyr, awduron, golygyddion, aelodau byrddau golygyddol, perchnogion cyfnodolion, a chyhoeddwyr. Mae gwefan y Pwyllgor yn cynnwys llawer o adnoddau, gan gynnwys:

- Egwyddorion Tryloywder ac Arfer Gorau ym maes Cyhoeddi Ysgolhaig;
- Sut i drin anghydfod ynghylch awduriaeth: Canllawiau i ymchwilwyr newydd;
- Canllawiau moesegol ar gyfer adolygwyr;
- Canllawiau ailgylchu testun (hynny yw gorgyffwrdd cyhoeddi);
- Canllawiau i olygu moesegol ar gyfer golygyddion newydd;
- Côd ymddygiad a chanllawiau arfer gorau ar gyfer golygyddion cyfnodolion;
- Côd ymarfer ar gyfer cyhoeddwyr cyfnodolion;
- Cyfres o ddogfennau trafod ar foeseg cyhoeddi;
- Siartiau llif am drin amheuaeth o gamymddwyn (er enghraifft data a ffugiwyd, llên-ladrad, a chyhoeddi ddwywaith); a
- Canllawiau am dynnu erthyglau'n ôl.

Gwefan y Pwyllgor http://publicationethics.org/about?

Mae'r **Cyngor Golygyddion Gwyddoniaeth** yn darparu llwyth o gyngor ar gywirdeb o ran cyhoeddi ymchwil hefyd. Er enghraifft, mae ***White Paper on Promoting Integrity in Scientific Journal Publications*** y Cyngor yn cynnwys cyngor manwl ar:

- Awduriaeth a chyfrifoldebau awduron
- Swyddogaethau a chyfrifoldebau adolygwyr
- Swyddogaethau a chyfrifoldebau golygyddion

Gwefan y Cyngor: http://www.councilscienceeditors.org

# POLISI PRIFYSGOL ABERTAWE AR WRTHDRAWIADAU BUDDIANNAU O RAN GWEITHGARWCH YMCHWIL, YMGYNGHORI, A MASNACHEIDDIO EIDDO DEALLUSOL

## CYFLWYNIAD AC AMCANION

O1. Mae Prifysgol Abertawe'n annog ei staff i ymwneud â gweithgarwch sy'n mynd y tu hwnt i'r rôl academaidd draddodiadol, ac i greu cysylltiadau â sefydliadau elusennol, llywodraeth, masnach a diwydiant, yn lleol, yn genedlaethol ac yn rhyngwladol. Mae'r gweithgareddau allanol hyn yn hyrwyddo datblygu staff ac enw da'r Brifysgol. Ar ben hynny, maent yn hyrwyddo datblygu economaidd rhanbarthol a lles y cyhoedd yn gyffredinol.

O1.1 Trwy ymwneud â gweithgarwch allanol, gall staff fod mewn sefyllfa lle gall buddiant allanol wrthdaro, neu ymddangos i wrthdaro, a'u dyletswyddau yn y Brifysgol. Mae'r fath wrthdaro'n codi oherwydd y sefyllfa, a hyd yn oed os bydd yr aelod o staff yn gweithredu'n wrthrychol, yn ddiduedd, a chyda gonestrwydd proffesiynol, gallai ymddangos fod ei fuddiannau personol neu economaidd yn dylanwadu ar ei benderfyniadau.

O1.2 Nid yw'r Polisi hwn yn bwrw sen ar staff, ond yn hytrach mae'n ceisio diogelu eu henw da trwy osod set wrthrychol o egwyddorion o ran rheoli gwrthdaro.

Amcanion y Polisi hwn yw:

(a) cynorthwyo staff i adnabod Gwrthdrawiadau Buddiannau sy'n codi ym meysydd ymchwil, ymgynghori, a masnacheiddio eiddo deallusol;
(b) darparu cyfarwyddyd i'r rhai sy'n adolygu ac yn rheoli Gwrthdrawiadau Buddiannau; a
(c) ymgorffori tryloywder a chywirdeb yn y broses o reoli a datrys Gwrthdrawiadau Buddiannau.

I gefnogi'r Polisi hwn, mabwysiadwyd Gweithdrefnau ar gyfer adrodd ar, asesu, a rheoli Gwrthdrawiadau Buddiannau, ac ar gyfer goruchwylio'r broses.

Mae gan y Brifysgol bolisïau sy'n berthnasol i fathau eraill o Wrthdaro Buddiannau a allai godi. Mae Polisi'r Brifysgol ar Wasanaethau Ymgynghori Personol yn ymdrin â'r gwrthdaro a allai godi pan fydd buddiant personol staff yn amharu â'u dyletswydd i'r Brifysgol, yn arbennig o ran yr amser a'r egni a roddir i weithgarwch y Brifysgol. Mae "Cod Ymddygiad ar Berthynas Bersonol" y Brifysgol yn ymdrin â gwrthdrawiadau a allai godi o ganlyniad i berthynas bersonol. Mae "Canllawiau'r Pwyllgor Ymchwil ar Arfer Ymchwil Da" Prifysgol Abertawe'n gosod polisi bras ar gywirdeb ymchwil. Yn ei Pholisi Twyll, mae'r Brifysgol yn ymrwymo i fod

yn agored, i ymddwyn â chywirdeb, ac i fod yn atebol. Rhaid i staff gydymffurfio â'r polisïau hynny yn ogystal â'r Polisi hwn.

Mae'r Polisi hwn yn ddilys ar gyfer yr holl staff, ac mae'n ymdrin â Gwrthdrawiadau Buddiannau a allai godi o ran ymchwil, ymgynghori, neu fasnacheiddio eiddo deallusol y Brifysgol.

**DIFFINIADAU**

**"Awdurdodwr"** yw'r sawl a ddynodir yn y tabl isod:

| **Awdurdodwr** | **Aelod o Staff** |
|---|---|
| Cadeirydd y Cyngor | Is-ganghellor |
| Is-ganghellor | Cofrestrydd a Dirprwy Is-gangellorion |
| Dirprwy Is-ganghellor, fel bo'n addas | Penaethiaid Coleg neu Benaethiaid Sefydliad |
| Cofrestrydd | Uwch Weinyddwyr a Phenaethiaid Adrannau nad ydynt yn rhan o Goleg |
| Penaethiaid Coleg | Staff academaidd, academaidd perthynol, ymchwil, a thechnegol, ac aelodau eraill o staff y mae Pennaeth y Coleg perthnasol yn rheolwr llinell arnynt |
| Penaethiaid Sefydliad | Staff y mae Pennaeth y Sefydliad perthnasol yn rheolwr llinell arnynt |
| Uwch Weinyddwyr | Staff y mae eu rheolwr llinell yn yr adran weinyddol berthnasol |

**"Masnacheiddio"** yw gwireddu gwerth masnachol neu ariannol trwy ymelwa ar eiddo deallusol, a dehonglir y term "Masnacheiddio" felly.

**"Gwrthdaro Buddiannau"** yw pan fydd gan aelod o staff fuddiant sydd â'r potensial i gyfaddawdu ar, neu greu tuedd yn, barn broffesiynol neu wrthrychedd yr unigolyn hwnnw, neu sy'n ymddangos i fod â'r potensial i wneud hynny.

**"Cyfarwyddwr"** yw Cyfarwyddwr yr Adran Ymchwil ac Arloesi (neu unigolyn arall a enwebir gan yr Is-ganghellor o bryd i'w gilydd).

**"Penodiad Allanol"** yw unrhyw benodiad sy'n golygu bod gan aelod o staff neu barti perthynol i'r aelod o staff hwnnw swydd (boed yn unol â chontract cyflogaeth neu fel arall) fel cyfarwyddwr, swyddog neu ymddiriedolwr, neu swydd debyg sy'n rhoi awdurdod ymddiriedol i weithredu er budd gorau'r endid allanol lle delir y penodiad hwnnw.

**"Buddiant Ariannol"** yw buddiant ariannol aelod o staff ar ffurf taliadau, buddsoddiadau neu refeniw eiddo deallusol, neu ddisgwyliad neu bosibilrwydd o daliadau, buddsoddiadau neu

refeniw eiddo deallusol yn y dyfodol; neu ddiddordeb ariannol tebyg parti perthynol i'r aelod o staff sy'n hysbys i'r aelod o staff.

**"Buddiant Ariannol Tila"** yw:

i. O ran Buddsoddiad. Pan fydd Buddiant Ariannol ar ffurf buddsoddiad, bydd y Brifysgol yn tybio ei fod yn dila os bodlonir y cyfan o'r amodau hyn:

   (a) mae'n fuddsoddiad mewn cwmni a restrir ar gyfnewidfa stoc gydnabyddedig;
   (b) nid yw gwerth y cyfranddaliadau'n fwy na £5000 ar unrhyw adeg; a
   (c) nid oes unrhyw berthynas neu gysylltiad, clir neu ddealledig, rhwng caffael y cyfranddaliadau ac unrhyw ymchwil sydd i'w wneud dros y cwmni hwnnw.

ii. O ran Taliad. Pan fydd Buddiant Ariannol ar ffurf taliad, tybir ei fod yn dila os bydd cyfanswm y taliadau mewn unrhyw gyfnod o ddeuddeng mis yn llai na £5000 o bob ffynhonnell, ac os na fydd unrhyw berthynas neu gysylltiad rhwng y ffi ymgynghori ac unrhyw berthynas arfaethedig rhwng y Brifysgol a'r sefydliad perthnasol. Gall rhoddion a threuliau lletygarwch a delir gan gwmni gyfrannu i Wrthdaro Buddiant.

**"Buddsoddiadau"** yw unrhyw fuddiant o ran cyfrandaliadau, hawl i brynu cyfrandaliadau, a gwarantau a buddiannau mewn sefydliad allanol, a dehonglir y term 'buddsoddiad' felly.

**"Refeniw Eiddo Deallusol"** yw refeniw'n ymwneud â masnacheiddio ac ymelwa ar eiddo deallusol megis ffioedd trwyddedu, breindaliadau a mathau eraill o drefniadau rhannu refeniw (gan eithrio'r rhai a wneir dan Bolisi Eiddo Deallusol y Brifysgol).

**"Taliadau"** yw taliadau am wasanaethau gan gynnwys ffioedd ymgynghori, ffioedd cyfarwyddwyr, cyflogau a chydnabyddiaethau, neu daliadau mewn nwyddau, maddau dyledion, eiddo, eiddo deallusol, refeniw sy'n tarddu o eiddo deallusol megis ffioedd trwyddedu neu freindaliadau, neu unrhyw eitem arall o werth.

**"Gweithdrefnau"** yw'r "Gweithdrefnau ar gyfer Rheoli Gwrthdrawiadau Buddiannau o ran Gweithgarwch Ymchwil, Ymgynghori, a Masnacheiddio Eiddo Deallusol".

**"Parti Perthynol"** yw teulu agos aelod o staff (sef priod, rhieni, brodyr neu chwiorydd, neu blant); partner; ffrindiau personol agos; ac unrhyw unigolyn arall y mae'r berthynas sydd rhyngddo a'r aelod o staff yn debyg o ymddangos i berson rhesymol yn berthynas sy'n debygol o ddylanwadu ar ddidueddrwydd yr aelod o staff.

**"Aelod o Staff"** yw aelod o staff y Brifysgol, gan gynnwys myfyrwyr pan fyddant yn gweithredu fel staff.

**"Cwmni Deillio'r Brifysgol"** yw cwmni y mae gan y Brifysgol ecwiti ynddo, ac mae'r Brifysgol wedi trosglwyddo neu drwyddedu eiddo deallusol iddo.

**EGWYDDORION**

Mae'r Brifysgol yn disgwyl y bydd staff yn gweithredu gyda chywirdeb, ac mae'n credu eu bod yn gwneud hynny.

Cydnabyddir bod bodolaeth Gwrthdaro Buddiannau, neu ganfyddiad bod un yn bodoli, yn codi o'r sefyllfa. Go brin y mae'n ganlyniad drygioni, nac yn arwydd drygioni. Fodd bynnag, mae'n bwysig datgelu a rheoli Gwrthdrawiadau Buddiannau.

Rhaid i'r Brifysgol ymdrin â Gwrthdrawiadau Buddiannau yn brydlon, yn deg, yn rhesymol, ac yn wrthrychol, gan roi sylw priodol i'r effaith ar waith, gyrfa, ac enw da'r Aelod o Staff.

Rhaid sicrhau nad yw buddiant noddwr ymchwil yn effeithio'n negyddol ar addysg y myfyrwyr.

Mae staff dan ymrwymiad i weithredu er lles pennaf y Brifysgol wrth gyflawni eu dyletswyddau a'u gweithgareddau, gan gynnwys ymchwil ac ymgynghoriaeth.

Ni ddylai unrhyw aelod o staff gael ei dalu trwy'r Brifysgol am ymchwil ond yn ei faes ymchwil creiddiol, ac ni ddylai gynnal ymchwil dan amgylchiadau lle'r gall unigolyn rhesymol gredu yr effeithir ar yr ymchwil gan ddisgwyliad o enillion ariannol, yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol, ond yn unol â pholisïau'r Brifysgol.

Rhaid i staff gyhoeddi canlyniadau eu hymchwil mewn modd cynhwysfawr, diduedd, ac amserol.

Ni ddylid defnyddio adnoddau'r Brifysgol, gan gynnwys amser staff, ond at ddibenion y Brifysgol ac ar gyfer gweithgarwch y Brifysgol, ac nid at ddibenion busnesau personol, neu weithgarwch ymgynghori neu fasnachol personol, oni chytuna'r Brifysgol fel arall mewn ysgrifen.

**GWRTHDARO BUDDIANNAU**

Mae Gwrthdaro Buddiannau'n bodoli os bydd unigolyn rhesymol (er enghraifft rheolwr, myfyriwr, cydweithiwr, aelod o'r cyhoedd, noddwr ymchwil, neu reoleiddiwr) yn credu ei bod yn debyg bod Buddiant Ariannol neu Benodiad Allanol yn debygol o ddylanwadu ar weithredoedd a barn aelod o staff.

Gall Gwrthdaro Buddiannau o ran gweithgarwch ymchwil, ymgynghori, neu fasnacheiddio effeithio ar:

**Cenhadaeth Addysgol y Brifysgol**

Prif genhadaeth Prifysgol Abertawe yw addysg ei myfyrwyr. Rhaid i staff sy'n ymwneud â dysgu, hyfforddi, neu oruchwylio myfyriwr, neu â chyfeirio, gwerthuso, neu raddio gwaith myfyriwr ("gweithgareddau addysgol") sicrhau perfformio'r gweithgareddau hyn hyd eithaf eu gallu heb i unrhyw Fuddiant Ariannol neu Benodiad Allanol amharu arnynt.

**Cywirdeb Ymchwil**

Rhaid i staff lynu wrth y safonau moesegol uchaf o gywirdeb gwyddonol.  Os bydd gan ymchwilydd Wrthdaro Buddiannau o ran gweithgarwch ymchwil, mae'n bosibl na fydd cywirdeb ynddo'i hun yn ddigon i ddiogelu'r ymchwilydd na'r Brifysgol rhag amheuon a niwed i'w henwau da.  Gallai Gwrthdaro Buddiannau effeithio ar sawl agwedd ar yr ymchwil, megis dewis y maes ymchwilio, dylunio'r ymchwil, protocolau'r ymchwil, cynnal yr ymchwil, dehongli'r canlyniadau, neu gyhoeddi'r canlyniadau.

**Atebolrwydd Cyhoeddus/ Defnyddio Cyllid Cyhoeddus**
Mae'r Brifysgol, yn gorff cyhoeddus, yn derbyn cyllid cyhoeddus, ac mae'n amhriodol defnyddio ei hadnoddau at ddibenion gweithgarwch ymchwil, ymgynghori, neu fasnacheiddio a fydd yn golygu enillion preifat i aelod o staff ond yn unol â pholisi'r Brifysgol.

**ENGHREIFFTIAU O WRTHDARO BUDDIANNAU**

Ni all y Polisi hwn ymdrin â phob Gwrthdaro Buddiannau y gellid ei ddychmygu.  Fodd bynnag, amlinellir isod enghreifftiau o weithredoedd a allai arwain at wrthdaro:

i. Gweithredu fel Goruchwyliwr Academaidd, naill ai i fyfyrwyr neu i ymgeiswyr ôl-ddoethurol, mewn prosiect ymchwil lle noddir yr ymchwil gan endid allanol y mae gan y Goruchwyliwr ddiddordeb ariannol neu benodiad allanol ynddo.

ii. Cyflawni gweithgareddau addysgol i fyfyriwr pan fo gan yr aelod o staff ddiddordeb ariannol neu benodiad allanol mewn endid allanol y mae'r myfyriwr yn berchen arno neu'n ei reoli.

iii. Cymryd rhan mewn ymchwil a noddir gan endid allanol y mae gan yr aelod o staff ddiddordeb ariannol neu benodiad allanol ynddo.

iv. Cynnal ymchwil a allai effeithio ar werth eiddo deallusol y mae'r aelod o staff yn berchen arno neu y mae'r eiddo wedi'i drwyddedu iddo.

v. Cynnal ymchwil yn allanol a fyddai fel arfer yn cael ei gynnal gan y Brifysgol.

vi. Cynnal ymchwil neu ymgynghori yn breifat pan ddylai'r ymchwil neu ymgynghori gael ei gynnal gan y Brifysgol, oni bai bod y Brifysgol wedi nodi nad yw am gynnal yr ymchwil neu ymgynghori.

vii. Cynnal ymchwil ar eiddo deallusol y mae endid allanol yn berchen arno neu y mae wedi'i drwyddedu iddo, os oes gan yr ymchwilydd ddiddordeb ariannol neu benodiad allanol yn yr endid allanol.

viii. Cytuno i ddarparu ymgynghori yn unol ag amodau a thelerau a allai atal yr aelod o staff neu'r Brifysgol rhag gweithio ar ymchwil neu ymgynghori perthynol a gynhelir gan y Brifysgol.

ix. Cyflawni gwaith ymgynghori a allai achosi absenoldeb sylweddol o'r Brifysgol a chynyddu llwyth gwaith aelodau eraill o staff.

x. Defnyddio neu ddatgelu gwybodaeth gyfrinachol am y Brifysgol neu drydydd parti dros neu i sefydliadau eraill sy'n noddi ymchwil neu waith ymgynghori yr aelod o staff.

xi. Cynnal ymchwil ar ran endid allanol y mae parti perthynol wedi buddsoddi ynddo neu'n derbyn taliadau ganddo.

## 42. DATGELU BUDDIANT ARIANNOL NEU BENODIAD ALLANOL

42.1 Rhaid i staff ddatgelu buddiannau fel a ganlyn:

**Datgeliad Blynyddol**

Rhaid i bob aelod o staff gwblhau'r "Datganiad Buddiannau Allanol Staff" (fel y'i diwygir o bryd i'w gilydd) bob blwyddyn ac ar unrhyw adeg arall yn ystod y flwyddyn fel bo angen i gofnodi unrhyw newid sylweddol yn ei amgylchiadau.

**Datgeliadau Penodol**

I sicrhau adnabod a rheoli unrhyw Wrthdaro Buddiannau posibl yn gynnar, rhaid i bob aelod o staff wneud Datgeliad Penodol am unrhyw Fuddiant Ariannol a/neu Benodiad Allanol sy'n berthnasol i weithgarwch parhaus o ran ymchwil, ymgynghori, neu fasnacheiddio. Rhaid datgelu Buddiant Ariannol, a dybir ei fod yn dila ai peidio, dan ddarpariaethau'r Polisi hwn. Bydd y Gweithdrefnau'n pennu gofynion penodol o ran datgeliadau penodol.

**Datgeliadau Cyhoeddus**

Rhaid i aelod o staff sy'n trafod canlyniadau ymchwil yn ffurfiol, neu'n gwneud sylwadau ffurfiol arnynt, ddatgelu unrhyw Fuddiant Ariannol neu Benodiad Allanol mewn corff allanol y mae'r ymchwil yn effeithio arno. Mae'r gofyniad hwn yn ymestyn i unrhyw drafodaeth neu sylwadau y gellid eu dosbarthu'n gyhoeddus mewn unrhyw gyfrwng megis rhaglen deledu neu radio, papur newydd, neu gyfrwng electronig, neu mewn trafodaethau neu sylwadau a wneir o flaen y cyhoedd.

Rhaid i staff gydymffurfio ag unrhyw ofynion arbennig o ran Gwrthdaro Buddiannau y gall trydydd parti perthnasol (er enghraifft cyhoeddiad academaidd neu broffesiynol, neu drefnydd cynhadledd) eu pennu.

**GWEITHGARWCH MASNACHEIDDIO**

**Egwyddorion ar gyfer ymwneud staff â Gweithgarwch Masnacheiddio.**

Mae gweithgarwch masnacheiddio yn faes lle gall Gwrthdrawiadau Buddiannau godi'n rhwydd oherwydd y posibiliad o fudd ariannol uniongyrchol i staff, a'r posibiliad o ddefnyddio arian cyhoeddus er budd personol. Mae'r rheolau canlynol ar waith o ran gweithgarwch masnacheiddio:

- Caiff staff ddal buddsoddiad mewn Cwmni Deillio'r Brifysgol, a chaiff dderbyn taliadau o'r cwmni, ond mae'n rhaid eu datgelu.

- Caiff aelod o staff wasanaethu fel cyfarwyddwr, dal penodiad allanol arall o natur anweithredol, neu wasanaethu fel ymgynghorydd mewn cwmni deillio gyda chydsyniad y Cyfarwyddwr, yn amodol ar unrhyw amodau arbennig a bennir gan y Cyfarwyddwr, ac yn unol ag unrhyw bolisïau perthnasol eraill y Brifysgol.

- Ni chaiff staff wasanaethu fel uwch reolwyr cwmni deillio'r Brifysgol heb gydsyniad ysgrifenedig y Cyfarwyddwr ymlaen llaw.

**Endid Allanol yn defnyddio adnoddau'r Brifysgol**

Ni chaiff endid allanol ddefnyddio gofod yn y Brifysgol, oni bai fod y gofod wedi'i neilltuo'n gyffredinol at y fath ddefnydd (er enghraifft, canolfan deor busnesau).

Ym mhob achos lle defnyddir adnoddau'r Brifysgol neu le gwneir ymchwil ar ran endid allanol lle mae gan aelod o staff fuddsoddiad neu benodiad allanol, ad-delir y Brifysgol yn llawn am ddarparu'r adnoddau.

**42.2 STAFF GWEINYDDOL**

42.3 Mae staff sy'n ymwneud â negodi a gweinyddu grantiau a chontractau ymchwil, contractau ymgynghori, a gweithgarwch masnacheiddio yn destun i ofynion arbennig, mwy llym. Rhaid i'r staff yma (er enghraifft staff yr Adran Ymchwil ac Arloesi, neu swyddogion trosglwyddo technoleg neu swyddogion masnachol yn yr Ysgolion) allu negodi a gweinyddu gweithgareddau ymchwil, ymgynghori neu fasnacheiddio er lles pennaf y Brifysgol heb Wrthdaro Buddiannau.

42.4 Tybir bod aelod o staff a enwebir i benodiad allanol gan y Brifysgol yn derbyn y penodiad yn rhan o gyflawni ei ddyletswyddau fel aelod o staff y Brifysgol, ac ni fydd yn derbyn unrhyw daliad oddi wrth yr endid allanol heb gydsyniad ysgrifenedig y Cyfarwyddwr.

42.5 Ni chaiff aelod o'r staff gweinyddol ddal buddsoddiad mewn, neu dderbyn taliadau oddi wrth, endid allanol (1) a sefydlwyd o ganlyniad i waith yr unigolyn hwnnw yn y Brifysgol, neu (2) sydd â pherthynas gytundebol â'r Brifysgol yn ymwneud ag ymchwil, ymgynghori, neu fasnacheiddio Eiddo Deallusol. Nid yw'r gwaharddiad hwn yn ddilys o ran cyfrandaliadau a brynwyd ar ôl rhestru'r endid allanol ar gyfnewidfa stoc gydnabyddedig.

**43 RHEOLI GWRTHDRAWIADAU BUDDIANNAU O RAN YMCHWIL, YMGYNGHORI A MASNACHEIDDIO, A DATRYS ANGHYDFOD**

43.1 Y Cyfarwyddwr sydd â'r cyfrifoldeb pennaf am reoli gwrthdrawiadau buddiannau o ran gwaith ymchwil. Pennir cyfrifoldebau'r Cyfarwyddwr yn y Gweithdrefnau.

43.2 Bydd gan staff hawl i apelio yn erbyn penderfyniadau'r Cyfarwyddwr i banel sy'n cynnwys aelod lleyg o'r Cyngor, cynrychiolydd a benodir gan Lywydd Undeb y Prifysgolion a'r Colegau, a Dirprwy Is-ganghellor. Cofnodir yr anghydfod a'r hyn a wnaed i'w ddatrys.

Bydd adroddiad cyffredinol ar gael ar gais i unrhyw aelod o staff y Brifysgol. Fodd bynnag, adroddiad cyffredinol fydd hwn, ac ni fydd yn datgelu gwybodaeth gyfrinachol.

43.3 Os bydd aelod o staff yn honni nad yw'r Brifysgol wedi cydymffurfio â'r Polisi hwn a'i Weithdrefnau, caiff ofyn i'r mater gael ei ddatrys gan gyflafareddwr. Dylai'r Brifysgol a'r aelod o staff gytuno ar y cyflafareddwr. Os na allant ddod i gytundeb o fewn mis calendr ar ôl y cais am gyflafareddu, penodir cyflafareddwr gan Lywydd Cymdeithas y Gyfraith yng Nghymru a Lloegr. Cynhelir y cyflafareddu yn Abertawe yn unol â chyfraith Cymru a Lloegr. Bydd penderfyniad y cyflafareddwr yn rhwymo'r Brifysgol a'r aelod o staff, a thelir y costau fel y bydd yr arbenigwr yn pennu. Byddai gan y naill barti neu'r llall hawl i ddwyn achos yn y Llysoedd er mwyn ceisio ymwared gorfodol, datganiadol, neu fel arall nad yw ar gael trwy gyflafareddwr.

## 44 EITHRIADAU I'R POLISI HWN

Caiff yr Is-ganghellor, ar gais y Panel Monitro, gymeradwyo eithriad i'r Polisi hwn lle mae buddiannau'r Brifysgol yn cyfiawnhau hynny, cyhyd ag y cynhelir yr egwyddorion o gywirdeb a thryloywder.

## 45 RHOI AR WAITH

Bydd gan y Cofrestrydd awdurdod a disgresiwn eang o fewn terfynau (1) Siarter y Brifysgol ac unrhyw Reoliadau, Deddfiadau neu ddarpariaethau eraill y Cyngor, (2) y Polisi hwn, a (3) unrhyw gyfarwyddyd a roddir gan, neu ar ran, yr Is-ganghellor, i addasu prosesau gweinyddol, cyfarwyddyd, ffurflenni, a dehongliadau fel bo angen er mwyn rhoi'r Polisi hwn a'r Gweithdrefnau ar waith yn effeithiol.

**Adran P**

# POLISI AR ASESU RISG YMCHWIL
# &
# ADDASRWYDD ARIANWYR A CHYDWEITHREDWYR

**Indemniad**

Mae cynnal asesiad risg i ystyried rhwymedigaethau ar gyfer pob prosiect ymchwil yn ofyniad y Brifysgol. Rhaid i'r prif ymchwilydd sicrhau bod yr yswiriant angenrheidiol wedi'i drefnu cyn cychwyn y prosiect. Mewn rhai achosion, mae'n bosibl y bydd angen awdurdod, a bydd angen ei wirio gyda Swyddog Yswiriant y Brifysgol. Mae enghreifftiau'n cynnwys Profion Clinigol a defnyddio awyrennau di-beilot at ddibenion ymchwil.

Mae Swyddog Yswiriant y Brifysgol yn gyfrifol am ddarparu cyngor ar bob mater yn ymwneud â pholisïau yswiriant y Brifysgol, hawliadau yswiriant, a chynnal a gweinyddu holl gofnodion yswiriant y Brifysgol.

Mae rhagor o wybodaeth am yswiriannau'r Brifysgol yn Polisïau a Gweithdrefnau Ariannol y Brifysgol, ac yn:-

http://www.swansea.ac.uk/cy/cynnwys/llywioedrychyddion/staff/cyllid/gwybodaethistaff/yswiriant/

**Addasrwydd arianwyr a chydweithredwyr**

Yn unol â'i pholisi ar Gywirdeb Ymchwil, nid yw'r Brifysgol o fwriad yn cydweithredu â, nag yn derbyn arian oddi wrth:

- Y diwydiant tybaco;
- Sefydliadau sy'n anghyfreithlon dan ddeddfau'r Deyrnas Unedig;
- Sefydliadau y mae eu nodau a'u hamcanion yn mynd yn groes i nodau ac amcanion y Brifysgol.

Dylai unrhyw ymchwilydd sydd ag unrhyw bryder ynghylch natur ariannu neu natur cydweithredwr posibl drafod y mater gyda Rheolwr Llywodraethu Ymchwil a Chydymffurfio'r Brifysgol neu Gyfarwyddwr y Swyddfa Ymchwil ac Arloesi.

# Adran Q

## POLISI AR YMCHWIL MYFYRWYR

Wrth ystyried ymchwil gan fyfyrwyr dylid defnyddio'r un egwyddorion o ran cywirdeb ymchwil, moeseg ymchwil, a llywodraethu ymchwil a ddefnyddir ar gyfer unrhyw ymchwil arall. Dylid disgwyl yr un safonau moesegol uchel. Mae'n bwysig adnabod pan fydd gwaith myfyrwyr yn *ymchwil*, a'i sgrinio i benderfynu a oes angen cymeradwyaeth foesegol, gan sicrhau nad yw'r fath ymchwil yn mynd yn ei blaen heb ystyriaeth a chymeradwyaeth foesegol briodol a bod myfyrwyr yn cael eu harfogi a'u cefnogi'n ddigonol i sicrhau cywirdeb a gonestrwydd moesegol ym mhob agwedd ar yr ymchwil. Mae Pwyllgorau Moeseg Ymchwil y Colegau'n gyfrifol am sicrhau y cynhelir ymchwil gan fyfyrwyr yn unol â'r Fframwaith hwn.

Gall heriau penodol godi o ran ymchwil myfyrwyr wrth ystyried adolygiad moesegol, oherwydd nifer uchel, amserlen fer, cwmpas cyfyngedig, ac amrywiaeth y prosiectau dan sylw. Bydd gwybodaeth, profiad a gallu myfyrwyr yn amrywio'n sylweddol hefyd. Felly, dylai Pwyllgorau Moeseg Ymchwil y Colegau osod gweithdrefnau penodol am adolygu prosiectau ymchwil gan fyfyrwyr israddedig a myfyrwyr ar gyrsiau ôl-raddedig a addysgir, ar yr amod bod y fath weithdrefnau'n ddigon cadarn i sicrhau y cynhelir ymchwil y myfyrwyr gyda chywirdeb ac i safon foesegol uchel. Er enghraifft, mae Fframwaith Moeseg Ymchwil y Cyngor Ymchwil Economaidd a Chymdeithasol (a ddiweddarwyd yn Ionawr 2015) yn nodi bod modd, yn aml iawn, rheoli ymchwil myfyrwyr ar lefel y pwnc neu'r adran, a'i goruchwylio trwy bwyllgor moeseg llai beichus ar lefel y pwnc neu'r adran, gan gyfeirio prosiectau ar gyfer adolygiad moesegol llawn pan fo hynny'n addas. Gall protocolau sefydledig ar gyfer ymchwil sy'n digwydd yn aml hwyluso'r broses adolygu. Mewn rhai achosion, gellir cyfyngu'n sylweddol ar ymchwil myfyrwyr (er enghraifft ei chyfyngu i brotocolau sydd wedi'u cymeradwyo ymlaen llaw, neu wedi'u gosod yn gyfan gwbl gan y goruchwyliwr neu gydlynydd y modiwl) neu hyd yn oed eu gwahardd (er enghraifft ymchwil gyda phlant neu grwpiau sy'n agored i niwed, neu ymchwil heb gydsyniad gwybodus). Dylid bob amser craffu'n ofalus o safbwynt moesegol ar unrhyw ymchwil sy'n ymwneud â materion sensitif (er enghraifft cam-drin plant, trais domestig, profedigaeth, sefydliadau terfysg), ymchwil lle mae'r gwrthrychau'n agored i niwed, ac ymchwil sy'n creu perygl i'r ymchwilydd neu i bobl eraill (er enghraifft, casglu data hwyr y nos, ymchwilio ar wefannau sensitif o ran diogelwch).

Mae myfyrwyr yn gyfrifol, fel unigolion, o dan y Ddeddf Diogelu Data am wybodaeth bersonol a ddefnyddir yn eu hastudiaethau. Caiff myfyrwyr fynd â gwybodaeth bersonol a gasglwyd ganddynt yn ystod eu hymchwil pan fyddant yn gadael, oni chynhaliwyd yr ymchwil yn rhan o brosiect ymchwil sefydliadol yr oedd y myfyriwr yn rhan ohono, neu oni fydd y cytundeb gyda'r arianwyr neu'r noddwyr yn gofyn nad yw hynny'n digwydd. Atgoffir myfyrwyr bod yn rhaid iddynt barhau i fodloni gofynion y Ddeddf Diogelu Data a gofynion cyfreithiol a moesegol eraill wrth ddefnyddio'r data. (Gweler Adran I am ragor o fanylion.)

Pan fydd myfyriwr (boed yn fyfyriwr israddedig neu'n fyfyriwr ôl-raddedig) yn gwneud ymchwil, rhaid iddo fod â goruchwyliwr ymchwil dynodedig. Mewn amgylchiadau addas, gall cydlynydd y modiwl gyflawni'r rôl hon. Dylai goruchwylwyr weithio'n agos â'u myfyrwyr wrth ystyried agweddau moesegol ar yr ymchwil arfaethedig, yn unol â'r Fframwaith hwn. Mae hyn yn arbennig o bwysig ar gyfer prosiectau ymchwil myfyrwyr israddedig a myfyrwyr ôl-raddedig a addysgir (er enghraifft Traethodau Hir), yn ogystal â myfyrwyr ymchwil ôl-raddedig.

Cyfrifoldeb goruchwyliwr yr ymchwil yw hysbysu myfyrwyr am yr amgylchiadau lle mae angen adolygiad moesegol o'u hymchwil, a hefyd am y broses i'w dilyn.
Dylid egluro'r broses adolygiad moesegol i'r myfyriwr, a dylid darparu cymorth iddo trwy gydol y broses o geisio cymeradwyaeth foesegol ar gyfer yr ymchwil. Gan y gall y broses gymryd peth amser, dylai'r goruchwyliwr a'r myfyriwr gytuno amserlen ar gyfer cwblhau'r gwaith sydd ei angen er mwyn ceisio cymeradwyaeth foesegol. Dylid cadw dyddiadau cau ar gyfer cyflwyno gwaith y myfyriwr mewn cof wrth lunio'r broses.

Dylid llunio unrhyw gais am gymeradwyaeth foesegol gyda chymorth a chyngor y goruchwyliwr, a ddylai hefyd lofnodi'r cais am gymeradwyaeth foesegol cyn ei gyflwyno i Bwyllgor Moeseg a Llywodraethu Ymchwil y Coleg perthnasol.

Ar ôl cyflwyno'r cais am gymeradwyaeth foesegol, dylai'r myfyriwr a'r goruchwyliwr dderbyn ymateb prydlon a chlir gan y Pwyllgor. Lle mae angen rhagor o waith ar y cais cyn y gellir ei gymeradwyo, dylid rhoi manylion clir i'r myfyriwr a'r goruchwyliwr ynghylch y gwallau yn y cais a sut y gellid mynd i'r afael â nhw cyn bod modd cymeradwyo'r cais.

Lle mae gofyn bod y cais yn cael adolygiad moesegol allanol (er enghraifft trwy IRAS https://www.myresearchproject.org.uk/), dylid cynnal adolygiad moesegol mewnol yn gyntaf.

Os bydd myfyrwyr yn cynnal ymchwil y tu allan i'r Deyrnas Unedig, dylid ceisio cymeradwyaeth foesegol yn fewnol yn gyntaf, trwy Bwyllgor Moeseg Ymchwil y Coleg perthnasol. Mae'n bosibl y bydd angen ceisio cymeradwyaeth yn y wlad lle cynhelir yr ymchwil (er enghraifft lle cesglir y data) hefyd. Os bydd unrhyw wrthdaro rhwng gofynion Prifysgol Abertawe a gofynion lleol, gofynion Prifysgol Abertawe gaiff y flaenoriaeth.

Dylai Colegau sicrhau bod eu rhaglenni hyfforddiant yn cynnwys yr amrediad o faterion a drafodir yn y Fframwaith hwn, fel bod myfyrwyr yn mabwysiadu diwylliant moesegol ar gychwyn eu gyrfa ymchwil. Dylai cywirdeb ymchwil a moeseg ymchwil fod yn rhan gynhenid o raglen myfyriwr.

Rhaid sicrhau bod pob myfyriwr sy'n cynnal ymchwil yn gyfarwydd ag egwyddorion ac arferion priodol o ran cywirdeb, moeseg a llywodraethu ymchwil yn rhan o'i hyfforddiant ymchwil. Yn achos myfyrwyr ymchwil ôl-raddedig, mae'n debyg y gwneir hyn trwy gyfuniad o hyfforddiant penodol i'r pwnc, goruchwylio, a Rhaglen Datblygu Sgiliau Ymchwil y Brifysgol. Yn achos myfyrwyr eraill, mae'n debyg o fod yn rhan gynhenid o'u modiwlau, ac o gael ei atgyfnerthu yn ystod y broses oruchwylio.

Lle mae ymchwil gan fyfyrwyr yn arwain at gyhoeddi - mewn cyfnodolyn academaidd, er enghraifft - ni ddylid tramgwyddo yn erbyn egwyddorion moeseg cyhoeddi (er enghraifft o ran y meini prawf ar gyfer awduriaeth). Am ragor o gyfarwyddyd, gweler, er enghraifft: http://exchanges.wiley.com/ethicsguidelines

Dylai myfyrwyr ddatgan unrhyw wrthdaro buddiannau sy'n berthnasol i'w hymchwil (er enghraifft myfyriwr yn ymchwilio i sefydliad lle mae hefyd yn cael ei gyflogi), a dylai eu

goruchwylwyr wneud yr un peth.

Trinnir unrhyw gamymddwyn honedig, neu a amheuir, gan fyfyriwr wrth gynnal neu adrodd ar ei ymchwil o dan y prosesau ymchwilio a disgyblu perthnasol.

**Dyletswydd gofal tuag at fyfyriwr sy'n gwneud ymchwil**

Gall rhai mathau o ymchwil roi'r ymchwilydd ei hun mewn sefyllfa lle mae'n agored i niwed, neu le mae perygl o niwed neu sarhad oddi wrth gyfranogwyr. Hefyd, gallai ymchwil ar fater sensitif, neu le mae cyfranogwyr wedi datgelu gwybodaeth drallodus, beri trallod i'r ymchwilydd. Felly, mae angen ystyried diogelwch yr ymchwilydd hefyd.

Mae perthynas rhwng y Brifysgol a'r myfyriwr, ac mae'n debyg bod y berthynas yn ddigon agos i greu dyletswydd gofal; a dylai'r Brifysgol weithredu ar y rhagdybiaeth bod hyn yn wir.

Yn rhan o'r ddyletswydd, mae angen i'r Brifysgol sicrhau rhoi'r pwyslais pennaf ar iechyd a lles y myfyriwr. Mae hyn yn cynnwys sicrhau nad yw'r myfyriwr yn dioddef unrhyw niwed seiciatrig, effaith feddyliol negyddol neu drallod o ganlyniad i wneud ei ymchwil, er enghraifft trwy weld delweddau trallodus.

Mae'r Brifysgol yn cynghori tiwtoriaid academaidd y dylent "gynnig lefel oruchwylio sy'n addas ar gyfer y gwaith a'r myfyrwyr, yn seiliedig ar asesiad risg. Yn achos prosiectau myfyrwyr, dylai'r tiwtor drefnu asesiad risg a chytuno a chofnodi safonau perthnasol, arweiniad a chyfarwyddiadau lleol". Rhaid i fyfyrwyr dderbyn y cyfrifoldeb am eu hiechyd a diogelwch eu hunain.

**POLISI PRIFYSGOL ABERTAWE AR EIDDO DEALLUSOL A GRËIR GAN FYFYRWYR**

1. **CYFLWYNIAD A DIFFINIAD TERMAU**

**1.1.** Mae'r ddogfen hon yn amlygu polisi a rheolau Prifysgol Abertawe o ran perchnogaeth Eiddo Deallusol a grëir gan fyfyrwyr y Brifysgol.

***1.2. Oni chânt eu diffinio'n wahanol yn y ddogfen hon, caiff geiriau a ddiffinnir yn y "Polisi Eiddo Deallusol" neu'r "Gweithdrefnau am Roi'r Polisi Eiddo Deallusol ar waith" yr un ystyr yn y polisi hwn.***

**1.3. "Gweithdrefnau"** yw gweithdrefnau Prifysgol Abertawe am roi'r Polisi Eiddo Deallusol ar waith.

**1.4. "Polisi Eiddo Deallusol Staff"** yw Polisi Eiddo Deallusol Prifysgol Abertawe, fel y'i diwygir o bryd i'w gilydd.

**1.5. "Myfyriwr"** yw unrhyw unigolyn sydd wedi cofrestru'n fyfyriwr israddedig neu'n fyfyriwr ôl-raddedig neu'n dilyn unrhyw gwrs yn fyfyriwr.

**1.6. "Polisi Eiddo Deallusol Myfyrwyr"** yw'r polisi hwn.

2. **EGWYDDORION CYFFREDINOL**

Yr egwyddorion cyffredinol sy'n tanategu'r polisi hwn yw:

**2.1.** Bydd Eiddo Deallusol a grëir gan fyfyriwr yn eiddo i'r myfyriwr hwnnw, ac eithrio yn achos amgylchiadau eithriadol yn unol â chynnwys y polisi hwn.

**2.2.** Mewn achos lle mai'r Brifysgol sydd biau Eiddo Deallusol a grëwyd gan fyfyriwr, bydd gan y myfyriwr a'r Brifysgol hawl i gyfran deg o'r elw masnachol.

**2.3.** Ym mhob achos, bydd perchnogaeth Eiddo Deallusol a grëir gan fyfyriwr yn amodol ar hawliau unrhyw drydydd parti sy'n noddi'r gweithgarwch sy'n arwain at greu'r Eiddo Deallusol.

3. **PERCHNOGAETH EIDDO DEALLUSOL HEBLAW AM HAWLFRAINT A GRËIR GAN FYFYRIWR**

Pan fydd myfyriwr sy'n gweithredu fel aelod o staff yn creu Eiddo Deallusol, y Polisi Eiddo Deallusol Staff yw'r polisi sydd yn ddilys. Yn amodol ar hynny, mae'r rheolau canlynol yn berthnasol.

4. **Myfyrwyr Israddedig**

**4.1.** Bydd Eiddo Deallusol a grëir gan fyfyriwr israddedig yn eiddo i'r myfyriwr oni chrëir yr Eiddo Deallusol yn rhan o brosiect a ariannwyd neu a gomisiynwyd yn benodol gan y Brifysgol neu drydydd parti, neu os bydd y myfyriwr yn gwneud defnydd sylweddol o adnoddau'r Brifysgol i greu'r Eiddo Deallusol. Yn y cyd-destun hwn, ystyr "defnydd sylweddol o adnoddau'r Brifysgol" yw bod y myfyriwr wedi defnyddio adnoddau i raddau mwy na sy'n arferol neu a ddisgwylir i fyfyriwr israddedig ei wneud, ac mae "Adnoddau'r Brifysgol" yn cynnwys goruchwylio deallusol, adnoddau dynol, cyfleusterau labordai neu gyfrifiaduron, Eiddo Deallusol cefndirol y Brifysgol, neu adnoddau eraill.

**4.2.** Cyfarwyddwr yr Adran Ymchwil ac Arloesi (neu rywun arall a benodir i'r diben gan yr Is-ganghellor), mewn ymgynghoriad â Phennaeth y Coleg, goruchwyliwr y myfyriwr, a'r myfyriwr fydd yn penderfynu a gafwyd defnydd sylweddol o adnoddau'r Brifysgol. Os nad oes cytundeb, mae Cymal 10 yn ddilys.

5. **Myfyrwyr Ôl-raddedig**

**5.1.** Yn absenoldeb ffactorau eraill, ni thybir bod myfyriwr ôl-raddedig yn aelod o staff y Brifysgol.

**5.2.** Yn aml, mae gofyn i fyfyriwr ôl-raddedig ymwneud ag ymchwil neu weithgarwch ymgynghori'n rhan o'i astudiaethau ("Gweithgarwch Ymchwil"). Yn amod o gymryd rhan yn y fath weithgarwch:

**5.2.1.** Rhaid i'r myfyriwr ôl-raddedig lofnodi cytundeb ysgrifenedig sy'n amlygu perchnogaeth a defnydd Eiddo Deallusol a grëir yn rhan o'r gweithgarwch ymchwil. Bydd y cytundeb yn deg ac yn rhesymol gan ystyried yr holl ffactorau perthnasol, gan gynnwys (ond heb fod yn gyfyngedig i) a yw'r myfyriwr ôl-raddedig yn dod ag Eiddo Deallusol cefndirol sylweddol i'r prosiect, neu'n ei ariannu ei hun. Yn absenoldeb cytundeb o'r fath, y Brifysgol fydd biau'r Eiddo Deallusol fel y gall gydymffurfio ag unrhyw amodau'r ariannu.

**5.2.2.** Ym mhob achos lle ariennir gweithgarwch ymchwil gan drydydd parti, rhaid i'r myfyriwr ôl-raddedig dderbyn cynnwys y cytundeb ymchwil rhwng y Brifysgol a'r trydydd parti o ran Eiddo Deallusol a chyfrinachedd. Bydd y Prif Ymchwilydd yn hysbysu'r myfyriwr sy'n gweithio ar y prosiect dan sylw am unrhyw ofynion y noddwr o ran perchnogaeth Eiddo Deallusol.

**5.2.3.** Rhaid i'r myfyriwr ôl-raddedig beidio â datgelu unrhyw wybodaeth gyfrinachol neu fasnachol-sensitif sy'n eiddo i'r Brifysgol neu drydydd parti, a thybir ei fod wedi cydsynio i unrhyw ymrwymiad o ran cyfrinachedd a bennwyd gan drydydd parti perthnasol.

**5.2.4.** Rhaid i'r myfyriwr ôl-raddedig ymddwyn mewn ffordd sy'n gwbl gyson â dyletswyddau'r Brifysgol o ran y gweithgarwch ymchwil; rhaid iddo gydymffurfio â'r holl amodau contract perthnasol, a thybir ei fod wedi cydsynio i'r holl ofynion a roddwyd arno gan y cytundeb

ymchwil, gan gynnwys y rhai sy'n ymwneud â chyfrinachedd a pherchnogaeth Eiddo Deallusol.

**5.2.5.** Bydd y myfyriwr ôl-raddedig yn llofnodi'r holl ddogfennau, a chymryd unrhyw gamau rhesymol eraill ar draul y Brifysgol neu drydydd parti, sydd eu hangen er mwyn cadarnhau perchnogaeth y Brifysgol neu'r trydydd parti o unrhyw Eiddo Deallusol.

**5.3.** Bydd y Brifysgol yn cyfeirio at y Polisi Eiddo Deallusol Myfyrwyr mewn modd addas mewn dogfennau recriwtio, a bydd yn cyhoeddi'r Polisi yn y llawlyfr i fyfyrwyr.

**5.4.** Bydd raid i fyfyriwr ôl-raddedig sy'n cofrestru ar raglen gradd ôl-raddedig gwblhau a llofnodi ffurflen, lle mae'n:

**5.4.1.** Cydnabod a derbyn cynnwys y Polisi Eiddo Deallusol Myfyrwyr hwn.

**5.4.2.** Cytuno i ddatgelu unrhyw waith dyfeisio sydd ar y gweill ganddo, neu Eiddo Deallusol sy'n berthnasol i'r gweithgarwch ymchwil y bydd yn ymwneud ag a, gan gynnwys datgelu manylion unrhyw drydydd parti a allai fod â hawl dros yr Eiddo Deallusol hwnnw.

**5.4.3.** Yn derbyn ac yn cytuno i lynu wrth yr amodau cyfrinachedd a bennir gan drydydd parti sy'n noddi'r gweithgarwch ymchwil y bydd y myfyriwr yn ymwneud ag e, ac yn ymrwymo i beidio â datgelu gwybodaeth gyfrinachol neu fasnachol-sensitif y Brifysgol.

**5.4.4.** Cytuno i ddatgelu unrhyw Eiddo Deallusol y bydd yn ei greu yn ystod y gweithgarwch ymchwil.

**5.4.5.** Cytuno i wneud ymholiadau perthnasol am ofynion y Brifysgol neu noddwr y prosiect ymchwil y bydd yn ymwneud ag e.

**5.4.6.** Cytuno i lofnodi cytundeb ysgrifenedig gyda'r Brifysgol o ran perchnogaeth a defnydd unrhyw Eiddo Deallusol y bydd yn ei greu'n rhan o'r gweithgarwch ymchwil.

**5.5.** Cyfrifoldeb pob Prif Ymchwilydd yw sicrhau cytundeb Eiddo Deallusol rhwng unrhyw fyfyriwr ôl-raddedig a'r Brifysgol. Bydd yr Adran Ymchwil ac Arloesi'n darparu templed i'r Colegau, a chymeradwyo unrhyw gytundeb penodol a wneir gyda'r myfyriwr.

6. **DYSGU YN Y GWEITHLE**.

Bydd Eiddo Deallusol a grëir gan fyfyriwr yn rhan o brofiad dysgu yn y gweithle yn eiddo i'r cwmni sy'n cynnig y profiad gwaith, oni fydd y myfyriwr a'r cwmni'n cytuno fel arall.

7. **PERCHNOGAETH HAWLFRAINT**

**7.1.** Y rheol gyffredinol yw mai'r myfyriwr sydd biau hawlfraint unrhyw ddeunydd, megis traethawd ymchwil neu ddeunydd arall ar gyfer gwaith cwrs, a ysgrifennwyd ganddo. Bydd gan y Brifysgol hawl llwyr (1) i ddefnyddio'r deunydd at eu dibenion mewnol ei

hun o ganfod llên-ladrad neu dwyllo, a (2) i reoli'r deunydd ar gyfryngau electronig ar wefannau'r Brifysgol.

**7.2.** Caiff y Brifysgol ddefnyddio'r deunydd, at ddibenion heblaw'r rhai a nodwyd yng Nghymal 4.1, gyda chydsyniad y myfyriwr.

**7.3.** Os bydd myfyriwr yn cynhyrchu deunydd ysgrifenedig (gan gynnwys traethawd ymchwil) yn rhan o brosiect a noddwyd gan drydydd parti, neu os comisiynir y deunydd yn benodol gan y Brifysgol, y Brifysgol neu'r trydydd parti fydd biau'r hawlfraint yn absenoldeb cytundeb i'r gwrthwyneb. Golyga hyn:

**7.4.** Pennir gofynion cyfrinachedd, cyfyngiadau ar yr hawl i gyhoeddi, a chyfyngiadau ar fynediad at y traethawd ymchwil neu ddogfennau eraill yn unol ag unrhyw ofynion yn y contract rhwng y Brifysgol a thrydydd parti.

**7.5.** Y Brifysgol neu'r trydydd parti fydd biau hawlfraint meddalwedd a ddefnyddir gan y Brifysgol a hawlfraint sy'n annatod i Eiddo Deallusol arall sy'n eiddo i'r Brifysgol neu i'r trydydd parti.

**7.6.** Os bydd hawlfraint deunydd a gynhyrchir gan y myfyriwr yn unol â'r polisi hwn yn eiddo i'r Brifysgol neu drydydd parti, bydd y myfyriwr yn ildio unrhyw hawl foesol i'r gwaith.

**7.7.** Ar draul y Brifysgol, bydd myfyriwr yn llofnodi unrhyw ddogfen a chymryd unrhyw gam rhesymol arall fel bo angen i gadarnhau mae'r Brifysgol neu'r trydydd parti sydd biau Eiddo Deallusol lle mae'r fath berchnogaeth yn ofyniad dan y polisi hwn.

**7.8.** Er ei bod yn bosibl mai'r myfyriwr sydd biau hawlfraint deunydd y mae wedi'i lunio, rhaid i'r myfyriwr gydymffurfio â rheoliadau'r Brifysgol o ran llên-ladrad, ac ni fydd, yn ymwybodol neu o fwriad, yn cynorthwyo neb arall i gyflawni llên-ladrad trwy ganiatáu i bobl eraill ddefnyddio ei ddeunydd.

## 8. RHANNU REFENIW

**8.1.** Ym mhob sefyllfa lle mae myfyriwr wedi creu Eiddo Deallusol sy'n cael ei fasnacheiddio gan y Brifysgol, bydd gan y Brifysgol hawl i rannu'r elw fel petai'n aelod o staff.

**8.2.** Mewn achos o'r fath, bydd y rheolau a'r gweithdrefnau'n ymwneud â rhannu refeniw a amlygir yn y Polisi Eiddo Deallusol Staff yn berthnasol i'r myfyriwr.

## 9. YMWADIADAU

Caiff y Brifysgol, yn unol â'r Gweithdrefnau, gyhoeddi ymwadiad ynghylch perchnogaeth Eiddo Deallusol mewn achosion addas neu ddarparu am drwyddedu neu drosglwyddo'r Eiddo Deallusol i'r myfyriwr neu fyfyrwyr a'i creodd.

10. **DATRYS ANGHYDFOD YN FEWNOL**

Os bydd myfyriwr yn anghytuno â phenderfyniad y Cyfarwyddwr, caiff apelio i bwyllgor sy'n cynnwys y Cofrestrydd (neu rywun arall a ddirprwyir gan yr Is-ganghellor) fydd yn cadeirio'r pwyllgor, Pennaeth y Coleg oedd yn gweinyddu'r prosiect lle crëwyd yr Eiddo Deallusol, ac aelod o staff neu fyfyriwr wedi'i enwebu gan y myfyriwr. Bydd penderfyniad y pwyllgor yn derfynol.

11. **CYFLAFAREDDU**

Ar ôl i'r pwyllgor a nodwyd yng Nghymal 10 ddod i benderfyniad, os bydd y myfyriwr yn honni nad yw'r Brifysgol wedi cydymffurfio â'r Polisi Eiddo Deallusol Myfyrwyr, caiff ofyn i'r mater gael ei ddatrys gan gyflafareddwr. Dylai'r Brifysgol a'r myfyriwr gytuno ar y cyflafareddwr. Os na allant ddod i gytundeb o fewn mis calendr ar ôl y cais am gyflafareddu, penodir cyflafareddwr gan Lywydd Cymdeithas y Gyfraith yng Nghymru a Lloegr. Cynhelir y cyflafareddu yn Abertawe yn unol â chyfraith Cymru a Lloegr. Bydd penderfyniad y cyflafareddwr yn rhwymo'r Brifysgol a'r myfyriwr, a thelir y costau fel y bydd y cyflafareddwr yn pennu. Er gwaethaf cynnwys y cymal hwn, mae gan y Brifysgol a'r myfyriwr hawl i ddod ag achos o flaen llys er mwyn ceisio iawndal gorfodol neu ddatganiadol, neu i geisio canlyniad nad yw ar gael trwy gyflafareddu.

**RHOI AR WAITH**

**11.1.** Bydd gan y Cofrestrydd awdurdod a disgresiwn eang o fewn terfynau (1) Siarter y Brifysgol ac unrhyw Reoliadau, Deddfiadau neu ddarpariaethau eraill y Cyngor, (2) y Polisi Eiddo Deallusol, a (3) unrhyw gyfarwyddyd a roddir gan, neu ar ran, yr Is-ganghellor, i addasu prosesau gweinyddol fel bo angen er mwyn rhoi'r Polisi hwn ar waith yn effeithiol.

**11.2.** Bydd Grŵp Eiddo Deallusol Abertawe o fewn yr Adran Ymchwil ac Arloesi yn cyhoeddi canllawiau a dehongliadau, a phennu gweithdrefnau a dogfennau, fel bo angen i roi'r polisi hwn ar waith.

**Adran R**

## HYFFORDDIANT AR LYWODRAETHU YMCHWIL

Yn unol â'i chyfrifoldebau o dan y Concordat Cynnal Cywirdeb Ymchwil (2012, t.14), mae'r Brifysgol wedi ymrwymo i ddarparu hyfforddiant i staff a myfyrwyr sy'n ymwneud ag ymchwil er mwyn cynnal rhagoriaeth o ran cywirdeb ymchwil.

Dylai'r holl staff sy'n ymwneud ag ymchwil, ac â goruchwylio ymchwil myfyrwyr, dderbyn hyfforddiant perthnasol mewn cywirdeb, moeseg, a llywodraethu ymchwil, a dylent fod â dealltwriaeth ymarferol am y Fframwaith hwn.

Mae disgwyl y bydd Prif Ymchwilydd neu ymchwilydd arweiniol unrhyw brosiect yn gyfrifol am annog holl aelodau'r tîm ymchwil i ddatblygu eu sgiliau, ac am arwain a meithrin cyfnewid agored o ran syniadau ymchwil. Rhaid iddo hefyd sicrhau rhoi cyfarwyddyd a goruchwylio priodol ar bob cam o'r broses ymchwil, gan gynnwys paratoi ceisiadau am ariannu yn unol â rheoliadau'r Brifysgol, casglu data, cadw data, dadansoddi data, a chyhoeddi a lledaenu'r data.

Rhaid i bob ymchwilydd gymryd camau rhesymol i sicrhau ei fod yn ddigon ymwybodol o'r holl ymrwymiadau moesegol, moesol a chyfreithiol a gofynion y noddwr a'r sefydliad er mwyn gallu cydymffurfio.

Rhaid sicrhau bod pob myfyriwr sy'n cynnal ymchwil yn gyfarwydd ag egwyddorion ac arferion priodol o ran cywirdeb, moeseg a llywodraethu ymchwil yn rhan o'i hyfforddiant ymchwil. Yn achos myfyrwyr ymchwil ôl-raddedig, mae'n debyg y gwneir hyn trwy gyfuniad o hyfforddiant penodol i'r pwnc, goruchwylio, a Rhaglen Datblygu Sgiliau Ymchwil y Brifysgol. Yn achos myfyrwyr eraill, mae'n debyg y caiff hyn ei ymgorffori yn eu modiwlau, a'i gadarnhau trwy oruchwylio.

Dylai ymchwilwyr sicrhau eu bod yn meddu ar y sgiliau, hyfforddiant ac adnoddau sydd eu hangen er mwyn cynnal ymchwil i'r safon ofynnol, a dylent sicrhau cau unrhyw fwlch trwy geisio hyfforddiant perthnasol. Mae'r fath hyfforddiant ar gael i'r holl staff ymchwil newydd yn rhan o'r broses sefydlu staff. Mae'n hanfodol i aelodau Pwyllgorau Moeseg Ymchwil y Colegau fynd i'r sesiynau hyfforddi hyn, a bod Cadeiryddion y Pwyllgorau'n cael cyfleoedd rheolaidd ar gyfer hyfforddiant a datblygu proffesiynol.

Dylai sesiynau hyfforddi a ddarperir gan y Brifysgol a'r Colegau gynnwys yr agweddau amrywiol o'r Fframwaith hwn, gan gynnwys:

- egwyddorion moeseg ymchwil (er enghraifft moeseg cyhoeddi a chydsyniad gwybodus);
- agweddau perthnasol ar y gyfraith (er enghraifft o ran diogelu data);
- cyfarwyddyd ar reoli data (er enghraifft cadw data'n ddiogel);
- cyfarwyddyd ar y prosesau ceisio cymeradwyaeth foesegol, o fewn y Brifysgol ac yn allanol (er enghraifft trwy'r System Ymgeisio Integredig ar gyfer Gwaith Ymchwil);
- cyfarwyddyd am yswiriant a nawdd;
- cyfarwyddyd am drin gwrthdrawiad buddiannau; a

- gweithdrefnau ar gyfer trin camymddwyn ymchwil.

Mae'r Brifysgol wedi ymrwymo i ddarparu sesiynau diweddaru rheolaidd ar gywirdeb ymchwil, moeseg a llywodraethu wrth i gyfarwyddyd a dogfennau newydd perthnasol ddod i'r amlwg. Lle bo angen, ac wrth ymgynghori â Phwyllgorau Moeseg Ymchwil y Colegau, cynhelir digwyddiadau hyfforddi penodol i ddisgyblaeth hefyd.

## Rhestr Wirio a argymhellir i ymchwilwyr gan Swyddfa Ymchwil a Chywirdeb y Deyrnas Unedig

Mae'r Rhestr Wirio'n nodi'r holl bwyntiau arfer da mewn ymchwil sy'n berthnasol i brosiect ymchwil ac mae'n ddilys ar gyfer pob maes pwnc. Mae fersiwn pdf ar gael yn www.ukrio.org.

*(Cyn cynnal eich ymchwil, ac o gofio y gall rolau a swyddogaethau newid yn ystod cyfnod yr ymchwil, yn unol â gofynion cyfreithiol a moesegol):*

1. Ydy'r ymchwil arfaethedig yn mynd i'r afael â chwestiynau perthnasol, ac a gynlluniwyd yr ymchwil i ychwanegu at wybodaeth gyfredol am y pwnc dan sylw neu i ddatblygu dulliau ymchwilio iddo?

2. Ydy dyluniad yr ymchwil yn berthnasol i'r cwestiwn (neu'r cwestiynau) sy'n cael ei ofyn?

3. A fydd yr holl sgiliau ac adnoddau sydd eu hangen ar gael i chi i gynnal yr ymchwil?

4. Ydych chi wedi cynnal asesiad risg i nodi:

- Oes unrhyw broblem foesegol, ac oes angen adolygiad moesegol;
- Y risgiau potensial i'r sefydliad, i'r ymchwil neu i iechyd, diogelwch neu les yr ymchwilwyr a gwrthrychau'r ymchwil; a
- Beth yw'r gofynion cyfreithiol sy'n rheoli'r ymchwil?

5. Fydd eich ymchwil yn cydymffurfio â'r holl ofynion cyfreithiol a moesegol, a'r holl ganllawiau perthnasol eraill, gan gynnwys gofynion sefydliadau eraill a gwledydd eraill lle bo'n berthnasol?

6. Fydd eich ymchwil yn cydymffurfio â holl ofynion y ddeddfwriaeth ac arfer da o ran iechyd a diogelwch?

7. A wnaed unrhyw adolygiad moesegol angenrheidiol (gweler rhif 4 uchod), yn arbennig os bydd yr ymchwil yn defnyddio anifeiliaid, cyfranogwyr dynol, deunydd dynol, neu wybodaeth bersonol?

8. Fydd eich ymchwil yn cydymffurfio ag unrhyw ofynion monitro neu archwilio?

9. Ydych chi'n cydymffurfio ag unrhyw gontractau neu ganllawiau ariannol sy'n berthnasol i'r prosiect?

10. Ydych chi wedi trefnu cytundeb ynghylch eiddo deallusol, cyhoeddi ac awduriaeth?

11. Ydych chi wedi cytuno gwaith cydweithredol, lle bo'n berthnasol?

12. Ydych chi wedi cytuno rôl ymchwilwyr a chyfrifoldebau rheoli a goruchwylio?

13. Ydy'r holl wrthdrawiadau buddiannau sy'n ymwneud â'ch ymchwil wedi'u nodi a'u datgelu, ac a ydych chi wedi mynd i'r afael â nhw?

14 Ydych chi'n ymwybodol o'r cyfarwyddyd gan bob sefydliad perthnasol am gamymddwyn ymchwil?

**Wrth gynnal eich ymchwil:**

- Ydych chi'n glynu wrth y dyluniad ymchwil a gytunwyd ar gyfer y prosiect?
- Ydy unrhyw newidiadau i'r dyluniad ymchwil a gytunwyd wedi cael eu hadolygu a'u cymeradwyo lle bo'n berthnasol?
- Ydych chi'n dilyn arfer gorau ar gyfer casglu, storio a rheoli data?
- Ydy'r swyddogaethau a gytunwyd ar gyfer rheoli a goruchwylio yn cael eu cyflawni?
- Ydy'ch ymchwil yn cydymffurfio ag unrhyw ofynion monitro neu archwilio?

**Wrth orffen eich ymchwil:**

- Gaiff eich ymchwil a'i chanfyddiadau eu hadrodd yn gywir, yn onest ac o fewn amserlen resymol?
- Gaiff pob cyfraniad i'r ymchwil ei gydnabod?
- A gydymffurfir â'r cytundebau o ran eiddo deallusol, cyhoeddi ac awduraeth?
- Gaiff data ymchwil eu cadw mewn modd diogel a hygyrch am y cyfnod gofynnol?
- Fydd eich ymchwil yn cydymffurfio â'r holl ofynion cyfreithiol, moesegol a chontract?

**Atodiad 1**

**Cydnabyddiaethau:**

Hoffai Prifysgol Abertawe gydnabod â diolch ei bod wedi defnyddio a mabwysiadu polisïau a chanllawiau gwaith a wnaed gan sefydliadau eraill wrth lunio'r Fframwaith hwn, gan gynnwys:

1.**Prifysgol Aberdeen**
http://www.abdn.ac.uk/staffnet/documents/Res-Gov-Handbook-April-2014.pdf

2. **Prifysgol Caerdydd**
http://www.cardiff.ac.uk/racdv/resgov/Research%20Governance%20at%20CU/research-governance-at-cu.html

3. **Prifysgol Dinas Llundain**
http://www.city.ac.uk/health/research/research-governance

4. **Prifysgol Rhydychen**
http://researchdata.ox.ac.uk/university-of-oxford-policy-on-the-management-of-research-data-and-records/

5.**Prifysgol Llundain**
http://www.london.ac.uk/fileadmin/documents/foi/RM_guidance_-Research_data.pdf

6. **Prifysgol Bryste** – *Research Governance & Integrity Policy*.
http://www.bristol.ac.uk/media-library/sites/red/migrated/documents/rgi.pdf

7. **Prifysgol Sheffield** – Research Ethics: General Principles and Statements.
http://www.sheffield.ac.uk/polopoly_fs/1.112642!/file/Full-Ethics-Policy.pdf

8. **Prifysgol y Frenhines, Belffast** – *Research Governance Framework*.

9. **Prifysgol Eglwys Crist, Caergaint**- *University Research Governance Framework*

10. **Ysgol Astudiaethau Dwyreiniol ac Affricanaidd (Llundain) –** *Using Personal Data in Research.*
https://www.soas.ac.uk/infocomp/dpa/dparesearch/file49912.pdf

11. **Swyddfa Ymchwil a Chywirdeb y Deyrnas Unedig** (www.ukrio.org)
*Code of Practice for Research: Promoting good practice and preventing misconduct*
http://www.ukrio.org/wp-content/uploads/UKRIO-Code-of-Practice-for-Research.pdf

12. **Gweithdrefn Ymchwilio i Gamymddwyn Ymchwil**
http://www.ukrio.org/what-we-do/procedure-for-the-investigation-of-misconductin -research/

13.**Datganiad Singapôr ar Gywirdeb Ymchwil**
*Datganiad Singapôr ar Gywirdeb Ymchwil*

http://www.singaporestatement.org/

14. **Sefydliad Gwyddoniaeth Ewrop** (www.esf.org)
*European Code of Conduct for Research Integrity*
http://www.esf.org/activities/mo-fora/research-integrity.html

15. **Swyddfa Gwyddoniaeth y Llywodraeth** (www.bis.gov.uk/go-science)
*Rigour, Respect, Responsibility: a Universal Ethical Code for Scientists*
http://www.bis.gov.uk/assets/goscience/docs/u/universal-ethical-code-scientists.pdf

16. **Cynghorau Ymchwil y Deyrnas Unedig (www.rcuk.ac.uk)**
RCUK Policy and Guidelines on Governance of Good Research
http://www.rcuk.ac.uk/RCUK-prod/assets/documents/reviews/grc/RCUKPolicyandGuidelinesonGovernanceofGoodResearchPracticeFebruary2013.pdf

17.**Concordat Cynnal Cywirdeb Ymchwil Prifysgolion y Deyrnas Unedig**
(http://www.universitiesuk.ac.uk/highereducation/Pages/Theconcordattosupportresearchintegrity.aspx

**ATODIAD 2**

**Adnoddau defnyddiol:**

Am ragor o arweiniad manwl mae'r dolenni canlynol yn darparu gwybodaeth ddefnyddiol.

- Datganiad Helsinki Cymdeithas Meddygaeth y Byd http://www.wma.net/en/20activities/10ethics/10helsinki
- Gwasanaeth Moeseg Ymchwil Cenedlaethol http://nres.nhs.uk/
- Awdurdod Ymchwil Iechyd y GIG http://www.hra.nhs.uk
- Asiantaeth Rheoleiddio Meddyginiaethau a Chynhyrchion Gofal Iechyd https://www.gov.uk/government/organisations/medicines-and-healthcare-products-regulatory-agency/about
- Polisi a Chanllawiau Cynghorau Ymchwil y Deyrnas Unedig ar Lywodraethu Ymchwil Da http://www.rcuk.ac.uk/Publications/researchers/grc/
- Deddf Meinwe Dynol 2004 http://www.opsi.gov.uk/acts/acts2004/ukpga_20040030_en_1
- Deddf Gwarchod Grwpiau sy'n Agored i Niwed 2006 http://www.opsi.gov.uk/acts/acts2006/ukpga_20060047_en_1
- Rheoliadau Meddyginiaethau at Ddefnydd Dynol (Treialon Clinigol) 2004 http://opsi.gov.uk/si/si2004/20041031.htm
- Concordat Cynnal Cywirdeb Ymchwil Prifysgolion y Deyrnas Unedig http://www.universitiesuk.ac.uk/highereducation/Pages/Theconcordattosupportresearchintegrity.aspx#.VPYka4teKfQ
- Fframwaith Moeseg Ymchwil http://www.esrc.ac.uk/about-esrc/information/framework-for-research-ethics/
- Cyngor Ymchwil Economaidd a Chymdeithasol http://www.esrc.ac.uk/about-esrc/information/research-ethics.aspx
- Cymdeithas Seicolegol Prydain www.bps.org.uk
- Cymdeithas Gymdeithasegol Prydain http://www.britsoc.co.uk
- Y Cyngor Meddygol Cyffredinol (Canllawiau Ymchwil) http://www.gmc-uk.org/guidance/ethical_guidance/research.asp
- Y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth www.nmc-uk.org chwiliwch dan 'Research and audit'
- Cewch drosolwg o'r Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth yma: http://www.shef.ac.uk/polopoly_fs/1.119826!/file/FOIOverview.pdf
- Canllawiau ar foeseg cyhoeddi: http://exchanges.wiley.com/medialibrary/2014/03/17/8440af20/Best%20Practice%20Guidelines%20on%20Publishing%20Ethics%202ed.pdf
- Swyddfa Ymchwil a Chywirdeb y Deyrnas Unedig www.ukrio.org/

- System Ymgeisio Integredig ar gyfer Gwaith Ymchwil - system sengl ar gyfer ceisiadau a chymeradwyaeth ymchwil iechyd a gofal cymdeithasol/ gofal cymunedol yn y Deyrnas Unedig https://www.myresearchproject.org.uk/
- Cydweithrediad Ymchwil Glinigol y Deyrnas Unedig http://www.ukcrc.org/regulation-governance/
- Sefydliad Cenedlaethol ar gyfer Ymchwil Gofal Cymdeithasol ac Iechyd, adrannau moeseg a llywodraethu'r wefan: http://www.wales.nhs.uk/sites3/page.cfm?orgid=952&pid=57178
- Pwyllgor ar Foeseg Cyhoeddi http://publicationethics.org/resources/code-conduct
- Ymgynghorwyr gwrthderfysgaeth, Heddlu De Cymru

  http://www.south-wales.police.uk/more-about-us/counter-terrorism-security-advisors/
- Dyletswydd gofal yn y sectorau addysg uwch ac addysg bellach, Gwybodaeth Gyfreithiol y Cyd-bwyllgor Systemau Gwybodaeth http://www.jisclegal.ac.uk/Portals/12/Documents/PDFs/dutyofcare.pdf
- Liability for psychiatric illness, LC249, Comisiwn y Gyfraith.

  http://lawcommission.justice.gov.uk/docs/lc249_liability_for_psychiatric_illness.pdf
- Oversight of security-sensitive research material in UK universities: guidance, Prifysgolion y Deyrnas Unedig. http://www.universitiesuk.ac.uk/highereducation/Documents/2012/OversightOfSecuritySensitiveResearchMaterial.pdf

**ATODIAD 3**

**Cyfarwyddyd i staff a Myfyrwyr sy'n cyrchu deunydd ar-lein sy'n sensitif o ran diogelwch**

Mae gan brifysgolion yn y Deyrnas Unedig rôl hanfodol wrth gynnal ymchwil i faterion lle mae deunydd weithiau'n sensitif o ran diogelwch. Weithiau, mae'r awdurdodau'n gallu camddehongli'r fath ddeunydd, ac o'i gylchredeg yn ddi-ofal gall yr awdur fod mewn perygl o gael ei arestio neu ei erlyn dan y ddeddfwriaeth gwrthderfysgaeth, er enghraifft. Felly, argymhellir gweithdrefnau penodol ar gyfer cofrestru'r fath ddeunydd yn annibynnol, a'i gadw, yn rhan o'r broses moeseg ymchwil.

Mae llwyth enfawr o ddeunydd sy'n sensitif o ran diogelwch a allai fod yn berthnasol iawn i sawl math o ymchwil academaidd hollol ddilys. Fodd bynnag, ar adegau, dygwyd achos yn erbyn unigolion o dan ddeddfwriaeth gwrthderfysgaeth y Deyrnas Unedig ar sail cronni deunydd wedi'i lawrlwytho a deunydd arall ar gyfrifiadur personol. Mae hyn yn digwydd oherwydd na all yr heddlu wahaniaethu rhwng cronni'r fath ddeunydd at ddibenion ymchwil dilys a'i gronni ar ddibenion terfysgaeth.

Nid lawrlwytho'r fath ddeunydd yw'r unig broblem, ond hefyd y ffaith y gall ymchwilwyr ymweld â gwefannau sensitif o ran diogelwch, a gallai'r heddlu ddehongli hynny fel tystiolaeth o gydymdeimlad â therfysgaeth, neu hyd yn oed parodrwydd i gydgynllwynio â therfysgwyr. Gellir amau bod myfyrwyr sy'n ymweld â gwefannau eithafol o chwilfrydedd yn troseddu yn erbyn deddfwriaeth gwrthderfysgaeth.

Mae angen diogelu ymchwilwyr prifysgol sy'n ceisio cyflawni prosiectau ymchwil sydd â'r nod o fodloni gofynion gwrthderfysgaeth rhag goruchwylio gormodol neu ymwthiol lle bo modd. Byddai modd cyflawni hynny trwy broses goruchwylio dilys sy'n datgelu ymchwilwyr o fewn y Coleg neu'r Brifysgol. Un ffordd o ddilysu prosiect ymchwil ar ddeunydd sy'n ymwneud â therfysgaeth fyddai cymeradwyaeth gan Bwyllgor Moeseg Ymchwil y Coleg a Phennaeth y Coleg neu'r Cyfarwyddwr Ymchwil, a thynnu sylw Is-bwyllgor Moeseg a Llywodraethu Ymchwil y Brifysgol at y prosiect.

Mae'r cyfiawnhad moesegol cyffredinol am wneud hynny'n syml: gall cyrchu a defnyddio gwybodaeth sy'n sensitif o ran diogelwch beri risg i'r cyhoedd, a gellir amau bod ymchwilwyr wedi cael gafael ar y deunydd, neu ei ddefnyddio, mewn modd a allai beri niwed, gyda chost i'r unigolyn ac i'r sefydliad. Mae datganiad gan fyfyriwr neu academydd ei fod yn defnyddio deunydd sy'n sensitif o ran diogelwch yn gyson ag egwyddor gonestrwydd ymchwil, ac yn helpu i leihau'r posibiliad o gamddehongli'r ymchwil fel gweithred troseddol neu amheus.

Yn ogystal â gofyn am y datganiad ei hun, gall y Brifysgol ddarparu cyfleusterau i gadw'r fath ddeunydd ar weinydd y Brifysgol dan oruchwyliaeth Adran TG y Brifysgol, Swyddog Moeseg y Coleg, neu swyddog perthnasol arall. Mae cadw'r deunydd yn ddiogel yn ganolog, a dealltwriaeth ymhlith ymchwilwyr na cheir rhannu neu gyfnewid ffeiliau o'r storfa hon, yn cadw'r deunydd oddi ar gyfrifiaduron personol, ac yn ei ddiogelu rhag sylw a chamddehongli allanol yn ddi-sail.

Gall cadw'r deunydd yn ddiogel ac yn ganolog olygu bod ymchwilwyr yn cofrestru i ddefnyddio deunydd sy'n sensitif o ran diogelwch. O ganlyniad, bydd modd rhoi dolen i fyfyrwyr at

ddogfennau a ddiogelir gan gyfrineiriau ar weinydd canolog yn y Brifysgol, lle caiff y myfyriwr lwytho dogfennau sy'n sensitif o ran diogelwch. Dim ond yr ymchwilydd ei hun fydd â mynediad at y dogfennau, a'r arfer fydd na chânt eu cylchredeg. Ni fydd Swyddog Moeseg y Coleg neu'r swyddogion eraill sy'n goruchwylio'r storfa ond yn gwybod teitlau'r dogfennau ar y gweinydd ac enw'r ymchwilydd. Mae hyn yn fodd o gadw deunydd ymchwil yn ddiogel, ac o bosibl y tu hwnt i gyrraedd y gyfraith.

**Cyfarwyddyd 'Dyletswydd Atal' y Swyddfa Gartref ar gyfer Cymru a Lloegr:**
Disgwylir y bydd prifysgolion yn gwneud asesiad risg sy'n asesu pryd a sut y gellid denu myfyrwyr at derfysgaeth. Mae hyn yn cynnwys eithafiaeth dreisiol a hefyd eithafiaeth ddi-drais, a all greu awyrgylch sy'n ffafrio terfysgaeth a phoblogeiddio safbwyntiau y gall terfysgwyr elwa arnynt. Dylai unrhyw sefydliad sy'n nodi risg lunio cynllun gweithredu *Atal* i nodi'r hyn a wnaiff i leddfu'r risg. Wrth gyflawni'r ddyletswydd hon, bydd raid i'r sefydliad ddangos ei fod yn barod i gynnal hyfforddiant ymwybyddiaeth *Atal* hefyd, a hyfforddiant arall a all helpu'r staff perthnasol i atal pobl rhag cael eu denu i derfysgaeth, ac i herio syniadau eithafol sy'n codi'r risg o ddenu pobl at derfysgaeth.

Mae'r Swyddfa Gartref yn disgwyl y bydd staff perthnasol yn deall y ffactorau sy'n gyrru pobl i gefnogi ideolegau terfysgaeth neu i ymwneud â gweithgarwch terfysgaeth. Dylai'r fath staff dderbyn hyfforddiant digonol i allu adnabod pryd mae rhywun yn agored i gael ei ddenu at derfysgaeth, ac i wybod sut i ymateb.

O ran cyrchu deunydd sy'n sensitif o ran diogelwch, rhaid i staff a myfyrwyr gydymffurfio â:

- canllawiau'r Ddyletswydd Atal; cyfarwyddyd y Swyddfa Gartref sy'n egluro'r ddyletswydd newydd ar sefydliadau i helpu i wrthsefyll radicaleiddio https://www.gov.uk/government/publications/prevent-duty-guidance.
- Deddf Terfysgaeth 2006; mae adrannau 2 a 3 o Bennod 11 yn gwahardd lledaenu cyhoeddiadau terfysgaeth (sydd â diffiniad eang)
- rheoliadau'r Brifysgol - http://www.swansea.ac.uk/iss/mits/computer%20regs/

**Trafod â'r Heddlu neu'r Gwasanaethau Diogelwch**

Heddlu De Cymru sy'n gyfrifol am ardal Abertawe. Mae gan yr Heddlu Ymgynghorwyr Diogelwch Gwrthderfysgaeth penodol. Mae'r rhain yn cael eu cydlynu a'u hyfforddi gan y Swyddfa Diogelwch Gwrthderfysgaeth Genedlaethol sydd hefyd yn rheoli eu gwaith. Mae'r Swyddfa'n uned arbenigol o'r heddlu sydd wedi'i chydleoli â'r Gwasanaeth Diogelwch yn y Ganolfan Diogelu Isadeiledd Cenedlaethol. Fodd bynnag, caiff sefydliadau gysylltu â'r Ymgynghorydd Atal Troseddu Tactegol yn y lle cyntaf am gyngor ar atal troseddu os nad yw'n fater brys.

Dylai unrhyw unigolyn sy'n bwriadu cynnal ymchwil sy'n sensitif o ran diogelwch gysylltu â Rheolwr Llywodraethu Ymchwil a Chydymffurfio'r Brifysgol i geisio cyngor am:

- y ffordd orau o ddiogelu'r myfyriwr pe byddai terfysgwyr yn gallu cysylltu ag e;
- y ffordd orau o gyrchu gwybodaeth heb droseddu.

**Atodiad 4**

**Terminoleg allweddol**

*Gan fwyaf, tynnir y rhain o Fframwaith Moeseg Ymchwil y Cyngor Ymchwil Economaidd a Chymdeithasol.*

**Adneuydd y Data/Cynhyrchydd y Data:** Mae adneuydd neu gynhyrchydd data yn unigolyn neu sefydliad a enwir ar drwydded fel y sawl sydd â digon o gyfrifoldeb i ganiatáu hawliau penodol ar ran casgliad data. Mae'n bosibl mai'r prif ymchwilydd, y crëwr neu ddeiliad yr hawlfraint fydd hwn, ond nid oes raid felly.

**Adolygiad llai beichus**: Mae adolygiadau llai beichus yn nodi'r prosiectau hynny lle nad oes fawr ddim o berygl o niwed i gyfranogwyr na phobl eraill y mae'r ymchwil arfaethedig yn effeithio arnynt. Mewn llawer i achos, dyma'r unig adolygiad moesegol y bydd ei angen. Dylid cwblhau'r rhestr wirio Moeseg. Mae angen i Bwyllgor Moeseg Ymchwil gadarnhau nad oes ond angen adolygiad llai beichus.

**Adolygiad sydyn**: Mewn amgylchiadau eithriadol, gall y bydd angen i ymchwil arfaethedig a allai beri niwed gael adolygiad llawn ar fyr rybudd. Cynhelir adolygiad sydyn gan un neu fwy o aelodau Pwyllgor Moeseg Ymchwil, fel arfer y cadeirydd, ac nid gan aelod o'r adran sy'n bwriadu cynnal yr ymchwil.

**Aelod lleyg (o Bwyllgor Moeseg Ymchwil)**: Ni ddylai'r unigolyn fod ag unrhyw gysylltiad â'r sefydliad ymchwil heblaw am ei aelodaeth o'r Pwyllgor, a gall gynrychioli persbectif cyfranogwyr yr ymchwil yn y Pwyllgor Moeseg Ymchwil.

**Awduriaeth**: Yn ôl y Pwyllgor ar Foeseg Cyhoeddi, mae Awduriaeth yn cyfeirio at grëwr syniad neu at y sawl sy'n ei ddatblygu neu'n creu'r cynnyrch sy'n lledaenu gwaith deallusol neu greadigol. Mae'n rhoi breintiau a chyfrifoldebau sylweddol a hawliau cyfreithiol; ym maes ysgolheictod, mae hefyd yn sail gwobrwyo a chynnydd gyrfa. Man lleiaf, dylai awduron warantu eu bod wedi gwneud y gwaith fel yr honnir ac nad ydynt wedi tramgwyddo yn erbyn hawliau cyfreithiol (megis hawlfraint) unrhyw awdur arall yn y broses.

**Biobanc:** (banc meinwe ymchwil) (http://www.nres.nhs.uk/applications/approval-requirements/ethical-review-requirements/research-tissue-banks-biobanks/): Casgliad o feinwe dynol neu ddeunydd biolegol arall a gedwir at ddibenion ymchwil posibl y tu hwnt i gylch bywyd prosiect penodol.

**Caniatâd:** Cytundeb unigolyn na all roi cydsyniad gwybodus o'i wirfodd i gymryd rhan mewn ymchwil.

**Canlyniadau a dulliau:** Cyfiawnheir ymchwil yn nhermau moesegol i'r graddau bod yr amcanion a'r dulliau yn foesegol gadarn. Felly, hyd yn oed pe byddai modd i brosiect ymchwil gynhyrchu canlyniadau a allai fod o fudd i filoedd o bobl, ni chaiff yr ymchwil ei chymeradwyo oni fydd y dulliau arfaethedig o gynhyrchu'r canlyniadau hynny'n foesegol gadarn.

**Cydsyniad dilys:** Mae cydsyniad yn ddilys os yw'n bodloni tri amod: mae gan y cyfranogwr y gallu i wneud y penderfyniad; does dim gorfodaeth yn y broses; ac mae'r cydsyniad yn

wybodus. Rhaid i'r cyfranogwr ddeall yr holl risgiau posibl cyn y bydd y cydsyniad yn ddilys. Os oes amheuaeth am hyn, mae'n bosibl y bydd Deddf Galluedd Meddyliol 2005 a Deddf Oedolion ag Analluedd (Yr Alban) 2000 yn berthnasol.

**Cydsyniad eang:** tybiwyd bod hyn yn hanfodol er mwyn hwyluso ymchwil biobanc. Gofynnir i gyfranogwyr, ar adeg casglu'r samplau neu'r data, gydsynio i samplau a data gael eu defnyddio mewn biobanc yn hytrach nag ar gyfer prosiect penodol neu fathau penodol o ymchwil. Mae cydsyniad eang yn golygu cydsynio i fframwaith ar gyfer rhai mathau o ymchwil yn y dyfodol. Mae'r fframwaith hwn yn cynnwys adolygiad moesegol o bob prosiect ymchwil penodol gan bwyllgor moeseg annibynnol, yn ogystal â strategaethau i roi diweddariadau rheolaidd i'r sawl sy'n rhoi deunydd i'r biobanc, a chyfleoedd iddynt ddiddymu eu cydsyniad. Os bydd unrhyw beth yn y fframwaith yn newid, dylid ceisio cydsyniad y cyfranogwr o'r newydd.

**Cydsyniad gwybodus a roddir o wirfodd:** Mae cael cydsyniad gwybodus yn golygu darparu digon o wybodaeth am yr ymchwil a sicrhau nad oes unrhyw orfodaeth amlwg neu gudd fel y caiff darpar gyfranogwyr ddod i benderfyniad gwybodus o'u gwirfodd am eu hymwneud posibl. Fel rheol, dylid darparu'r wybodaeth mewn ysgrifen, dylid caniatáu digon o amser i'r cyfranogwyr ystyried eu dewisiadau, a dylai'r ffurflenni gael eu llofnodi gan y cyfranogwyr i nodi eu cydsyniad. Os nad yw'r cyfranogwyr yn gallu darllen, gellir cael cydsyniad llafar, ond lle bynnag y bo modd dylid cael tyst i hyn, a dylid ei recordio. Mewn amgylchiadau eraill, er enghraifft cyfweliadau ffôn, mae'n bosibl na fydd modd cael cydsyniad ysgrifenedig, na thyst, ond dylid sicrhau cydsyniad llafar. Lle na fwriedir cael cydsyniad, dylid cyflwyno datganiad llawn i'r Pwyllgor Moeseg Ymchwil i gyfiawnhau hynny. Yn achos ymchwil hydredol, mae'n bosibl y bydd angen esbonio pam bod angen cydsyniad parhaol (a'r cyfyngiadau ar hynny). Y prif nod yw cynnal ymchwil mewn modd agored heb dwyll. Ni ddylid defnyddio twyll (hynny yw, mewn sefyllfa lle nad yw'r cyfranogwyr yn cael gwybodaeth lawn, neu le maent yn cael gwybodaeth gamarweiniol am nod yr ymchwil am resymau methodolegol) ond pan fetho popeth arall a phan nad oes dull arall ar gael. Rhaid cyflwyno unrhyw ymchwil sy'n defnyddio twyll i'r Pwyllgor Moeseg Ymchwil i'w hadolygu. Mae'r egwyddor hon yn golygu bod yn rhaid hysbysu'r staff ymchwil yn llawn am yr ymchwil arfaethedig ac unrhyw risgiau posibl iddynt.

**Cydsyniad parhaol**: Dyma gydsyniad sydd heb gyfyngiad amser oni thynnir y cydsyniad yn ôl. Nid oes rhaid ail-gysylltu â chyfranogwyr os defnyddir gwybodaeth bersonol amdanynt eto am ymchwil bellach. Gall ceisio cydsyniad parhaol fod yn hanfodol mewn astudiaethau hydredol. Gall fod yn bwysig hefyd yn achos data y darperir mynediad iddynt gan Wasanaeth Data'r Deyrnas Unedig. Mae egwyddorion cadw cyfrinachedd yn dal yn berthnasol.

**Cyfranogwyr dynol**: Y diffiniad o gyfranogwyr dynol yw unrhyw unigolion byw, unigolion sydd wedi marw'n ddiweddar (cyrff, gweddillion dynol, a rhannau corff), embryonau a ffoetysau, meinwe dynol a hylif o'r corff, a data a chofnodion am unigolion (megis, ond heb ei gyfyngu i, cofnodion meddygol, genetig, ariannol, personél, troseddol neu weinyddol a chanlyniadau profion gan gynnwys cyraeddiadau academaidd).

**Cyfrifoldeb:** Mae'r cyfrifoldeb am gynnal yr ymchwil mewn modd moesegol, gan gynnwys cyflwyno a chyhoeddi'r ymchwil, ar yr ymchwilydd. Dylai'r ymchwilydd ystyried dyluniad y prosiect o gymharu â chanllawiau moesegol safonol ar gyfer cynnal ymchwil (gweler islaw am ddolenni i ddogfennau perthnasol) yn ogystal â'r rheoliadau yn y ddogfen Fframwaith hon.

**Cyfrinachedd:** Fel arfer, bydd gwybodaeth a gesglir ynglŷn â gwrthrych ymchwil wedi'i diogelu, er enghraifft drwy fod yn ddienw neu drwy ddulliau eraill sy'n rhwystro adnabod unigolion. Dylid cadw data am gyfranogwyr, boed yn ddata electronig neu'n gopi caled, yn ddiogel, a'u gwarchod, tan gael gwared arnynt. Dylai cyfranogwyr fod yn ymwybodol o gyfyngiadau'r strategaethau diogelu hyn, yn unol â thelerau'r Ddeddf Diogelu Data (1998) a'r Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth (2000).

**Cylch bywyd prosiect ymchwil**: Mae hyn yn cynnwys y cyfnod cynllunio, cyfnod ariannu'r prosiect, a'r holl weithgarwch ynghylch y prosiect ar ôl diwedd yr ariannu. Mae hefyd yn cynnwys cyfnewid gwybodaeth a sicrhau effaith, y broses o ledaenu'r canfyddiadau, ac archifo a rhannu'r data yn ogystal â'u defnyddio at y dyfodol a'u cysylltu â data eraill.

**Cysyniad gwybodus**: Fel arfer, mae cysyniad gwybodus gan gyfranogwyr yr ymchwil yn ofyniad ar gyfer ymchwil sy'n gadarn yn foesegol. Dylid hysbysu'r cyfranogwyr am natur a hyd yr ymchwil mewn geiriau clir, gan roi digon o amser iddynt benderfynu a ydynt am gyfranogi ai peidio. Hefyd, dylid hysbysu'r cyfranogwyr y gallant ddewis peidio â chyfranogi yn yr ymchwil ar unrhyw adeg (neu o leiaf tan droi'r data yn ddata dienw) heb ofni pwysau na chosb. Tybir bod rhai cymelliadau'n gallu cyfaddawdu'r syniad o gydsyniad gwybodus, gan godi amheuon a roddwyd y cydsyniad o wirfodd y cyfranogwr. Hefyd, gall methu mynegi amcanion, dulliau a chwmpas yr ymchwil fod yn niweidiol i'r syniad o gydsyniad gwybodus.

**Cywirdeb**: Mae Cywirdeb Ymchwil yn golygu bod ymchwilwyr a sefydliadau ymchwil yn mynd ati i lynu'n dynn wrth yr egwyddorion moesegol a safonau proffesiynol a deddfwriaethol sy'n hanfodol er mwyn cynnal ymchwil cyfrifol. Dylai ymchwilwyr gyflwyno eu gwaith yn gywir, parchu'r egwyddorion a ddisgrifir yn y Fframwaith, datgelu unrhyw wrthdaro buddiannau, a pharchu'r meini prawf sefydledig o ran awduraeth.

**Data wedi'u rheoli:** data a allai ddatgelu enw cyfranogwr, ond bod modd caniatáu mynediad atynt i ddefnyddwyr achrededig os yw eu defnydd o'r data wedi'i gymeradwyo gan Bwyllgor Mynediad at Ddata perthnasol. Weithiau bydd darparwyr gwasanaethau data yn darparu manylion eu polisïau o ran mynediad at ddata wedi'u rheoli. Un enghraifft yw Gwasanaeth Data'r Deyrnas Unedig (http://ukdataservice.ac.uk/get-data/data-access-policy/controlled-data.aspx).

**Gorfodaeth**: Er mwyn i gydsyniad i gymryd rhan mewn ymchwil fod yn gadarn o safbwynt moesegol, rhaid cael gwared ar unrhyw bosibilrwydd bod y cydsynio'n ganlyniad i orfodaeth. Mae gorfodaeth yn dirymu cydsyniad gwrthrych yr ymchwil.

**Gwarchodwr y Data (y Rheolydd Data)**: dyma'r sawl sy'n pennu at ba ddibenion ac ym mha ffordd y ceir prosesu gwybodaeth bersonol yn unol â'r Ddeddf Diogelu Data (https://ico.org.uk//for-organisations/guide-to-data-protection/).

**Gwrthdaro Buddiannau**: Mae gwrthdaro buddiannau'n sefyllfa lle mae'n bosibl y bydd ystyriaethau ariannol neu ystyriaethau personol eraill yn amharu ar, neu'n gogwyddo, barn broffesiynol neu wrthrychedd. Gall gwrthdrawiadau buddiannau effeithio ar unigolion yn ogystal â sefydliadau, ac mae modd eu rhannu'n fras i ddau gategori: **amhenodol** – yn

ymwneud â gweithgarwch academaidd ac ysgoloriaethau; a **phenodol** – yn ymwneud â pherthynas ariannol.

**Gwybodaeth Bersonol:** O dan Ddeddf Diogelu Data 1998, diffiniad gwybodaeth bersonol yw gwybodaeth sy'n ymwneud ag unigolyn byw y mae modd ei adnabod a) o'r wybodaeth honno, neu b) o'r wybodaeth honna a gwybodaeth arall sydd ym meddiant y rheolydd data, (neu sy'n debyg o ddod i'w feddiant) gan gynnwys unrhyw farn a fynegir am yr unigolyn ac unrhyw arwydd o fwriad y rheolydd data neu unrhyw berson arall o ran yr unigolyn. Dan y ddeddf hon, mae gwybodaeth bersonol yn cynnwys gwybodaeth am (a) tarddiad hiliol neu ethnig gwrthrych y data, (b) ei farn bersonol, (c) ei gred grefyddol neu gred arall o natur gyffelyb, (ch) a yw'n aelod o undeb llafur (o fewn ystyr Deddf Undebau Llafur a Chysylltiadau Llafur (Cydgrynhoi) 1992 [1992 c52]), (d) ei iechyd neu gyflwr corfforol neu feddyliol, (dd) ei fywyd rhywiol, (e) unrhyw drosedd neu drosedd honedig a gyflawnwyd ganddo, neu (f) unrhyw drafodion ynghylch unrhyw drosedd neu drosedd honedig, canlyniad y fath drafodion, neu ddedfryd y llys.

**Moeseg ymchwil:** Mae moeseg ymchwil yn cyfeirio at yr egwyddorion moesegol sy'n llywio ymchwil, o'i chychwyn tan gyhoeddi'r canlyniadau a'r tu hwnt - er enghraifft gofalu am ddata a samplau corfforol, cyfnewid gwybodaeth, a gwaith i sicrhau effaith ar ôl cyhoeddi'r ymchwil.

**Peidio â chreu niwed**: Ni ddylai cymryd rhan mewn ymchwil fel arfer achosi niwed i'r cyfranogwr na chyfaddawdu ei fuddiannau.

**Preifatrwydd**: Ni ddylai dulliau ymchwil fel arfer amharu ar breifatrwydd y cyfranogwyr. Dylai ymchwilwyr fod yn sensitif i sefyllfaoedd lle y gall pobl ddisgwyl yn rhesymol i eraill edrych ar eu hymddygiad, neu beidio, a'i gofnodi at ddiben ymchwil.

**Protocolau Moeseg**: Defnyddir protocolau cymeradwy am sefyllfaoedd sy'n codi'n aml, megis ymchwil yn ymwneud â disgyblion sy'n datblygu'n arferol mewn ysgolion. Gall y rhain gyflymu'r broses o gynnal adolygiad moesegol, gan y gall prif ymchwilwyr gadarnhau, mewn adolygiad llai beichus, i'r Pwyllgor Moeseg Ymchwil bod protocol cymeradwy yn bodoli, sy'n briodol ar gyfer y materion moesegol sy'n codi o'r ymchwil. Cyfrifoldeb Pwyllgor Moeseg Ymchwil y Coleg yw cymeradwyo'r protocol arfaethedig ar gyfer y gwaith.

**Pwyllgor Moeseg Ymchwil:** Y Pwyllgor Moeseg Ymchwil sydd â'r cyfrifoldeb am adolygu prosiectau ar gyfer cymeradwyaeth foesegol. Seilir annibyniaeth y Pwyllgor ar ei aelodaeth, ar reolau llym ynghylch gwrthdaro buddiannau, ac ar fonitro ei benderfyniadau yn rheolaidd ac atebolrwydd amdanynt.

**Rhagoriaeth:** Mae rhagoriaeth mewn ymchwil yn waith sy'n dangos gwreiddioldeb ac sy'n cael effaith ar y pwnc y mae modd ei weld. Rhaid i ymchwilwyr ymdrechu i sicrhau rhagoriaeth wrth gynnal ymchwil, gan geisio cynhyrchu a lledaenu gwaith o ansawdd rhyngwladol (neu genedlaethol, lle bo'n briodol).

**Sensitifrwydd diwylliannol:** Mae Amrywiaeth yn cyfoethogi ac yn cryfhau diwylliant a pherfformiad ymchwil unrhyw sefydliad. Mae Amrywiaeth yn golygu y gall ymchwil amrywio'n helaeth rhwng un cyd-destun a chyd-destun arall. Felly, gall yr ystyriaethau moesegol o ran

cyfranogwyr ymchwil amrywio'n sylweddol rhwng disgyblaethau academaidd. Mae hyn felly'n awgrymu mai'r ffordd orau o gynnal adolygiad moesegol ffurfiol o ymchwil arfaethedig sy'n defnyddio cyfranogwyr dynol yw o fewn y maes pwnc, yn unol â'r paramedrau a osodir gan y Fframwaith Sefydliadol.

**Tryloywder o ran moeseg ymchwil**: Mae bob amser yn bwysig datgelu gwybodaeth berthnasol yn llawn, yn gywir, ac yn agored. Lle'r mae'r ymchwil yn cynnwys methodolegau newydd ac arloesol sy'n codi ystyriaethau unigryw (er enghraifft ymchwil ar-lein), mae hyn yn arbennig o bwysig.

**Twyll:** Mae twyll yn groes i'r syniad o gydsyniad gwybodus, ac yn amddifadu cyfranogwr o wybodaeth a fyddai'n caniatáu iddo wneud penderfyniadau sy'n effeithio ar eu cyfranogiad gyda dealltwriaeth resymol am gyd-destun, nod, a chwmpas yr ymchwil. Fel arfer, mae'n annerbyniol wrth gynnal ymchwil. Fodd bynnag, fel arfer ni thybir bod defnyddio moddion ffug mewn hap dreial rheoledig yn dwyllodrus, er efallai na fydd y cyfranogwyr yn gwybod a ydynt yn derbyn moddion ai peidio. Ar adegau, gall fod rhesymau da dros beidio â rhoi gwybodaeth weddol lawn i gyfranogwyr, ond rhaid nodi'r rhain cyn cael cymeradwyaeth, gan egluro pam bod yr wybodaeth a enillir yn werthfawr a pham nad oes modd cael yr wybodaeth ond dan amodau twyll, yn rhannol neu'n llawn (er enghraifft gwybodaeth gamarweiniol, gwybodaeth anghyflawn, gwybodaeth rannol wir). Lle cymeradwyir dulliau twyllodrus, tybir ei bod yn bwysig esbonio hynny ar ôl y profion, er mwyn cynnal ffydd yn y gymuned ymchwil.

**Urddas a Pharch**: Ni ddylai ymchwilwyr ddylunio ymchwil sy'n bygwth urddas y cyfranogwyr, a dylent osgoi dulliau a allai greu embaras neu gyfaddawdu urddas y cyfranogwyr. Un ffordd o fethu parchu urddas cyfranogwyr yw trwy eu defnyddio yn ddim mwy na modd o gyflawni amcanion yr ymchwilydd. Fel arfer, mae'r ymchwilydd yn elwa mwy ar yr ymchwil na'r cyfranogwyr. Tybir bod esboniad ac adborth i gyfranogwyr yn dangos parch. Dylid cynnal ymchwil sy'n ymwneud ag anifeiliaid, yr amgylchedd a gwrthrychau diwylliannol gyda phob dyledus ofal a pharch.

**Ymchwil gan fyfyrwyr:** Fel arfer, nod ymchwil yw creu gwybodaeth newydd. Ond yn achos ymchwil myfyrwyr, rhan o werth y broses ymchwil yw'r broses addysgu, er mwyn hyfforddi cenhedlaeth newydd o ymchwilwyr. Felly nid yw cynhyrchu gwybodaeth newydd yn ofyniad llym o ran ennill cymeradwyaeth foesegol ar gyfer ymchwil myfyrwyr. Serch hynny, dylid pwysleisio bod yr un egwyddorion moesegol sy’n cyfyngu ar ymchwil yn gyffredinol hefyd yn berthnasol i ymchwil myfyrwyr.

**Ymchwil**: Diffiniad ymchwil yw unrhyw fath o ymchwilio disgybledig sy'n ceisio cyfrannu at gyfanswm gwybodaeth neu ddamcaniaeth.

**Polisi Prifysgol Abertawe ar Reoli Data Ymchwil**

Mae Prifysgol Abertawe'n cydnabod bod angen arferion rheoli data effeithiol i gefnogi cylch bywyd llawn ymchwil. Yn gynyddol, mae'r amgylchedd ymchwil yn y Deyrnas Unedig, gan gynnwys polisïau'r Cynghorau Cyllido, yn gofyn am ddulliau cynhwysfawr o ofalu am ddata ymchwil, gan gynnwys cynllunio, llwytho'r data, cadw'r data, a mynediad at y data.

Mae data'n elfen sylfaenol o gynnal ymchwil o safon, a chaiff eu trin yn adnodd at y dyfodol.

Mae'r polisi hwn yn amlinellu egwyddorion allweddol Rheoli Data Ymchwil ym Mhrifysgol Abertawe, gan geisio cydbwysedd rhwng prosiectau ymchwil a'r canol. Dylid darllen y polisi ar y cyd â'r Fframwaith Llywodraethu Ymchwil.

**Cwmpas**

Mae'r polisi hwn yn ddilys ar gyfer holl aelodau'r Brifysgol a'r holl ddata a grëir yn ystod ymchwil neu weithgarwch tebyg sy'n cefnogi allbynnau ymchwil. Gall setiau data amrywio o gronfeydd data mawr ym meysydd meddygaeth a chyfrifiadura i ddata arolwg gan fyfyrwyr ôl-raddedig.

Mae'n bosibl bod gofynion penodol ar gyfer rhai meysydd ymchwil, er enghraifft profion clinigol. Gweler Fframwaith Llywodraethu Ymchwil Prifysgol Abertawe am ragor o wybodaeth.

Nid yw'r polisi hwn yn ymestyn i gynnwys data a chofnodion gweinyddol prosiect: dogfennau ymgeisio, contractau, hysbysiadau ariannu, cofnodion prosiect ac yn y blaen. Caiff y rhain eu rheoli trwy'r Gwasanaeth Ymchwil, Menter, ac Arloesi. (Darllen mwy…)

Y Gwasanaeth Ymchwil, Menter, ac Arloesi. (Darllen mwy…)

**Cyfrifoldebau**

Y Prif Ymchwilydd sy'n gyfrifol am sicrhau bod ceisiadau, contractau a gwaith prosiect yn bodloni gofynion yr arianwyr a'r Brifysgol. Bydd y Brifysgol yn cefnogi'r gwaith hwn trwy ddarparu hyfforddiant, cyngor a chyfarwyddyd.

Gwasanaethau TG Prifysgol Abertawe sy'n gyfrifol am agweddau technegol yr isadeiledd angenrheidiol i gadw data am y tymor hir. Cyfrifoldeb Llyfrgelloedd Prifysgol Abertawe yw agweddau eraill ar gatalogio data, gofalu amdanynt, a mynediad atynt.

Mae data ymchwil yn eiddo Prifysgol Abertawe a/neu arianwyr y prosiect yn unol â'r Polisi ar Eiddo Deallusol. (Darllen mwy…)

**Cynllunio Rheoli Data**

Yn gynyddol, tybir mai arfer da yw diffinio cynllun rheoli data am bob prosiect ymchwil, ac yn

gynyddol mae arianwyr yn disgwyl gweld y fath gynllun yn rhan o'r cais am ariannu. Dylai cynllun rheoli data fod yn ddogfen fyw sy'n cyflwyno'r cynllun gwreiddiol ond sydd hefyd yn adlewyrchu unrhyw newidiadau yn arferion creu a chadw data'r prosiect yn ystod oes y prosiect.

Dylid ystyried y costau o ofalu am, a chadw, data ar gyfer setiau data mawr yn ystod y broses o ysgrifennu'r cais a, lle caniateir hyn, dylid eu cynnwys yn y cais.

**Llwytho'r data**

1) Dylid adolygu'r cynlluniau ar gyfer meta-data a rheoli data i sicrhau bod y disgrifiadau'n gywir
2) Dylid gwirio bod y data'n gywir ac yn gyflawn
3) Gofynion mynediad at y data (argaeledd a thrwyddedu)

Cysylltwch â iss-research@abertawe.ac.uk am ragor o wybodaeth, ac i drefnu llwytho'r meta-data a'r data. Fel arfer, caiff meta-data eu cofrestru'n ganolog. Mae'n bosibl y cânt eu cofrestru a'u cadw mewn cronfeydd data allanol perthnasol hefyd. Os caiff y data ymchwil eu cadw rhywle heblaw am systemau canolog Gwasanaethau Gwybodaeth a Systemau, y Prif Ymchwilydd ei hun sy'n gwbl gyfrifol am sicrhau gofalu am y data, eu diogelu a'u gwarchod, gwneud copïau wrth gefn, ac unrhyw newid fformat.

**Mynediad at ddata**

Mae'n egwyddor o'r awyrgylch ymchwil newydd y dylid sicrhau bod ymchwil a ariennir yn gyhoeddus ar gael yn gyhoeddus. Mae hyn yn cynnwys bod ar gael i grwpiau ymchwil eraill, ac i ddefnyddwyr o blith y cyhoedd a defnyddwyr masnachol. Wrth fodloni'r gofynion hyn, mae modd gwarchod hawl y Brifysgol ac ymchwilwyr i fanteisio ar y data yn academaidd ac yn fasnachol, ac i ddiogelu'r data, ond mae'n debyg y bydd angen ystyried pob sefyllfa'n unigol. Dylai'r metadata, fan lleiaf, fod ar gael, a dylid amlygu amodau mynediad yn glir iawn yn y cynllun rheoli data ar gyfer pob prosiect ymchwil newydd.

Wrth gyhoeddi allbwn unrhyw ymchwil, dylid cynnwys datganiad byr am fynediad at y data.